# Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Abertawe

Gorffennaf 2023









Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Cyngor Abertawe**
**Adran Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas**
**Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, SA1 3SN**
**www.abertawe.gov.uk/cynllunio**

**E-bost: ldp@swansea.gov.uk**

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ **2**
**Crynodeb Gweithredol** ........ **5**
**Pennod 1. Cyflwyniad a Chefndir** ........ **11**
1.1 Cefndir ........ 11
1.2 Diben yr Adroddiad hwn ........ 11
1.3 Strwythur yr Adroddiad hwn ........ 14
**Pennod 2. Newidiadau Cyd-destunol a Ffactorau Eraill sy'n Llywio'r Adolygiad o'r CDLl** ........ **15**
2.1 Cyflwyniad ........ 15
2.2 Newidiadau Cyd-destunol ........ 15
2.3 Canfyddiadau Allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) y CDLl ........ 28
2.4 Canfyddiadau o Fonitro Blynyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) ........ 30
**Pennod 3. Gofynion Sylfaen Dystiolaeth yn y Dyfodol** ........ **33**
3.1 Cyflwyniad ........ 33
3.2 Adolygu'r Sylfaen Dystiolaeth ........ 33
3.3 Data Poblogaeth ac Aelwydydd ........ 34
**Pennod 4. Adolygu CDLl mabwysiedig Abertawe** ........ **39**
4.1 Cyflwyniad ........ 39
4.2 Adolygu Materion, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl ........ 39
4.3 Adolygu Strategaeth Dwf y CDLl ........ 40
***Adolygu Gofynion Graddfa Twf*** ........ 40
***Adolygu'r Ddarpariaeth*** ........ 41
***Strategaeth Ofodol (Polisïau Strategol PS 1, 3 a 4)*** ........ 42

***Cyflawni'r Strategaeth Ofodol*** ... 44
4.4 Adolygu Meysydd Pwnc a Pholisïau Eraill y CDLl ... 51
**Polisïau Tai Manwl** ... 51
**Adfywio a Datblygu Masnachol** ... 56
**Polisi PS 2 Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd** ... 57
**Ardaloedd Datblygu Strategol – Datblygu Strategol / Prif Gynllunio** ... 58
**ER 1 ac ER2 – Ecosystemau a Chadernid** ... 59
**IO 1 – Rhwymedigaethau Cynllunio / Seilwaith** ... 62
**SI1 – Iechyd a Lles** ... 64
**SI 5 / 6 Diogelu / Darparu Mannau Agored** ... 64
**Polisi HC1 – Yr Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol** ... 65
**CV 1- 5 – Datblygiad yng Nghefn Gwlad ac mewn Pentrefi** ... 66
**TR1 – Datblygiad Twristiaeth a Hamdden** ... 68
**EU1 – Ynni a Chyfleustodau** ... 70
**T 1 – Trafnidiaeth, Symudiad a Chysylltedd** ... 72
**RP1 – Diogelu Iechyd / Adnoddau Naturiol** ... 73
**RP 12 – RP 14: Datblygu Cynaliadwy a Diogelu Adnoddau Mwynau** ... 76
**Adolygu Map Cynigion y CDLl** ... 78
**Adolygu Dangosyddion Monitro'r CDLl** ... 78
**Adolygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)/yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)** ... 78
**Adolygu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)** ... 79
**Pennod 5. Cyfleoedd ar gyfer Cydweithio ... 82**
5.1 Cyflwyniad ... 82

5.2 Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a CDLlau ar y Cyd ... 82
5.3 Cydweithio ar Sylfaen Dystiolaeth ... 82
**Pennod 6. Casgliadau a'r Camau Nesaf ... 85**
6.1 Casgliadau ... 85
6.2 Y Camau Nesaf ... 87
**Atodiad 1: Adolygiad o Bolisïau ... 88**
**Atodiad 2: Statws Dyraniadau'r CDLl ... 112**
**Atodiad 3: Rhestr Termau a Byrfoddau ... 116**

## Crynodeb Gweithredol

**Diben yr Adroddiad Adolygu hwn**

1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Abertawe gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019. Mae'r CDLl yn amlinellu fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn ffin y sir am y cyfnod hyd at 1 Ionawr 2026.

2. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ddyletswydd statudol i gadw eu cynlluniau datblygu'n gyfredol a chynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar yr adeg ofynnol. Mae Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor (AMB 3), sy'n rhychwantu'r cyfnod 2021-22, yn amlygu bod **deddfwriaeth genedlaethol[1] yn mynnu bod y Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o CDLl Abertawe dim hwyrach na 4 blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu.** Diben hyn yw sicrhau bod y CDLl, a'i dystiolaeth ategol, yn gyfredol ac yn parhau i ddarparu sail gadarn ar gyfer penderfyniadau cynllunio. O ystyried bod CDLl Abertawe wedi cael ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2019, **mae'n ofyniad statudol i ddechrau adolygiad o CDLl Abertawe erbyn mis Chwefror 2023 fan bellaf.**

3. Amlygodd AMB 3 nad yw rhai o'r dangosyddion monitro sy'n ymwneud â pholisïau CDLl Abertawe yn cyflawni cystal â'r disgwyl, a bod angen ystyried y meysydd hyn ymhellach a chymryd camau priodol. Materion cynllunio strategol allweddol yn hyn o beth yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â darparu tai newydd ar rai dyraniadau CDLl, a darparu lleiniau newydd sy'n ofynnol i fodloni anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

4. O ystyried y canfyddiadau a amlinellir yn yr AMB ynglŷn â rhai dangosyddion monitro, a'r angen i'r adolygiad statudol o CDLl Abertawe fod yn mynd rhagddo erbyn mis Chwefror 2023 sut bynnag, **argymhellodd AMB3 y dylai Adroddiad Adolygu CDLl gael ei baratoi yn unol â'r broses a ragnodir gan ganllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru**.

5. Prif swyddogaethau Adroddiad Adolygu yw pennu'r llwybr gweithdrefnol priodol ar gyfer paratoi Cynllun newydd, ac amlygu materion allweddol i'w hystyried wrth symud ymlaen â'r broses CDLl.

[1] Yn ofynnol gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad CDLl 41(1)

**Y weithdrefn adolygu ar gyfer CDLl newydd Abertawe**

6. Yn y bôn, mae dau lwybr adolygu ar gael i ddewis o'u plith wrth ystyried sut i gynhyrchu CDLl newydd, sef:

- Cynnal proses 'Adolygiad Llawn', gan ddilyn yr un gweithdrefnau ag a ddefnyddiwyd i baratoi'r CDLl mabwysiedig presennol; neu
- Gynnal gweithdrefn 'Adolygiad Byr', lle mae'r paramedrau i'w hystyried yn llawer mwy penodol a chyfyngedig eu cwmpas.

7. Mae gweithdrefnau Adolygiad Byr yn briodol dim ond pan fo'r paramedrau i'w hystyried yn benodol a chyfyngedig iawn eu cwmpas, a phan nad ydynt yn mynd i wraidd Cynllun. Er enghraifft, nid yw gweithdrefn Adolygiad Byr yn berthnasol wrth adolygu graddfa a dosbarthiad twf. Yn ogystal, ac yn hollbwysig, nid yw'r weithdrefn Adolygiad Byr yn cynnwys y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ynglŷn â'r cynigion diwygiedig. Mae ymgynghori ac ymgysylltu ynglŷn â materion cynllunio strategol allweddol, fel gofynion twf, yn elfen bwysig o'r broses o lunio Cynllun ac ni ddylid ei hepgor heb gyfiawnhad clir.

8. Mae'r adroddiad hwn yn dangos, er bod llawer o CDLl Abertawe yn gweithio'n dda, bod angen clir i ddiweddaru sail dystiolaeth y Cynllun. Mae hyn oherwydd y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ond yn bwysicach oherwydd y newidiadau perthnasol arwyddocaol sydd wedi digwydd i'r cyd-destunau cynllunio strategol a chymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i adolygu graddfa twf y boblogaeth wrth symud ymlaen yng ngoleuni data sy'n dod i'r amlwg. Gallai hyn, yn ei dro, olygu bod angen newid graddfa'r strategaeth twf tai a chyflogaeth ar gyfer Abertawe. At hynny, er yr ystyrir bod y strategaeth ofodol bresennol yn gadarn, bydd angen i'r ffordd y caiff ei chyflawni gael ei hadolygu yn erbyn newidiadau perthnasol arwyddocaol ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys y polisïau a'r paramedrau perthnasol a amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol – y Cynllun Datblygu Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu.

9. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos bod angen ystyried p'un a yw canfyddiadau'r AMB diweddaraf, o ran oedi a fu wrth gyflawni rhai safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl, yn golygu bod angen nodi unrhyw ddyraniadau newydd i gyflawni unrhyw ofyniad tai wedi'i ddiweddaru. Byddai hyn yn golygu bod angen adolygiad manwl o ddyraniadau presennol heb eu cyflawni a rhinweddau unigol a'r gallu i gyflawni dyraniadau eraill. Mae'r angen am broses o'r fath yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (argraffiad 11), sy'n datgan bod rhaid i ddigon o safleoedd fod ar gael sy'n addas i'r ystod lawn o fathau o dai i fynd i'r afael ag anghenion canfyddedig cymunedau. Mae hyn yn golygu bod angen

diweddaru'r dystiolaeth o anghenion tai. Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o safleoedd cynaliadwy y gellir eu cyflawni ar gael, mae'n bwysig rhoi cyfle i bob sector a bob math o adeiladwr tai gyfrannu at gyflawni'r gofyniad tai, gan gynnwys rhai cenedlaethol a rhanbarthol, Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau), landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a'r sector adeiladu wedi'i deilwra a hunanadeiladu.

10. Yn seiliedig ar yr adolygiad o CDLl mabwysiedig Abertawe a gynhaliwyd ar gyfer yr Adroddiad hwn, a'r casgliadau a amlinellir ar ddiwedd pob pennod o'r adroddiad, mae'n amlwg mai'r weithdrefn Adolygiad Llawn fyddai'r broses adolygu fwyaf priodol ar gyfer CDLl Abertawe. Byddai hyn yn golygu y byddai CDLl Newydd ar gyfer Abertawe yn cael ei baratoi o 2023 ymlaen, gan ddilyn yr un gweithdrefnau llawn ag a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r CDLl mabwysiedig presennol. Bydd paratoi CDLl Newydd yn sicrhau y gellir parhau i wneud penderfyniadau cynllunio effeithiol yn lleol, yn unol â'r dull a arweinir gan gynllun yng Nghymru sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**11. I grynhoi, mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn dod i'r casgliad bod angen cynnal gweithdrefn Adolygiad Llawn ar gyfer CDLl Abertawe, i alluogi'r ACLl i ymateb i'r materion strategol a'r materion polisi allweddol a godir yn yr Adroddiad hwn, ac i ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth y mae'r CDLl wedi'i seilio arni yn llawn.**

**Newidiadau i'r Dystiolaeth Gefndir a'r Cyd-destun**

12. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at elfennau amrywiol o sylfaen dystiolaeth y CDLl y mae angen eu diweddaru. Mae'r adroddiad yn amlygu y gallai fod angen i unrhyw newidiadau i'r dystiolaeth hon gael eu hadlewyrchu mewn diwygiadau i bolisïau presennol y CDLl, gan gynnwys o ran: yr angen am leiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a darparu'r rheiny; yr angen am dai fforddiadwy; hyfywedd ariannol lefel uchel darparu tai fforddiadwy a gofynion seilwaith ffisegol mewn gwahanol rannau o'r Sir; anghenion a darpariaeth manwerthu; effeithiau dyraniadau ar y seilwaith trafnidiaeth; yr angen posibl i ddarparu ardaloedd ar gyfer echdynnu mwynau; ac adlewyrchu canllawiau cenedlaethol newydd a ddisgwylir ynglŷn â pherygl llifogydd. Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth.

13. Bydd angen adlewyrchu newidiadau i bolisïau ac amgylchiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ogystal â Chymru'r Dyfodol, mae hyn yn cynnwys yr agendâu cynllunio rhanbarthol newydd, y cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Metro De-ddwyrain Cymru, a chyd-destun y Cynllun Lles Lleol diweddaraf.

14. Mae'r adroddiad hwn hefyd wedi nodi y gellir achub ar gyfleoedd i ddiweddaru polisïau a allai elwa o newid eu geiriad er mwyn gwella'r Cynllun, er bod yr AMB wedi dangos eu bod yn gweithio'n effeithiol i raddau helaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu achosion o'r fath, ond nid yw'n manylu ar bob cyfle, a bydd yr ACLl yn parhau i adolygu a mireinio trwy'r broses CDLl Newydd gan adeiladu ar dystiolaeth a gafwyd o brofiad o ddefnyddio'r polisïau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.

15. **Dylid nodi na fwriedir i'r Adroddiad Adolygu hwn fanylu ar y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i'r CDLl, oherwydd bydd y rhain yn cael eu pennu dim ond trwy'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl Newydd.**

**Cyfleoedd i'r ACLl Gydweithio**

16. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC)[2] yn datgan, ar gyfer adolygiadau CDLl, y dylai ACLlau ystyried a dangos eu bod wedi manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i gydweithio wrth baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth. Mae cydweithio'n un o ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn rhan annatod o brofion cadernid y CDLl (h.y. A yw'r cynllun yn gydnaws – A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cyfagos?).

17. Mae'r ACLl wedi archwilio'r opsiynau ar gyfer cydweithio ag ACLlau eraill ar y Cynllun Datblygu, ond o ganlyniad i'r gwahaniaethau sylweddol sy'n bodoli o ran graddfeydd amser Awdurdodau cyffiniol ar gyfer cynhyrchu eu CDLl Newydd, **deuir i'r casgliad mai'r opsiwn mwyaf priodol ar yr adeg hon yw bod y Cyngor yn ymgymryd â'r adolygiad o CDLl Abertawe ar sail ACLl unigol**. Er gwaethaf hyn, lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr ACLl yn parhau i weithio ar y cyd ag ACLlau eraill cymdogol ar gynhyrchu sylfaen dystiolaeth gyson a chydlynol ar draws y rhanbarth (mae elfennau nodedig o waith ar y cyd eisoes wedi dechrau ar rai astudiaethau allweddol o dystiolaeth) a gweithio gydag ACLlau eraill yn y dyfodol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS).

**Ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu Drafft**

18. Mae rhanddeiliaid wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth helpu i amlygu ac egluro pa faterion y mae angen eu hystyried yn y CDLl Newydd, pa mor effeithiol y bu'r CDLl presennol o ran cyflawni, a hyd a lled y newidiadau tebygol sy'n ofynnol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, fel yr argymhellir yng Nghanllawiau LlC a threfnwyd hefyd ei fod ar gael yn ehangach er mwyn i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arno[3].

19. Mae'r ACLl wedi adolygu'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd ac wedi ystyried y goblygiadau posib i gynnwys y CDLl a'r weithdrefn adolygu arfaethedig, ac mae unrhyw newidiadau priodol wedi cael eu gwneud i'r Adroddiad Adolygu terfynol. Yna, bydd yr Adroddiad terfynol yn cael ei argymell i Aelodau'r Cyngor er mwyn iddynt ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru,

[2] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru (2020)

[3] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru (2020)

a fydd yna'n cadarnhau'r ffurf a'r math o lwybr adolygu a ddilynir wrth baratoi'r CDLl Newydd.

20. Bydd yr Adroddiad Adolygu terfynol yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ffurf a chynnwys y CDLl Newydd ac, yn y pen draw, bydd yn un o'r dogfennau a gaiff eu cyflwyno i'r Arolygydd i'w harchwilio.

# Pennod 1. Cyflwyniad a Chefndir

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Abertawe gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019. Mae'r CDLl yn amlinellu fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn ffin y sir am y cyfnod hyd at 1 Ionawr 2026.

1.1.2. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ddyletswydd statudol i gadw eu cynlluniau datblygu'n gyfredol a chynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar yr adeg ofynnol. Mae Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor (AMB 3), sy'n rhychwantu'r cyfnod 2021-22, yn amlygu bod deddfwriaeth genedlaethol[4] yn mynnu bod y Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o CDLl Abertawe dim hwyrach na 4 blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Diben hyn yw sicrhau bod y CDLl, a'i dystiolaeth ategol, yn gyfredol ac yn parhau i ddarparu sail gadarn ar gyfer penderfyniadau cynllunio. O ystyried bod CDLl Abertawe wedi cael ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2019, mae'n ofyniad statudol i ddechrau adolygiad o CDLl Abertawe erbyn mis Chwefror 2023 fan bellaf.

## 1.2 Diben yr Adroddiad hwn

1.2.1 Mae'n ofynnol i ACLlau sy'n cynnal adolygiad o'u CDLl mabwysiedig gyflwyno Adroddiad Adolygu o'u canfyddiadau i Lywodraeth Cymru o fewn chwe mis o ddechrau'r broses adolygu. Mae'r ddogfen hon yn darparu Adroddiad Adolygu drafft yn seiliedig ar yr adolygiad o CDLl mabwysiedig Abertawe, i fod yn destun ymgystylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a fydd yn llywio fersiwn derfynol i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

1.2.2 Prif swyddogaethau Adroddiad Adolygu yw pennu'r llwybr gweithdrefnol priodol ac amlygu materion allweddol i'w hystyried wrth symud y CDLl presennol yn ei flaen.

1.2.3 Mae dau lwybr adolygu ar gael i ddewis o'u plith wrth ystyried sut i adolygu CDLl. Yn gyntaf, Adolygiad Llawn o'r Cynllun sy'n dilyn yr un gweithdrefnau ag a ddefnyddiwyd i baratoi'r CDLl mabwysiedig. Yr opsiwn arall yw gweithdrefn Adolygiad Byr, lle mae'r paramedrau i'w hystyried yn llawer mwy penodol a

[4] Yn ofynnol gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad CDLl 41(1)

chyfyngedig eu cwmpas. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[5] yn datgan y dylid ystyried y weithdrefn Adolygiad Byr dim ond os nad yw casgliadau'r Adroddiad Adolygu:

- Yn ystyried bod y strategaeth bresennol yn ansicr neu'n dangos bod angen newidiadau i'r strategaeth neu unrhyw ran ohoni
- Yn golygu bod cynllun, neu rannau ohono, yn dra gwahanol i'r cynllun mabwysiedig
- Yn cynnig newidiadau sy'n arwyddocaol o ran cwmpas, nifer a graddfa

1.2.4 Nodir yn arbennig bod y Canllawiau'n datgan trwy'r weithdrefn Adolygiad Byr, bod y strategaeth a fabwysiadwyd yn y CDLl yn amlwg yn briodol o hyd wrth symud ymlaen, a'i fod yn 'gadarn' yn ei hanfod. Ar y gynsail hon, h.y. bod y strategaeth yn ddilys o hyd, mae'r weithdrefn Adolygiad Byr yn eithrio'n benodol Rheoliad 15 a'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar raddfa a dosbarthiad twf. **Yn ei hanfod, felly, mae unrhyw newidiadau posibl i raddfa neu ddosbarthiad twf yn debygol o olygu bod y weithdrefn Adolygiad Byr yn amhriodol.**

1.2.5 Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (LlC)[6] mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn rhoi adroddiad ar yr adolygiad ac yn amlinellu'r canlynol:

- Pa wybodaeth a ystyriwyd i lywio'r adolygiad o'r cynllun a pham
- Sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar y weledigaeth, nodau, amcanion, a gweithredu'r strategaeth
- Adolygiad o bob maes pwnc yn y cynllun, gan nodi'n glir yr hyn y mae angen iddo newid a pha rannau o'r sylfaen dystiolaeth y mae angen eu diweddaru i gefnogi'r newidiadau
- Y goblygiadau i'r rhannau hynny o'r cynllun na fwriedir eu diwygio o ran cydlyniant ac effeithiolrwydd y cynllun yn ei gyfanrwydd
- Ailystyried yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- Cyfleoedd i baratoi CDLlau ar y Cyd/CDLlau Ysgafn ar y Cyd ag ACLlau cymdogol ac i weithio ar draws ffiniau; a
- Chasgliadau ynglŷn â pham y dylid dilyn y weithdrefn adolygu llawn neu fyr.

**1.2.6 Dylid nodi na fwriedir i'r Adroddiad Adolygu hwn fanylu ar yr holl newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i CDLl Abertawe, oherwydd bydd y rhain yn cael eu pennu dim ond trwy'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl Newydd.**

[5] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru (2020)

[6] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3. Llywodraeth Cymru (2020)

## 1.3 Strwythur yr Adroddiad hwn

1.3.1 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn er mwyn bodloni'r gofynion a amlinellir mewn canllawiau cenedlaethol.

1.3.2 Mae **Pennod 2** yn crynhoi'r wybodaeth a ystyriwyd i lywio'r adolygiad o'r cynllun a pham y mae'n berthnasol, gan gynnwys newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol sydd wedi digwydd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae hefyd yn crynhoi prif ganfyddiadau tri AMB y CDLl, gan gynnwys monitro SA.

1.3.3 Mae **Pennod 3** yn adolygu sylfaen dystiolaeth y CDLl a pha rannau ohoni y mae angen eu diweddaru.

1.3.4 Mae **Pennod 4** yn amlinellu sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar Weledigaeth, Nodau ac Amcanion y CDLl, gweithredu'r Strategaeth, a'r Polisïau a Chynigion er mwyn llywio'r broses adolygu. Mae'n cynnwys adolygiad cryno o bob maes pwnc yn y cynllun, a'r goblygiadau i unrhyw rannau o'r cynllun na fwriedir eu diwygio o ran cydlyniant ac effeithiolrwydd y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried yr SA/SEA a'r HRA.

1.3.5 Mae **Pennod 5** yn ystyried ac esbonio cyfleoedd i gydweithio ag ACLlau eraill.

1.3.6 Mae **Pennod 6** yn dod i gasgliadau clir ynglŷn â ph'un a oes angen gweithdrefn Adolygiad Llawn neu Fyr.

1.3.7 Mae'r **Atodiad** i'r adroddiad hwn yn darparu rhai tablau ategol manwl sydd wedi'u croesgyfeirio i benodau'r prif adroddiad.

# Pennod 2. Newidiadau Cyd-destunol a Ffactorau Eraill sy'n Llywio'r Adolygiad o'r CDLl

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r wybodaeth newydd a ystyriwyd i lywio'r adolygiad o'r cynllun a pham y mae'n berthnasol, gan ganolbwyntio ar y newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol sydd wedi digwydd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae hefyd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r tri AMB a gynhyrchwyd o'r CDLl, gan gynnwys canlyniadau'r gwaith monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (SA).

## 2.2 Newidiadau Cyd-destunol

2.2.1 Fel yr adroddir yn yr AMB, ers i CDLl Abertawe gael ei fabwysiadu, mae'r cyd-destun cynllunio y mae'r CDLl yn gweithredu ynddo wedi bod yn destun amrywiaeth o newidiadau arwyddocaol. Crynhoir y rhain isod.

### *Cyd-destun Cynllunio Cenedlaethol*

2.2.2 **Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040** – Cyhoeddwyd y ddogfen bolisi genedlaethol newydd bwysig hon ym mis Chwefror 2021 ac mae'n ffurfio haen genedlaethol y Cynllun Datblygu. Mae'n amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040 ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio. Adeiladir ar y fframwaith cenedlaethol hwn gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar lefel ranbarthol a CDLlau ar lefel awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i CDSau a CDLlau gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol ac mae'n rhaid iddynt gael eu cadw'n gyfredol i sicrhau eu bod nhw a Chymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol.

2.2.3 **Diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PPW)** – Mae'r ddau ddiweddariad mwyaf diweddar i PPW wedi newid y fframwaith cenedlaethol ar gyfer ffurfio cynllun datblygu o hwnnw a oedd yn berthnasol pan gynhyrchwyd CDLl cyfredol Abertawe. Cyhoeddwyd argraffiad 10 yn hwyr yn 2018, yn union cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ac ailwampiodd y polisi cynllunio cenedlaethol yn llwyr i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Hyrwyddodd y syniad o greu lleoedd o fewn y system gynllunio ac amlinellodd y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Archwiliwyd y CDLl yn erbyn argraffiad 10 PPW a chanfuwyd ei fod yn cydymffurfio ag ef yn gyffredinol. Cyhoeddwyd diwygiad diweddaraf PPW, sef argraffiad 11, ym mis Chwefror 2021, ac roedd yn cynnwys diwygiadau er mwyn iddo gyd-fynd â Chymru'r Dyfodol ac ystyried y ddyletswydd

economaidd-gymdeithasol ac effeithiau'r pandemig Covid-19 (gweler yr adran isod). Mae hefyd yn gwneud newidiadau polisi i fonitro'r cyflenwad tai, safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy a safonau ansawdd datblygu, cynllunio ynni lleol, trafnidiaeth a theithio llesol. Bydd angen i'r CDLl Newydd gael ei baratoi gan gyfeirio'n agos at y fframwaith polisi cenedlaethol hwn sydd wedi'i ddiweddaru.

2.2.4 **Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020)** – Mae'r Llawlyfr newydd manwl hwn yn rhoi arweiniad wedi'i ddiweddaru i ymarferwyr sy'n ymwneud â pharatoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Mae'n rhaid ei ddarllen ochr yn ochr â PPW a deddfwriaeth a chanllawiau eraill perthnasol, ac mae'n cynnwys arweiniad ymarferol ar sut i baratoi, monitro ac adolygu cynllun datblygu. Bydd y Llawlyfr wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o baratoi'r CDLl Newydd.

2.2.5 **Newidiadau i Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) -**

- **Dirymu TAN 1 Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Mawrth 2020) –** roedd hyn yn adlewyrchu newidiadau i PPW a ddileodd y gofyniad polisi cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai.
- **Dirymu TAN 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Chwefror 2021) –** roedd hyn yn adlewyrchu cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, sy'n amlygu ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer ynni'r gwynt.
- **TAN 11 Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd –** mae hwn yn cael ei adolygu er mwyn iddo fod yn gyfredol a chyd-fynd â PPW, y Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd i Gymru a'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Cyhoeddwyd TAN 11 ym 1997 ac roedd yn ymdrin â sŵn yn unig.
- **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (a oedd ar gael ym mis Medi 2021) –** bydd hwn hefyd yn disodli TAN 14: Cynllunio Arfordirol, a bydd Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) yn cyd-fynd ag ef i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu presennol. Mae'r TAN newydd yn cyflwyno newidiadau pwysig i'r ffordd y mae peryglon llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu hystyried yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod y system gynllunio'n cydnabod bygythiad effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol, ac yn cymryd camau i addasu iddynt. Bydd y peryglon sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio trwy ddefnyddio'r FMfP newydd, sy'n cynnwys parthau perygl llifogydd sy'n dangos perygl yn y dyfodol mewn senario newid yn yr hinsawdd.

  Ym mis Tachwedd 2021, cadarnhaodd Gweinidog Cymru na fyddai'r TAN 15 a'r FMfP newydd yn dod i rym tan 1 Mehefin 2023 i alluogi ACLlau i lwyr ystyried effaith yr amcanestyniadau ynglŷn â'r

newid yn yr hinsawdd ar eu hardaloedd unigol. Mynnodd y Gweinidog hefyd fod pob ACLl yn cwblhau gwaith i adolygu'r Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) ar gyfer eu hardaloedd. Bydd y TAN 15 a'r FMfP newydd yn berthnasol i broses y CDLl Newydd a bydd yr SFCA wedi'i adolygu yn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. Wrth lunio polisïau ar berygl llifogydd, bydd y pwyslais ar fanylion penodol i safle a dulliau lleol penodol, gan nad oes angen ailadrodd polisïau cenedlaethol. Bydd angen i'r CDLl Newydd ategu'r strategaeth llifogydd lleol hefyd, trwy amlygu peryglon allweddol ac amlinellu ble y dylid lleoli cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

2.2.6 **Llythyr dyddiadau diwedd CDLl (Medi) –** Mae'r llythyr hwn gan Weinidog Cymru yn egluro nad oedd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n nodi hyd at ba bryd y bydd cynllun yn effeithiol wedi dod i rym tan 4 Ionawr 2016, ac felly bydd CDLlau a fabwysiadwyd ar ôl y dyddiad hwn yn peidio â bod yn CDLl ar ddiwedd y cyfnod dod i ben a nodir yn y cynllun. Felly, ni fydd CDLl Abertawe yn CDLl mabwysiedig mwyach ar ôl 31 Rhagfyr 2025.

2.2.7 **Siarter Creu Lleoedd Cymru –** Lansiwyd y siarter hon gan Weinidog Cymru dros Dai a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2020 ac mae'n gosod ansawdd, cynaliadwyedd a chymuned wrth wraidd cynllunio. Mae'n dwyn ynghyd sefydliadau sydd, trwy lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, yn addo cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion; dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd; blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, creu strydoedd a mannau cyhoeddus diogel a chroesawgar sydd wedi'u diffinio'n dda, hyrwyddo cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog, a gwerthfawrogi a pharchu nodweddion unigryw cadarnhaol a hunaniaeth lleoedd presennol. Mae Cyngor Abertawe bellach wedi llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd.

2.2.8 **Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19 (Gorffennaf 2020)** – Mae hwn yn amlinellu blaenoriaethau polisi cynllunio LlC ar gyfer yr adferiad ar ôl Covid-19. Mae'n pwysleisio'r angen am ddatblygiadau da o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan egwyddorion creu lleoedd, ac mae'n amlygu 8 mater allweddol sy'n dwyn meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau bod camau gweithredu'n fwyaf effeithiol. Bydd proses y CDLl Newydd yn rhoi cyfle i ymateb i'r blaenoriaethau a'r materion a amlygwyd yn genedlaethol a helpu i adfer o'r pandemig.

2.2.9 **Cynllunio a'r Adferiad wedi COVID-19: Llythyr at Awdurdodau Lleol (Gorffennaf 2020)** – Mae'r llythyr hwn gan Weinidog Cymru yn mynnu bod ACLlau yn myfyrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac

ystyried y canlyniadau i CDLlau sy’n cael eu hadolygu neu’n cael eu gweithredu. Bydd y broses CDLl Newydd yn galluogi’r ACLl i ymateb i effaith y pandemig ar bob elfen o’r CDLl.

2.2.10 **Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol –** Daeth y ddyletswydd hon, sydd wedi’i gosod yn Neddf Cydraddoldeb 2010, i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 a’i nod yw annog gwneud penderfyniadau gwell a lleihau anghydraddoldebau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r ddyletswydd yn mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn rhoi sylw dyladwy i’r angen i leihau’r canlyniadau anghyfartal sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol/llunio polisïau. Bydd angen i hyn gael ei integreiddio i’r broses asesu sy’n gysylltiedig â’r CDLl, a’r ymagwedd at ymgysylltu.

2.2.11 **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** - Mae’r darn newydd hwn o ddeddfwriaeth, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2016, yn cyflwyno fframwaith polisi newydd i gyflawni’r syniad o ‘reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy’. Wrth baratoi CDLl, mae’n ofynnol i’r ACLl ystyried Polisi Adnoddau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiad Ardal De-orllewin Cymru sy’n darparu camau gweithredu a thystiolaeth wedi’u seilio ar le.

2.2.12 **"COP15, Archwiliad manwl i fioamrywiaeth, dyletswydd adran 6 a’r system gynllunio, Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Cynllunio, LlC, Rhagfyr 2022 –** Mae'r llythyr yn amlygu rôl y system gynllunio wrth ymateb i'r heriau a osodwyd gan COP15, argymhellion yr archwiliad manwl ac wrth gyflawni dyletswydd Adran 6 yng Nghymru. Mae'r llythyr hefyd yn hysbysu ynghylch y newidiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â budd net i fioamrywiaeth a'r amddiffyniad a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd.

2.2.13 **Sicrhau Gwelliannau i Fioamrywiaeth (Hydref 2019) –** Mae’r llythyr hwn gan y Prif Swyddog Cynllunio yn tynnu sylw ACLlau at Ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a’r angen i awdurdodau cynllunio ‘geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau’. Mae’n mynd ymlaen i ddatgan y dylai ACLlau fod yn rhagweithiol a chynnwys polisïau priodol mewn CDLlau i warchod yn erbyn colli bioamrywiaeth a sicrhau gwelliant.

2.2.14 **Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Rhagfyr 2020)** – Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod ACLlau yn ystyried yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan CNC, sy’n darparu sylfaen dystiolaeth i ACLlau wrth adolygu CDLlau. Mae’r ail adroddiad hwn yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth yn yr adroddiad cyntaf yn 2016 ac

yn dangos rhai o’r heriau, blaenoriaethau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

2.2.15 **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019) –** Bwriedir i’r Cynllun Morol gefnogi datblygiad cynaliadwy’r moroedd o amgylch Cymru, gan ddarparu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer y CDLl Newydd o ran unrhyw agweddau sy’n ymdrin ag ardaloedd y glannau ac alltraeth. Hefyd, bydd angen ystyried Datganiad Ardal Forol Cymru sy'n cwmpasu dyfroedd glannau Cymru.

2.2.16 **Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) –** Mae hyn yn amlinellu gweledigaeth LlC ar gyfer sut gall y system drafnidiaeth helpu i gyflawni blaenoriaethau 5 mlynedd ac 20 mlynedd ar gyfer Cymru, ynghyd â naw cynllun bach sy’n esbonio sut y byddant yn cael eu cyflawni ar gyfer gwahanol fathau o drafnidiaeth a sectorau. Mae’r strategaeth yn mynnu bod llywodraethau, awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth a chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill yn cydweithio i sicrhau bod trafnidiaeth yn cyfrannu at les Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae’r strategaeth genedlaethol hon yn gosod y fframwaith ar gyfer y ddwy haen o gynlluniau trafnidiaeth yng Nghymru – y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd. Bydd angen i strategaethau a pholisïau’r CDLl Newydd fod yn gyson â’r cynlluniau a'r strategaethau hyn.

2.2.17 **Canllawiau’r Ddeddf Teithio Llesol (2021) –** Mae Rhan 1 yn rhoi crynodeb amlinellol o’r nodau, prosesau ac ystyriaethau allweddol sy’n gysylltiedig â dyletswyddau Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013). Mae Rhan 2 yn rhoi cyngor technegol manwl ar sut y dylai seilwaith gael ei gynllunio a’i ddylunio. Mae’r canllawiau hyn yn esbonio y dylai Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gael eu defnyddio i lywio’r broses o baratoi ac adolygu CDLlau, gan gyfeirio at y gofyniad yn PPW i’r mapiau hyn lywio’r broses o ddyrannu safleoedd.

2.2.18 **Llawlyfr Strydoedd 2 (Strydoedd Trefol a Gwledig) (Mai 2019) –** Mae’r ddogfen newydd yn ymestyn y Llawlyfr Strydoedd i gynnwys sefyllfaoedd trefol a gwledig ac yn llenwi’r bwlch cyngor rhwng y Llawlyfr Strydoedd a’r Safonau ar gyfer Cefnffyrdd. Mae’r Llawlyfr Strydoedd (Strydoedd Preswyl) yn amlinellu sut i ddylunio, adeiladu, mabwysiadu a chynnal a chadw strydoedd preswyl newydd a phresennol.

2.2.19 **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (Mawrth 2021) –** Mae hyn yn amlinellu gweledigaeth LlC ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru, sef ‘erbyn 2025, bydd pawb sy’n defnyddio ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus y gallant gael at seilwaith gwefru cerbydau trydan ar yr adeg ac yn y man lle y mae arnynt ei angen’. Mae’r strategaeth yn nodi bod lefelau perchnogaeth ar gerbydau trydan

yng Nghymru ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu hyder y cyhoedd yn argaeledd seilwaith gwefru. Amlygir Abertawe fel un ardal lle mae'n debygol y bydd galw uchel am wefrwyr trydan, sef rhwng 18,500 i 19,300 erbyn 2025 a 55,685 i 57,145 erbyn 2030.

2.2.20 **Cynllun Aer Glân i Gymru (Awst 2020) –** Nod y Cynllun hwn yw gwella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'r economi. Mae'r Cynllun yn cefnogi cyflawni'r ymrwymiadau yn 'Ffyniant i Bawb: strategaeth genedlaethol LlC'. Yn arbennig, 'lleihau allyriadau a chyflawni gwelliannau hollbwysig i ansawdd aer' i gefnogi 'cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell'. Cyhoeddodd LlC adroddiad ar effaith COVID-19 ar ansawdd aer ym mis Rhagfyr 2020 hefyd.

2.2.21 **Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) – Gwaredu Dŵr Wyneb trwy Systemau Draenio Cynaliadwy (Ionawr 2019)** – Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi arwain at oblygiadau arwyddocaol iawn i'r diwydiant datblygu a phrosesau cynllunio, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu systemau dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd. Cyflwynodd LlC bum offeryn statudol i weithredu'r gofyniad hwn. Trwy'r offerynnau statudol, daeth yn ofynnol o 7 Ionawr 2019 ymlaen i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un annedd, neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100m$^2$ neu fwy, waredu dŵr wyneb trwy system ddraenio gynaliadwy.

2.2.22 **Cynyddu'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy trwy Gynllunio (Gorffennaf 2019) –** Rhoddodd LlC ganllawiau i ACLlau yn ailadrodd pwysigrwydd mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy, gan gynnwys darparu ar gyfer safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy (y mae'n rhaid iddynt gynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy), wrth adolygu CDLlau.

2.2.23 **Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (2021) Creu Cartrefi a Mannau Prydferth -** Mae'r cyhoeddiad hwn gan LlC yn nodi bod rhaid i'r holl dai fforddiadwy, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir trwy rwymedigaethau cynllunio ac amodau cynllunio, fodloni safonau ansawdd datblygu LlC, yn enwedig safonau'r Gofynion Ansawdd Datblygu. Mae LlC hefyd wedi gosod uchelgais i ddatblygwyr preifat fabwysiadu'r safonau erbyn 2025. Mae'r safonau newydd yn hyrwyddo dylunio da a digon o le, fel bod pobl yn byw yn dda yn eu cartrefi. Bwriedir i hyn nid yn unig hybu lles a chadw cymunedau gyda'i gilydd, ond hefyd ymateb i anghenion newidiol preswylwyr. Mae'n arbennig o berthnasol o ystyried y symudiadau tuag at weithio hyblyg.

2.2.24 **Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol –** Daeth methodoleg newydd ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, gan gynnwys offeryn a chanllawiau

cysylltiedig, i rym ar 31 Mawrth 2022. Dyma'r unig sail dystiolaeth y dylid ei defnyddio i gyfrifo'r angen am dai yng Nghymru o hyn ymlaen. Fel y cyfryw, dylai pob CDLl gael ei seilio ar allbynnau'r fethodoleg newydd.

2.2.25 **Cymru Iachach (2021) –** Mae hwn yn amlinellu cynllun cenedlaethol LlC ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sbarduno'r newidiadau sy'n angenrheidiol i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, fel y gall fodloni anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. **Canllawiau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – Mwyafu cyfleoedd iechyd a lles mewn cynllunio gofodol wrth ailsefydlu yn sgil y pandemig COVID-19**[7] - Mae hyn yn amlygu effeithiau cadarnhaol a negyddol mawr polisïau cynllunio gofodol yn ystod y pandemig COVID-19 ar iechyd poblogaeth Cymru, yn dysgu o'r rhain, ac yn nodi unrhyw ymyriadau cadarnhaol a chyd-fuddion er mwyn ffurfio amgylchedd iachach i bawb yn y dyfodol.

2.2.26 **Cyhoeddwyd Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd ar gyfer CDLlau yn 2021**[8] - Nod y Pecyn Cymorth hwn yw cynorthwyo'r sectorau cynllunio ac iechyd cyhoeddus i gydweithio er mwyn mwyafu canlyniadau iechyd a lles cadarnhaol trwy bolisïau cynllunio defnydd tir sy'n creu cymunedau iach, teg a chydlynol.
Nodau'r Pecyn Cymorth yw:

- Amlinellu'r ystyriaethau strategol a all gefnogi darparu'r mewnbwn iechyd cyhoeddus mwyaf posibl i bolisi cynllunio defnydd tir
- Ailgyflwyno'r fframweithiau polisi perthnasol, gan gynnwys unrhyw gynnydd ers cyhoeddi Cynllunio ar gyfer Iechyd a Lles Gwell yn 2016 a nodi unrhyw ddiweddariadau
- Amlygu pwyntiau penodol yn y broses datblygu polisi lle y gellir gwneud cyfraniadau Iechyd Cyhoeddus allweddol i gefnogi a llywio'r polisi
- Darparu gwybodaeth ategol i sicrhau'r ystyriaeth fwyaf posibl o iechyd a lles wrth gynllunio prosesau datblygu trwy ddefnyddio asesiad o'r effaith ar iechyd
- Rhoi enghreifftiau o astudiaethau achos diweddar o fywyd go iawn a gwybodaeth gan y swyddogion a weithiodd arnynt
- Darparu adnoddau ymarferol i ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar iechyd yn y broses datblygu polisi, ar lefel leol yn bennaf ond gellid eu defnyddio ar lefel ranbarthol neu genedlaethol pan fo'n berthnasol.

2.2.27 **Cymru Sero Net a Chynllun Cymru Gyfan 2021-2025**

[7] Liz Green, Sue Toner, Laura Evans, Lee Parry-Williams, Tom Johnson, Gemma Christian, Cheryl Williams, Sumina Azam a Mark A Bellis. (2022). Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

[8] Liz Green, Lee Parry-williams, Ed Huckle (2021) Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer. WHIASU, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

**(Hydref 2021) – Cynllun Lleihau LlC ar gyfer y Gyllideb Garbon (2021-2025) –** Mae hyn yn amlinellu'r sylfeini i wneud Cymru yn sero net erbyn 2050. Mae'r Cynllun Cymru Gyfan cyntaf wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â hyn, sy'n dangos yr ymrwymiad gan bartneriaid i gydweithio i gyrraedd sero net.

2.2.28 **Strategaeth Mwy nag Ailgylchu (Mawrth 2021) –** Mae hyn yn amlinellu'r camau i'w cymryd yn ystod y degawd nesaf tuag at gyflawni economi gylchol.

2.2.29 **Asesiad strategol o'r angen am gapasiti ynni o wastraff yn y dyfodol yn nhri rhanbarth economaidd Cymru (Mawrth 2021)** – Mae hyn yn cadarnhau cyhoeddi moratoriwm ar unrhyw ddatblygiadau ynni o wastraff ar raddfa fawr (capasiti gosodedig o 10MW neu fwy) yn y dyfodol. Mae hefyd yn diweddaru ac yn disodli'r amcangyfrifon a'r senarios rhagfynegol ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol yng Nghynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd 2012, y mae TAN 21 Gwastraff yn cynghori y dylid ei ddefnyddio wrth asesu lefel yr angen am gyfleusterau ynni o wastraff a graddau unrhyw fwlch mewn capasiti.

2.2.30 **Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd (2018-2023) –** Mae hyn yn amlinellu cyfeiriad polisi strategol y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â rheoli sŵn a seinwedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio ar fwy na dim ond lleihau lefelau sŵn, gan gydnabod hefyd yr angen i greu seinweddau priodol, sy'n golygu'r amgylchedd acwstig iawn ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.

2.2.31 **Targedau Ffosffadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** – Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd CNC dargedau a chanllawiau newydd llymach ar gyfer llygredd ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) afonol ledled Cymru. O ganlyniad i'r targedau hyn, mae bellach angen amlygu ffyrdd o sicrhau nad yw datblygiadau preswyl newydd yn cynyddu'r llwyth maethynnau ar ACAau ar ôl gollwng o rwydwaith trin carthion. Nid oes unrhyw ACAau afonol yr effeithir arnynt yn Abertawe, ond bydd angen i'r gwaith ar y CDLl Newydd fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn, yn enwedig o ran y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin gymdogol.


2.2.32 **Rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr –** Cyhoeddwyd newidiadau i'r system gynllunio ym mis Gorffennaf 2022 i gynorthwyo ACLlau i reoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn eu hardaloedd. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i reoliadau cynllunio a fydd yn cyflwyno tri dosbarth defnydd cynllunio newydd – prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Bydd ACLlau, pan fydd ganddynt dystiolaeth, yn gallu gwneud diwygiadau i'r system gynllunio i fynnu caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall. Bydd LlC hefyd yn cyflwyno newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol i

alluogi awdurdodau lleol i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn unrhyw gymuned. Cynigir newidiadau i PPW er mwyn egluro'n benodol, pan fo'n berthnasol, bod rhaid i gyffredinrwydd ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardal leol gael ei ystyried wrth bwyso a mesur y gofynion tai a'r dulliau polisi mewn CDLlau.

2.2.33 **Effeithiau Brexit –** Bu amrywiaeth o newidiadau i ddeddfwriaeth a therminoleg o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cynnwys, er enghraifft, diwygiadau 2019 i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a adwaenir fel Rheoliadau 2019).

### *Cyd-destun Cynllunio Rhanbarthol*

2.2.34 **Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Chynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru –** Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi pedwar rhanbarth cynllunio yng Nghymru ac y bydd angen Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ym mhob un i ffurfio haen ranbarthol o Gynlluniau Datblygu. Dylai materion yn ymwneud â thwf tai ac economaidd, yn ogystal â chysylltedd digidol a hygyrchedd trafnidiaeth, gael eu cydlynu a'u cynllunio ar draws y rhanbarth cyfan trwy gyfrwng y CDS. Nodir bod Abertawe yn rhanbarth De-orllewin Cymru, fel y dangosir isod.




**Ffigur 1 Diagram Rhanbarthol De-orllewin Cymru**

2.2.35 Mae Polisi 1 Cymru'r Dyfodol, 'Ble bydd Cymru yn Tyfu', yn nodi tair Ardal Dwf Genedlaethol. Adwaenir un o'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol hyn fel 'Bae Abertawe a Llanelli', a fydd yn ganolbwynt yn y rhanbarth ar gyfer twf tai ac economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol ac, yn gyffredinol, y prif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn y rhanbarth. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi amlinelliad dangosol o'r Ardal Dwf Genedlaethol. Mae tystiolaeth ychwanegol wedi cael ei chomisiynu er mwyn deall yr ardal ddaearyddol y dylai'r Ardal Dwf Genedlaethol hon ei rhychwantu.

2.2.36 Mae'n rhaid i'r broses o baratoi CDS sicrhau bod y rhanbarth yn rheoli twf mewn ffordd gynlluniedig a chydlynol i gefnogi anghenion yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol a'r rhanbarth ehangach.

2.2.37 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer y rhanbarthau yng Nghymru. O ran y swyddogaeth cynllunio strategol yn benodol, h.y. paratoi CDS, gall pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, o 30 Mehefin 2022 ymlaen, arfer ei ddyletswydd statudol i baratoi CDS. Bydd CDSau yn cyflawni canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau trwy sicrhau y cynllunnir ar gyfer materion allweddol, datblygiad a seilwaith cysylltiedig mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Gan weithio ar y sail y bydd yn cymryd o leiaf 5 mlynedd i baratoi CDS yn unol â chanllawiau diweddaraf LlC, a'r amser y bydd ei angen ar Awdurdodau newydd eu ffurfio i gytuno ar ddechrau'r broses yn ffurfiol, mae CDS yn debygol o gael ei fabwysiadu erbyn diwedd 2029 ar y cynharaf. Wrth gwrs, gallai hyn newid ac mae'n destun nifer o ffactorau anhysbys, ond mae'n hwyrach na'r adeg pryd y byddai angen i'r CDLl Newydd ddechrau. Dylai CDLlau barhau i gael eu paratoi hyd nes y mabwysiadir CDS. Pan fydd CDS yn cael ei fabwysiadu yn y dyfodol, bydd CDLlau Ysgafn yn cael eu paratoi yn ardal y CDS ar gyfer pob ACLl unigol.

2.2.38 Er mwyn llywio CDLlau Newydd yr ACLlau cyfansoddol, a chyflwyno CDS yn y dyfodol, mae swyddogion yng *Ngrŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru* yn cydweithio ar ddiweddaru ac alinio elfennau allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Asesiad Twf Economaidd a Thai ar y cyd rhwng Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; astudiaeth i amlygu hyd a lled daearyddol yr Ardal Dwf Genedlaethol; a pharhau i gydweithio ar waith hyfywedd gan adeiladu ar sefydlu'r Model Hyfywedd Datblygu (offeryn Model Hyfywedd Datblygu) ar gyfer hyfywedd ariannol cynigion datblygu ar draws y rhanbarth.

2.2.39 **Cynnydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe –** Bydd y Fargen Ddinesig, a sefydlwyd yn 2017, yn rhannol ariannu rhaglen o brosiectau trawsnewidiol mawr ledled Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae'r £18 miliwn cyntaf o gyllid y Fargen Ddinesig wedi cael ei ryddhau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar gymeradwyo dau brosiect Bargen Ddinesig, y mae un ohonynt yn Abertawe – Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau. Gorffennwyd adeiladu'r arena dan do sy'n rhan o brosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe yn 2021-22. Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer y pentref digidol ar Ffordd y Brenin yn ystod 2020 ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo. Mae'r ddau safle'n elfennau annatod o Ardal Datblygu Strategol y CDLl sy'n rhychwantu'r Ardal Ganolog a'r Glannau (SD

J) a byddant yn cyflawni amcanion adfywio a chreu lleoedd allweddol ar gyfer yr ardaloedd hyn.

2.2.40 **Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru (REDP) –** Yn ddiweddar, mabwysiadodd y Cyngor REDP De-orllewin Cymru fel polisi adfywio economaidd trosfwaol y Cyngor i ddisodli Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae'r REDP yn ategu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru ac yn darparu haen arall o fanylion oddi tano, gan amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni'r weledigaeth lefel uchel yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol. Mae'r REDP yn amlinellu 'map llwybr' uchelgeisiol ar gyfer datblygu economi'r rhanbarth yn ystod y deng mlynedd nesaf, gan amlygu blaenoriaethau ar gyfer ymyrryd ac amlinellu sut y gall busnes, y llywodraeth, addysg, sefydliadau gwirfoddol / cymunedol, mentrau cymdeithasol a phartneriaid eraill gydweithio i'w cyflawni. Mae'r REDP yn nodi tri uchelgais ar gyfer creu De-orllewin Cymru sy'n:

- "gydnerth ac yn gynaliadwy;
- yn fentrus ac yn uchelgeisiol; ac
- yn gytbwys ac yn gynhwysol".

2.2.41 Mae'r uchelgeisiau hyn yn cefnogi tair cenhadaeth ategol:

- Sefydlu De-orllewin Cymru fel arweinydd yn y Deyrnas Unedig o ran ynni adnewyddadwy a datblygu economi sero net, sy'n cynnwys datblygu prosiectau ynni mawr y rhanbarth a lledaenu'r buddion ar draws y rhanbarth.
- Creu sylfaen fusnes gref, gydnerth ac 'ymgorfforedig' trwy gefnogi busnes ac entrepreneuriaeth trwy dechnoleg, seilwaith a chymorth sector cyhoeddus.
- Tyfu a chynnal y cynnig o 'brofiad' trwy gysylltu ansawdd amgylcheddol, ansawdd bywyd a chymeriad cymunedol.

2.2.42 **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd –** Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015 - 2020) yw'r polisi statudol sy'n pennu'r strategaeth a'r rhaglen ar gyfer trafnidiaeth a seilwaith trafnidiaeth yn Abertawe. Mae'r cynllun yn darparu polisi cyson a gymhwysir ar draws y pedwar cyngor yn Ne-orllewin Cymru. Bydd y Cynllun yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y CDLl Newydd.

2.2.43 **Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru -** Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisi i ddatblygu Metro De-orllewin Cymru, gyda'r nod o greu systemau trafnidiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaethau cyflymach, amlach a chydgysylltiedig. Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cysyniadau Metro ar gyfer nifer o ardaloedd ledled Cymru. Y cysyniad cyffredinol yw darparu rhwydwaith hygyrch, integredig a chynhwysfawr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau fel rheilffyrdd trwm, trenau tram, rheilffyrdd ysgafn a bysiau, fel y bo'n briodol i lwybrau unigol. Mae gwaith

hyfywedd dylunio ac asesu gweithredol ac arfarniadau o amryw opsiynau i wella gwasanaethau a chyfleusterau rheilffyrdd yn Ne-orllewin Cymru yn parhau a bydd angen monitro hynny i lywio'r CDLl Newydd.

2.2.44 **Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau Gogledd a De Cymru (Ail Adolygiad), 2018** – Mae hyn yn llywio'r broses o ddarparu cronfeydd wrth gefn digonol o agregau yn y CDLl er mwyn sicrhau bod digon ar gael i'r diwydiant adeiladu a diwydiannau eraill yn y ffordd fwyaf cynaliadwy sy'n rhesymol ei chyflawni.

## *Cyd-destun Cynllunio Lleol*

2.2.45 **Cynllun Lles Lleol –** Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi paratoi ei ail Asesiad o Les Lleol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2022. Bydd hyn yn helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe i amlygu nifer benodol o amcanion lles a fydd yn cyfrannu at y nodau lles cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fe'u defnyddir i ddatblygu Cynllun Lles Lleol nesaf Abertawe, a fydd yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer holl gynlluniau / strategaethau'r ALl, gan gynnwys y CDLl Newydd.

2.2.46 Mae strategaethau a pholisïau lleol eraill a fydd yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig i'r CDLl Newydd yn cynnwys y rhestr ganlynol isod.

2.2.47 **Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022/23: Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy –** Mae hwn yn amlygu heriau sy'n wynebu Abertawe, megis:

- Newidiadau i'r boblogaeth – Abertawe sy'n tyfu, sy'n heneiddio ac sy'n fwy amrywiol.
- Newidiadau economaidd – denu buddsoddiad, swyddi o ansawdd uchel a thechnoleg newydd i Abertawe ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.
- Yr argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur – risgiau o ganlyniad i lifogydd, ansawdd aer a dŵr, peryglon i ecosystemau a bioamrywiaeth a diogeledd ynni.
- Newidiadau cymdeithasol a diwylliannol – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd.
- Covid-19 – helpu Abertawe i adfer a thrawsnewid y Cyngor i fynd i'r afael â'r newidiadau a'r heriau newydd sydd i ddod.

2.2.48 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn blaenoriaethu chwe amcan lles ar gyfer 2022-23, ac mae'r canlynol yn berthnasol i gynllunio defnydd tir:

- Trawsnewid ein Heconomi a'n Seilwaith – fel bod gan Abertawe Ganol Dinas defnydd cymysg llewyrchus a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.

- Trechu Tlodi – fel bod pob unigolyn yn Abertawe yn gallu cyflawni ei botensial.
- Cyflawni o ran Adfer Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd – fel ein bod yn cynnal a gwella natur a bioamrywiaeth yn Abertawe, lleihau ein hôl troed carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

2.2.49 Bydd tri gwerth clir yn arwain y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio:

- Pwyslais ar bobl
- Cydweithio
- Arloesedd

2.2.50 Mae tair egwyddor allweddol yn sail i gynlluniau a blaenoriaethau'r Cyngor:

- Cynaliadwyedd
- Atal
- Partneriaethau

2.2.51 **Argyfwng Hinsawdd a Natur -** Yn 2019, datganodd Cyngor Abertawe Argyfwng Hinsawdd a dilynwyd hyn gan gynllun gweithredu i leihau allyriadau sefydliadol, adolygiad polisi i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan o bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud, a chynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid a dinasyddion a gweithio gyda nhw i ymdrechu i fod yn Abertawe ddi-garbon net erbyn 2050. Mae gan Gyngor Abertawe darged sefydliadol o fod yn sero net erbyn 2030. Mae hyn yn golygu lleihau a gwrthbwyso allyriadau carbon o weithgareddau ac ystad y Cyngor. Ond mae'n rhaid i Abertawe gyfan leihau ei hôl troed carbon i wneud gwahaniaeth go iawn. Uchelgais y Cyngor yw creu Abertawe sero net erbyn 2050.

2.2.52 Mae'r cyngor yn cydnabod bod colli bioamrywiaeth yr un mor ddifrifol i'n goroesiad yn y dyfodol ag yw newid yn yr hinsawdd, ac mae cyswllt cynhenid rhyngddynt. I gefnogi datganiad argyfwng hinsawdd LlC, datganodd y cyngor argyfwng hinsawdd yn 2021, a bydd angen ystyried y Cynllun Adran 6 dilynol sy'n seiliedig ar Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) Abertawe (a luniwyd gan PNL Abertawe) ar gyfer y CDL newydd. (DS. Mae'r cynllun Adran 6 a'r CGANLl ar eu ffurfiau drafft o hyd o 05/04/2023).

2.2.53 **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd** – Cyhoeddwyd Strategaeth Seilwaith Gwyrdd (Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio ein Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt) ym mis Chwefror 2021. Fe'i dyluniwyd i gyflawni'r nod o ddod â mwy o seilwaith gwyrdd i Ardal Ganolog Abertawe.

2.2.54 **Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) –** Mae nifer o ddogfennau SPG sy'n cefnogi'r CDLl wedi cael eu mabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau drafft ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, gan gynnwys:

- SPG Tai Amlfeddiannaeth a Llety Pwrpasol i Fyfyrwyr

- SPG Bioamrywiaeth a Datblygu
- SPG Adolygu Ardal Gadwraeth y Mwmbwls
- SPG Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- SPG Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr
- Creu lleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl sy'n cynnwys 10 neu fwy o gartrefi; datblygiad mewnlenwi a thir cefn o rhwng 1 a 10 o gartrefi mewn cymunedau presennol; a chanllawiau ar gyfer datblygiad gan ddeiliaid tai yn ymwneud â newidiadau ac estyniadau i gartref presennol.

### *Pandemig Covid-19*

2.2.55 Mae'r ysgytwad cymdeithasol ac economaidd enfawr a achoswyd gan y pandemig Covid-19 yn newid cyd-destunol arwyddocaol iawn nad oedd CDLl Abertawe, yn amlwg, wedi'i ddisgwyl na chynllunio ar ei gyfer o ran polisi neu strategaeth. Effeithiodd yr argyfwng ar weithrediadau safle (gan gynnwys cau safleoedd a/neu gadw pellter cymdeithasol a gafodd effeithiau mawr ar weithrediadau), ac arweiniodd at broblemau cyflenwad llafur, costau cynyddol deunyddiau ac amseroedd arwain estynedig o ganlyniad i broblemau cadwyn gyflenwi. At hynny, mae'r pandemig wedi newid ymddygiad (fel y duedd i deithio, y galw am wasanaethau sy'n hygyrch yn lleol, ac ati) ac arferion gwaith, a allai fod yn barhaol i raddau sylweddol. Mae'r Llythyr Gweinidogol at Awdurdodau Lleol (Gorffennaf 2020) ar Gynllunio a'r Adferiad wedi COVID-19 yn mynnu bod ACLlau yn myfyrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau i CDLlau sy'n cael eu hadolygu neu'n cael eu gweithredu.

## 2.3 Canfyddiadau Allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) y CDLl

2.3.1 Mae'r holl AMBau a gyhoeddwyd mewn perthynas â CDLl Abertawe wedi adolygu'r newidiadau sy'n effeithio ar y cyd-destun cynllunio y mae'r Cynllun yn gweithredu ynddo. Mae'r agweddau hyn wedi llywio'r adrannau cynharach o'r Bennod hyn ac ni chânt eu hailadrodd eto yma.

2.3.2 Yn ogystal â'r effaith aruthrol ar gymdeithas a gweithgarwch datblygu, mae'r pandemig COVID 19 wedi cael effaith arwyddocaol ar rai o'r gweithgareddau a fu'n destun monitro yn ystod y cyfnod (e.e. cyfraddau adeiladu tai; ac er bod llifoedd traffig wedi cynyddu o'r lefelau isel ar anterth y pandemig, mae patrymau traffig yn parhau i fod yn sylweddol wahanol i arferion cyn y pandemig). Bydd angen i'r adferiad wedi COVID gael ei ystyried wrth baratoi'r CDLl Newydd.

2.3.3 Mae Fframwaith Monitro'r CDLl wedi'i seilio ar Bolisïau Strategol y Cynllun, gyda dangosyddion i fesur effeithiolrwydd y polisïau a'r cynnydd wrth gyflawni dyraniadau a seilwaith. Dangosodd AMB 3, yn

gyffredinol, fod mwyafrif y dangosyddion yn parhau i ddangos bod polisi'n cael ei weithredu'n gadarnhaol, ac fe'u dangosir yn wyrdd. Mae'n amlygu, fodd bynnag, nad yw rhai targedau dangosydd polisi a chanlyniadau monitro allweddol yn cael eu cyflawni, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â darparu tir ar gyfer tai a chyflogaeth a darparu lleiniau Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn dangos nad yw'r polisïau hyn yn gweithredu fel y bwriadwyd, ac yn yr achosion hyn mae'r gwaith monitro wedi cadarnhau y bydd angen i faterion o'r fath dderbyn sylw yn y CDLl Newydd.

2.3.4 Yn yr achosion hyn, mae'r monitro wedi argymell camau gweithredu penodol, gan gynnwys adolygu polisïau penodol (e.e. mewn perthynas â dyraniadau safle penodol (ac mewn rhai achosion mae hyn i adlewyrchu bod gan y safle ganiatâd cynllunio bellach ac felly mae angen ei ddangos fel ymrwymiad yn hytrach nag fel dyraniad yn y CDLl nesaf); ac ar gyfer darpariaeth lleiniau Sipsiwn/Teithwyr). Ar gyfer materion a dangosyddion eraill, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn canfod y dylid ystyried y rhain yn fwy cyffredinol wrth adolygu'r Cynllun, gan gynnwys dangosyddion sy'n amlygu nad yw'r Cynllun yn cyflawni'r lefelau twf o ran tai a ragwelir i fodloni'r gofynion dros gyfnod y Cynllun. Mae Tabl 7 yn crynhoi'r canlyniad ar gyfer yr holl ddangosyddion.

**Tabl 1: Crynodeb Monitro'r CDLl ar gyfer 2021-22 – AMB 3**

| Asesiad | Cam Gweithredu | Nifer y Dangosyddion |
|---|---|---|
| Mae dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes angen adolygu | Parhau i Fonitro (Gwyrdd) | 95 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. | Angen Hyfforddiant (Glas) | 0 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau ychwanegol yn ychwanegol at y rhai hynny a amlygwyd yn y Cynllun | Angen SPG (Porffor) | 0 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun yn effeithiol fel y disgwyliwyd yn wreiddiol. | Angen ymchwilio ymhellach (Melyn) | 5 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu. | Adolygu Polisïau (Oren) | 18 |
| Mae dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y Cynllun yn cael ei gweithredu. | Adolygu'r Cynllun (Coch) | 7 |

2.3.5 Tynnwyd sylw at nifer fechan o ddangosyddion ar gyfer ymchwiliad ac ymchwil pellach o ganlyniad i'r canfyddiadau monitro. Bydd angen yr ymchwil hwn fel mater o drefn i lywio'r CDLl Newydd ac mae'n

cynnwys diweddaru'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfraddau hapsafleoedd preswyl; yr angen diweddaraf a gyhoeddwyd o ran Sipsiwn a Theithwyr; profion hyfywedd lefel uchel ar gyfer seilwaith a darpariaeth tai fforddiadwy; yr angen am dir ar gyfer echdynnu mwynau; a rhesymau dros beidio â gweld rhwydweithiau gwresogi ardal yn cael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn deillio o'r fframwaith monitro dangosyddion a byddant yn llywio'r ymchwil sydd ei angen ar gyfer y CDLl Newydd, ond nid ydynt yn rhestr gyflawn a bydd angen adolygu sylfaen dystiolaeth y CDLl yn ei chyfanrwydd.

2.3.6 I grynhoi, mae AMB 3 yn amlygu bod rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o CDLl Abertawe dim hwyrach na 4 blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu, sy'n golygu o ran dyddiad mabwysiadu CDLl Abertawe (Chwefror 2019) bod y gofyniad statudol i gychwyn adolygiad o CDLl Abertawe erbyn mis Chwefror 2023 fan bellaf. Mae'n dod i'r casgliad, o ystyried yr angen hwn i adolygu a'r canfyddiadau mewn perthynas â rhai dangosyddion monitro, ei bod yn briodol y dylai Adroddiad Adolygu CDLl gael ei baratoi bellach yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 2.4 Canfyddiadau o Fonitro Blynyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)

2.4.1 Amlygodd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLl yr 8 mater allweddol ar gyfer monitro yn gysylltiedig â chyflawni datblygu cynaliadwy a lles cymunedau, lle y bydd gweithredu'r CDLl yn cael yr effeithiau tebygol mwyaf arwyddocaol. Cyflwynodd AMB 3 dablau sy'n amlinellu'r canlyniadau o'r flwyddyn gyntaf, yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn o fonitro gweithredu'r CDLl. Rhoddir isod grynodeb o'r canlyniadau yn erbyn pob un o'r materion:

- *Colli cynefinoedd a rhywogaethau (bioamrywiaeth)*

2.4.2 Mae polisïau'r CDLl yn ceisio cynnal a gwella adnodd bioamrywiaeth y Sir a'i chynefinoedd a'i rhywogaethau a warchodir, ac mae'r gwaith monitro wedi dangos bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd mabwysiadu'r SPG Bioamrywiaeth a Datblygu yn helpu i weithredu'r polisïau ymhellach.

- *Effaith ar gymeriad y dirwedd, yn enwedig tirweddau a warchodir*

2.4.3 'Does dim dwywaith bod datblygiad yn gallu effeithio ar gymeriad y dirwedd. Fodd bynnag, mae'r AMB yn nodi na fu effaith niweidiol yn y Sir, yn enwedig ar dirweddau a warchodir, yn ystod y cyfnod monitro; ac mae polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

- *Effaith ar yr amgylchedd diwylliannol a hanesyddol, yn enwedig y Gymraeg ac archaeoleg*

2.4.4 Mae'r AMB yn nodi na fu effaith niweidiol ar amgylchedd diwylliannol a hanesyddol y Sir yn ystod y cyfnod monitro a bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gan gynnwys o ran y Gymraeg.

- *Llygredd aer, yn enwedig o ran mwy o allyriadau cerbydol o ganlyniad i ddatblygiad newydd trwy'r Ardal Monitro Ansawdd Aer a Chanol y Ddinas*

2.4.5 Mae'r dadansoddiad wedi dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n gywir ac y dylent fod yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd ar ansawdd aer.

- *Mwy o ddatblygiad mewn ardaloedd perygl llifogydd, yn enwedig o ran Canol y Ddinas a chyrchfannau'r glannau*

2.4.6 Mae'r dadansoddiad wedi dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n gywir ac y dylent fod yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd o ran osgoi datblygiad mewn ardaloedd perygl llifogydd. Bydd newidiadau i TAN 15 yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y CDLl Newydd.

- *Darparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.*

2.4.7 Mae'r dangosyddion yn dangos faint o dai fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau a'u darparu. At ei gilydd, ledled y Sir, mae tai (o bob math o ddeiliadaeth) yn cael eu darparu, ond mae'r niferoedd yn llai na'r disgwyl o ganlyniad i oedi, er enghraifft, wrth ddarparu rhai safleoedd mwy o faint. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer rhai safleoedd tai fforddiadwy a ddyrannwyd mewn ardaloedd gwledig o fewn y cyfnod monitro, gan felly helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau. Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar 60% o gyfanswm yr unedau y disgwylir eu darparu ar draws y chwe safle H5 a ddyrannwyd o fewn Gŵyr a Chyrion Gŵyr, ond, at ei gilydd, mae llai o dai gwledig fforddiadwy wedi cael eu darparu na'r disgwyl hyd yma.

- *Darparu gwelliannau angenrheidiol i seilwaith cymdeithasol a chymunedol a phriffyrdd a thrafnidiaeth, er mwyn hwyluso cyflawni Ardaloedd Datblygu Strategol fel sy'n ofynnol gan yr egwyddorion prif gynllunio i gyflawni cymunedau cynaliadwy a chydlynol.*

2.4.8 Mae'r dangosyddion yn dangos lefel y seilwaith sy'n cael ei sicrhau a'i ddarparu trwy'r system gynllunio i helpu i gyflawni cymunedau cynaliadwy a chydlynol. Mae amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol a seilwaith cymdeithasol wedi cael eu caniatáu yn rhan o ganiatadau a roddwyd i Ardaloedd Datblygu Strategol, gan helpu i hwyluso cymunedau cynaliadwy a chydlynol.

- *Cynyddu gweithgarwch economaidd a chyflogaeth ledled y Sir o ganlyniad i'r strategaeth economaidd sy'n sail i'r Cynllun.*

2.4.9 Mae faint o dir ar gyfer cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 yn darparu 34.2% o'r gofyniad am 19 ha o dir ar gyfer cyflogaeth yn y CDLl. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddatblygu Abertawe fel man gystadleuol ac yn cyfrannu at rôl Abertawe fesbardunwr economaidd rhanbarthol. Bydd yn helpu i gyfrannu at ragolwg economaidd ffyniannus ac economi gynaliadwy

**Pennod 2: Casgliadau ar Newidiadau Cyd-destunol a Ffactorau Eraill sy'n Llywio'r Adolygiad o'r CDLl**

- Mae ystod eang o ffactorau a newidiadau perthnasol i amgylchiadau a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas â CDLl Newydd Abertawe.

- Y llythyr Gweinidogol ar ddyddiadau gorffen Cynlluniau, sydd wedi cadarnhau y bydd y CDLl mabwysiedig yn dod i ben ar 1 Ionawr 2026.

- Mae canfyddiadau'r AMBau, yn enwedig AMB 3 sydd wedi sbarduno adolygiad o'r CDLl, yn amlygu'r angen i ddechrau adolygiad erbyn mis Chwefror 2023 er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i adolygu'r Cynllun a'i sylfaen dystiolaeth bob 4 blynedd o leiaf.

- Un o ganfyddiadau allweddol AMR 3 - a ystyrir ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn - yw'r cynnydd arafach na'r disgwyl o ran cyflawni datblygiadau a neilltuwyd yn y CDLl, yn debyg i ardaloedd eraill yn Ne Cymru.

- Mae newidiadau arwyddocaol i'r cyd-destun polisi cynllunio trosfwaol yn cynnwys mabwysiadu Cymru'r Dyfodol fel y cynllun datblygu haen uchaf genedlaethol a bydd angen i'w oblygiadau, ynghyd ag argraffiad diweddaraf polisi cenedlaethol (PPW), polisi cynllunio LlC ar yr adferiad wedi COVID, gwaith polisi rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, a'r Cynllun Lles Lleol diweddaraf lywio'r CDLl Newydd.

- Bydd canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar baratoi CDLlau yn bwynt cyfeirio allweddol. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad clir ar adolygu Cynllun a'r paramedrau ar gyfer ystyried pa fath o weithdrefn adolygu i'w defnyddio, h.y. Adolygiad Llawn neu Adolygiad Byr (y cyfeirir atynt mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn).

- Mae nifer o bolisïau newydd ac wedi'u diweddaru eraill a ffactorau cyd-destunol eraill wedi'u rhestru ym Mhennod 2 y bydd angen iddynt lywio'r CDLl Newydd hefyd.

# Pennod 3. Gofynion Sylfaen Dystiolaeth yn y Dyfodol

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r Bennod hon yn adolygu sylfaen dystiolaeth y CDLl a pha rannau ohoni y mae angen eu diweddaru i gefnogi newidiadau i'r Cynllun. Mae Rheoliad 41 yn amlygu'n benodol, yng nghyd-destun y gofyniad statudol i adolygu CDLl o fewn 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu, yr ystyrir bod y dystiolaeth sy'n llywio CDLl yn berthnasol y tu hwnt i'r dyddiad 4 blynedd hwnnw.

3.1.2 **Mae'n rhaid i'r CDLl Newydd gael ei seilio ar sylfaen dystiolaeth briodol, gadarn a chyfredol.** Bydd yn hanfodol deall a oes bylchau yn nhystiolaeth bresennol y CDLl, a ble mae'r bylchau hynny, a'r hyn y mae angen ei ddiweddaru.

## 3.2 Adolygu'r Sylfaen Dystiolaeth

3.2.1 Mae amryw elfennau o sylfaen dystiolaeth bresennol y CDLl yn hen bellach o ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu ac, yn ogystal, pan baratowyd rhywfaint o'r dystiolaeth ategol yn y lle cyntaf. Mae newidiadau cyd-destunol, deddfwriaethol a pholisi arwyddocaol wedi digwydd yn ystod yr amser sydd wedi mynd heibio, a amlinellwyd yn fanwl ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, tystiolaeth yn ymwneud ag amcanestyniadau demograffig a rhagolygon economaidd newydd, effeithiau polisi a mapiau perygl llifogydd cenedlaethol wedi'u diweddaru, a'r newidiadau economaidd a chymdeithasol a achoswyd gan y pandemig COVID a BREXIT.

3.2.2 Rhoddir isod restr o asesiadau sylfaen dystiolaeth sydd naill ai'n dod i'r amlwg neu'n debygol o fod yn ofynnol i lywio'r CDLl Newydd:

- Asesiadau twf poblogaeth, economaidd a thai
- Adolygiad o dir ar gyfer cyflogaeth
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Adolygiad Ardal Dwf Genedlaethol Cymru'r Dyfodol
- Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr
- Asesiad Trafnidiaeth Strategol
- Asesiad Manwerthu
- Astudiaeth Capasiti Trefol
- Adolygiad Ffiniau Aneddiadau, gan gynnwys asesiadau pentrefi
- Asesiadau Hyfywedd Ariannol
- Adolygiad o Ofynion Seilwaith
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol
- Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac adolygiad o'r Ardal Sensitif o ran y Gymraeg

- 2il Adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru ar gyfer Agregau

3.2.3 Mae'r rhestr hon yn canolbwyntio ar astudiaethau y mae angen i'r ACLl eu cynnal. Ni fwriedir iddi ddiffinio'r holl dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y Cynllun. Bydd rhai o'r astudiaethau hyn yn cynnwys is-elfennau manylion nad ydynt wedi'u rhestru. Bydd hefyd setiau data a thystiolaeth allweddol nad ydynt wedi'u rhestru ond a fydd yn allweddol i lywio'r astudiaethau hyn a/neu lunio'r CDLl Newydd, fel yr amcanestyniadau demograffig a'r rhagolygon economaidd diweddaraf. Gallai gofynion ychwanegol ar gyfer diweddaru'r sylfaen dystiolaeth ddod i'r amlwg wrth i'r broses o baratoi'r CDLl Newydd fynd rhagddi a bydd yr ACLl yn parhau i fonitro a gweithredu'r ymchwil sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw anghenion tystiolaeth eraill sy'n dod i'r amlwg.

3.2.4 Mae'r Cyngor yn adolygu'r dystiolaeth y mae'r Cynllun wedi'i seilio arni yn barhaus. Eisoes yn 2022, mae'r Cyngor wedi comisiynu gwaith mewn partneriaeth ag Awdurdodau cymdogol i adolygu Astudiaeth Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli ac asesu twf poblogaeth, economaidd a thai yn gynhwysfawr. Mae hefyd wedi cydgomisiynu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddaru, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn parhau i ystyried buddion cydweithio ag Awdurdodau Cynllunio cymdogol i gronni adnoddau, lleihau costau a chynllunio'n effeithiol ar draws ffiniau i ystyried materion sydd â goblygiadau y tu hwnt i ffiniau gweinyddol unigol.

3.2.5 Mae gweddill y Bennod hon yn canolbwyntio ar amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, a ryddhawyd ers i'r CDLl presennol gael ei fabwysiadu. Mae PPW yn esbonio bod yr amcanestyniadau hyn, ochr yn ochr â'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol a'r Cynllun Lles Lleol, yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu.

## 3.3 Data Poblogaeth ac Aelwydydd

### Amcanestyniadau Demograffig Diweddaraf

3.3.1 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae LlC wedi cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u seilio ar dueddiadau ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r amcanestyniadau hyn wedi'u seilio ar 2018[9] a dyma'r rhai olaf a gyhoeddwyd cyn


[9] Amcanestyniadau poblogaeth wedi'u seilio ar 2018. Cyngor Abertawe – Gwybodaeth, Ymchwil ac SGD (Uned Gyflawni Strategol), Awst 2020. Amcanestyniadau poblogaeth wedi'u seilio ar 2018 (wedi'u diwygio). Cyngor Abertawe – Gwybodaeth, Ymchwil ac SGD (Uned Gyflawni Strategol), Rhagfyr 2020.

canlyniadau Cyfrifiad 2021. Maen nhw'n disodli amcanestyniadau cynharach, gan gynnwys y rhai blaenorol wedi'u seilio ar 2014 a ffurfiodd y dystiolaeth ddiweddaraf a adolygwyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig.

3.3.2 O dan y prif amcanestyniad, rhagamcanir y bydd cyfanswm **poblogaeth** Abertawe yn cynyddu o 246,500 amcangyfrifedig yn 2018 i 254,400 yn 2028, sef cynnydd o 7,900 (+3.2%) yn ystod y cyfnod deng mlynedd cyntaf. Rhagamcanir y bydd cyfanswm nifer yr **aelwydydd** yn Abertawe yn cynyddu o 108,900 amcangyfrifedig yn 2018 i 115,000 yn 2028 (+6,100 neu +5.6% dros 10 mlynedd).

3.3.3 Mae Ffigur 1 yn cymharu'r amcanestyniadau aelwydydd mwyaf diweddar hyn â'r set flaenorol a ryddhawyd gan LlC.

**Ffigur 1: Cymharu amcanestyniadau aelwydydd LlC wedi'u seilio ar 2014 a 2018 (wedi'u diwygio) ar gyfer Abertawe**




**Tabl 2: Cymharu amcanestyniadau aelwydydd LlC wedi'u seilio ar 2014 a 2018 (wedi'u diwygio) ar gyfer Abertawe**

| Year | 2014-based | 2018-based |
|---|---|---|
| 2018 | 108,600 | 108,900 |
| 2023 | 112,600 | 111,900 |
| 2028 | 116,300 | 115,000 |
| 2033 | 119,600 | 117,800 |
| 2038 | 122,700 | 120,400 |

3.3.4 At ei gilydd, mae amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'u seilio ar 2018 yn dangos bod twf yn parhau yn Abertawe, ond bod y gyfradd dwf yn is nag a ragamcanwyd yn y set flaenorol o amcanestyniadau yr oedd y CDLl wedi'u

seilio arnynt. Er enghraifft, dros y cyfnod deng mlynedd cyffredin cyntaf (2018-28), y twf rhagamcanol yn yr amcanestyniadau wedi'u seilio ar 2018 yw 5.6%, sy'n is na'r ffigur 7.1% yn yr amcanestyniadau blaenorol (wedi'u seilio ar 2014). Mae'r bwlch rhwng y ffigurau'n cynyddu ychydig ar hyd cyfnod yr amcanestyniad.

3.3.5 Mae LlC hefyd wedi cynhyrchu amcanestyniadau amgen is ac uwch trwy amrywio'r tybiaethau a ddefnyddiwyd. Dangosir yr allbynnau ar gyfer Abertawe isod.

**Tabl 3: Amcanestyniadau aelwydydd amrywiadol LlC wedi'u seilio ar 2018 hyd at 2028 a 2043, Abertawe**

| Amrywiad: Abertawe | Newid Rhagamcanol hyd at 2028 | Newid Rhagamcanol hyd at 2043 |
|---|---|---|
| Amrywiad Is | +5000 (+4.6%) i 113,800 | +8,600 (+7.9%) i 117,500 |
| Prif Amcanestyniad | +6100 (+5.6%) i 115,000 | +14,000 (+12.8%) i 122,800 |
| Amrywiad Uwch | +6,900 (+6.4%) i 115,800 | +18,100 (+16.6%) i 126,900 |

**Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn**


3.3.6 Cyhoeddir Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r boblogaeth yn flynyddol. Dangosodd yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn diweddaraf ar gyfer mis Mehefin 2020 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021) fod gan Abertawe boblogaeth o 246,600, sef 400 yn llai nag Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2019 (y gostyngiad cyntaf i'w gofnodi ym mhoblogaeth Abertawe ers 2001, fel y dangosir gan Ffigur x isod). Roedd y gostyngiad hwn yn deillio'n bennaf o newid naturiol negyddol gan fod 600 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau na'r flwyddyn flaenorol; tra bod mudo mewnol (yn y Deyrnas Unedig) net negyddol wedi'i wrthbwyso gan dwf amcangyfrifedig parhaus o fudo rhyngwladol net.

**Tabl 4: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020 Elfennau Newid o 2019**

| Ardal | Poblogaeth Canol 2019 | Elfennau Newid | | Mudo a Newidiadau Eraill | Poblogaeth Canol 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Genedigaethau* | *Marwolaethau* | | |
| Abertawe | 247,000 | +2,200 | -2,800 | +200 | **246,600** |
| Cymru | 3,152,900 | +29,400 | -35,800 | +23,100 | **3,169,600** |
| Y Deyrnas Unedig | 66,796,800 | +700,700 | -669,200 | +252,900 | **67,081,200** |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2019-20 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

**Ffigur 2: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn newid yn y boblogaeth ar gyfer Abertawe 1995-20**




3.3.7 Mae'r amcangyfrifon yn rhychwantu'r cyfnod hyd at 30 Mehefin 2020 ac felly'n disgrifio rhai yn unig o effeithiau rhan gynnar y pandemig COVID-19 ar y boblogaeth. Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020 yw'r set olaf o amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol i'w chyhoeddi yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011.

**Cyfrifiad 2021**

3.3.8 Ym mis Mehefin 2022, rhyddhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol allbynnau cychwynnol wedi'u talgrynnu o Gyfrifiad 2021. Mae'r allbynnau hyn yn awgrymu na fu unrhyw dwf ym mhoblogaeth y Sir rhwng dyddiadau'r cyfrifiad - mewn gwirionedd, bu gostyngiad bach -0.2% o 239,023 o breswylwyr yn 2011 i 238,500 yn 2021. Mae hyn yn groes i'r tueddiadau cyffredinol a amlygwyd yn yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r boblogaeth (uchod) a oedd wedi dangos cynnydd i 246,600 erbyn 2020. I gymharu, bu cynnydd o +1.4% yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod rhwng Cyfrifiad (2011-2021).

3.3.9 Mae nifer yr aelwydydd yn y Sir wedi cynyddu oddeutu +1.5% o 103,497 yn 2011 i 105,000 yn 2021, ond mae hyn tua 5,000 yn llai na'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn diweddaraf. Bu cynnydd o +3.4% yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod rhwng Cyfrifiad

3.3.10 Disgwylir i Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2021, sef y rhai cyntaf i'w seilio ar ganlyniadau'r Cyfrifiad diweddaraf, gael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn yr hydref 2022, a disgwylir i'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2012 i 2020 gael eu diwygio (wedi'u hailseilio gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021) yn gynnar yn 2023.

3.3.11 Bydd y ffigurau Cyfrifiad hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach wrth i bob set gael ei rhyddhau a bydd yn allweddol i ddeall y goblygiadau i lefel twf y CDLl Newydd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r Asesiad Twf Economaidd a Thai a gomisiynwyd ar y cyd ag Awdurdodau cymdogol.

## *Pennod 3: Casgliadau ar Ofynion Sylfaen Dystiolaeth yn y Dyfodol*

- Mae Rheoliad 41 yn datgan bod rhaid i CDLl gael ei adolygu o leiaf bob 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu ac mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod y sylfaen dystiolaeth yn mynd yn hen ar ôl 4 blynedd. Bydd sylfaen dystiolaeth gadarn a chyfredol yn sail i'r CDLl Newydd.

- Mae'r Bennod hon wedi nodi'r prif astudiaethau y bydd angen eu diweddaru, ond ni fwriedir i'r rhestr gynnwys popeth.

- Un o'r gofynion allweddol fydd ystyried y newidiadau amlwg i ragolygon y boblogaeth ac aelwydydd. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i strategaeth dwf y CDLl o ganlyniad, a fydd yn golygu y bydd angen defnyddio'r weithdrefn Adolygiad Llawn yn hytrach nag Adolygiad Byr oherwydd bod y weithdrefn Adolygiad Byr yn eithrio'n benodol Rheoliad 15 a'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar raddfa a dosbarthiad twf. Bydd y weithdrefn Adolygiad Llawn hefyd yn caniatáu i'r ACLl adolygu sylfaen dystiolaeth gyfan y CDLl i sicrhau ei bod yn gyfredol o hyd.

# Pennod 4. Adolygu CDLl mabwysiedig Abertawe

## 4.1 Cyflwyniad


4.1.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu sut yr ystyrir bod y canfyddiadau ym Mhenodau 2 a 3 yn effeithio ar CDLl Abertawe. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ar Weledigaeth, Nodau ac Amcanion y Cynllun, y Strategaeth Dwf, y Strategaeth Ofodol, Polisïau a Chynigion, a hynny i gyd gyda'r bwriad o lywio proses adolygu'r CDLl. Mae'n cynnwys adolygiad o bob maes pwnc yn y Cynllun, a'r goblygiadau i unrhyw rannau o'r Cynllun na fwriedir eu diwygio o ran cydlyniant ac effeithiolrwydd y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

## 4.2 Adolygu Materion, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl

4.2.1 Gwnaed cryn dipyn o waith casglu tystiolaeth ac ymchwil gefndir wrth baratoi CDLl Abertawe, er mwyn amlygu'r cyfleoedd a'r materion strategol allweddol yr oedd angen i'r Cynllun fynd i'r afael â nhw. Crynhoir y rhain ym Mhennod 1 y CDLl, wedi'u casglu ynghyd o dan benawdau lles economaidd; cymdeithasol a diwylliannol; a'r amgylchedd. Maen nhw'n amlygu'r amrywiaeth eang o feysydd lle gall y Cynllun arwain at newid, yn enwedig o ran gwella cynaliadwyedd a lles. Fodd bynnag, nodir nad yw'r rhestr yn cynnwys popeth gan fod yr ystod o faterion sy'n effeithio ar y Cynllun ac y mae'r Cynllun yn effeithio arnyn nhw yn helaeth. Yna, cyfrannodd y cyfleoedd a'r materion strategol allweddol hyn at ddatblygu gweledigaeth ac amcanion strategol y CDLl.

4.2.2 Mae Gweledigaeth y CDLl yn egluro diben craidd y Cynllun, sut y disgwylir i'r Sir newid ac yn disgrifio'r math o le y dylai ddatblygu i fod yn ystod cyfnod y Cynllun. Ffurfiwyd y weledigaeth i sicrhau bod y Cynllun yn mynd i'r afael â'r cyfleoedd allweddol a'r materion a amlygwyd, yn adlewyrchu cyd-destun rhanbarthol Abertawe, ac yn trosi'r weledigaeth les ar gyfer Cymru gyfan i'r cyd-destun lleol. Roedd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cynllunio strategol mewn polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill perthnasol, gan gynnwys Cynllun Lles Lleol Abertawe (2018), ac fe'i ffurfiwyd gan ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

**Ffigur 3: Darn o’r CDLl – Gweledigaeth y CDLl**




4.2.3 Cyflawnir gweledigaeth y CDLl trwy 24 o amcanion lefel strategol ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol.

4.2.4 Mae Ffigur 4 y CDLl yn dangos bod amcanion y CDLl wedi cael eu profi yn erbyn sut byddant yn helpu i gyflawni’r saith nod lles a rennir ar gyfer Cymru. Mae cynaliadwyedd a chreu lleoedd yn egwyddorion craidd iddynt hefyd.

4.2.5 Felly, ni ddisgwylir y bydd angen newidiadau arwyddocaol, ond bydd angen i gyfleoedd, materion, gweledigaeth ac amcanion y CDLl gael eu gwirio yn erbyn newidiadau perthnasol i’r dystiolaeth gefndir a’r cyd-destun, gan gynnwys, er enghraifft, y berthynas â Chymru’r Dyfodol, PPW wedi’i ddiweddaru a’r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, y Cynllun Lles Lleol diweddaraf a Chynllun Corfforaethol a blaenoriaethau’r Cyngor; ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys amlygu unrhyw gyfleoedd a materion sydd wedi derbyn sylw/sydd wedi’u cyflawni, yn ogystal â’r rhai hynny sy’n berthnasol o hyd wrth symud ymlaen, ynghyd ag unrhyw ffactorau newydd eu hamlygu y mae angen eu hychwanegu, gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw faterion sy’n ymwneud ag adfer wedi’r pandemig COVID.

## 4.3 Adolygu Strategaeth Dwf y CDLl

### *Adolygu Gofynion Graddfa Twf*

4.3.1 Mae’r CDLl yn amlygu gofyniad am 15,600 o gartrefi newydd yn ystod cyfnod 2010-25 y cynllun, a gofyniad am 19 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth i ymdopi â’r 13,600 o swyddi newydd y rhagamcanir y byddant yn cael eu creu. Mae’r gofynion hyn yn ffurfio’r sail i’r Polisïau Strategol canlynol:

- PS 3: Strategaeth Tai Cynaliadwy
- PS 4: Strategaeth Cyflogaeth Cynaliadwy

4.3.2 Amlygwyd y gofynion hyn o sylfaen dystiolaeth a esblygodd yn ystod paratoi’r CDLl er mwyn ystyried y dystiolaeth fwyaf cyfredol (fel amcanestyniadau

demograffig a rhagolygon cyflogaeth) a sylwadau ymgynghoriad. O ganlyniad i'r amser sydd wedi mynd heibio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae'r sylfaen dystiolaeth hon yn hen bellach a bydd angen ei diweddaru ar gyfer y CDLl Newydd.

4.3.3 Mae'r Cyngor wedi comisiynu Asesiad Twf Economaidd a Thai ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot er mwyn llywio lefel y twf y dylid ei ystyried yn y CDLl Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn dilyn gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried swyddi a chartrefi newydd gyda'i gilydd, gan sicrhau bod twf economaidd a thai yn cyd-fynd yn fras er mwyn llywio strategaeth gynaliadwy. Yn unol â PPW, bydd Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ar lefel awdurdod lleol, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf, yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLl Newydd.

4.3.4 Un o ofynion allweddol y CDLl Newydd fydd ystyried y newidiadau amlwg i ragolygon y boblogaeth ac aelwydydd (a grynhowyd ym Mhennod 3) a rhagolygon wedi'u diweddaru ynglŷn â thwf cyflogaeth. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i strategaeth dwf y CDLl o ganlyniad, a fydd yn golygu y bydd angen defnyddio'r weithdrefn Adolygiad Llawn yn hytrach nag Adolygiad Byr oherwydd bod y weithdrefn Adolygiad Byr yn eithrio'n benodol Rheoliad 15 a'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar raddfa twf.


4.3.5 O ran lefelau twf yn y dyfodol, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod amcangyfrifon canolog LIC yn dangos bod angen 25,600 o gartrefi ychwanegol yn rhanbarth y De-orllewin tan 2039. Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan na fwriedir i hyn ragnodi gofyniad tai, ond ei fod yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio polisi a gofynion tai arni ar gyfer CDLlau yn y rhanbarth.

### *Adolygu'r Ddarpariaeth*

4.3.6 Mae'r AMBau wedi adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r gofynion twf a amlinellir yn y CDLl, a chrynhoir y cynnydd hwn isod ar lefel y Sir. Rhoddir dadansoddiad ychwanegol yn ôl ardal / mathau o safleoedd yn yr adran strategaeth ofodol.

4.3.7 Er mwyn bodloni'r gofyniad ar gyfer anheddau newydd a amlinellir ym mholisi PS 3, roedd angen i 1,040 o gartrefi ychwanegol gael eu cwblhau bob blwyddyn, ar draws cyfnod 15 mlynedd y cynllun. At ei gilydd, mae AMB 3 yn nodi bod 5,952 o anheddau wedi cael eu cwblhau rhwng 2010-11 a 2021-22. Mae hyn yn gyfystyr â 48% o'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol. Mae'r siart isod yn dangos yr anheddau a gwblhawyd o 2010 i 2022 wedi'u plotio yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog.

**Ffigur 4: Anheddau Newydd a Adeiladwyd fesul Blwyddyn o Gymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol ar gyfer Cyfnod y CDLl**




4.3.8 Mae tir at ddibenion cyflogaeth yn cael ei ddyrannu ym Mholisi PS 4 i ymdopi â'r twf a ragfynegir mewn swyddi a'r gofyniad am dir ar gyfer cyflogaeth, ar yr un pryd â chaniatáu hyblygrwydd o ran darparu ystod o wahanol fathau o safleoedd. Mae faint o dir ar gyfer cyflogaeth sy'n cael ei gydsynio ar safleoedd wedi'u dyrannu yn cael ei fonitro yn yr AMB ac fe'i crynhoir yn y tabl isod. At ei gilydd, mae tua 6.5 ha wedi cael ei gydsynio mewn Ardaloedd Datblygu Strategol, sy'n gyfystyr ag oddeutu 9.8% o'r 60 ha a ddyrannwyd yn y CDLl yn gyffredinol. Dylid nodi bod y Cynllun yn darparu lefel uwch o ddyraniadau tir ar gyfer cyflogaeth na'r gofyniad tir ar gyfer cyflogaeth a amlygwyd, sef 19 ha. Mae'r dyraniadau wedi cael eu gwneud ar amrywiaeth o safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o fuddsoddwyr mewn lleoliadau cynaliadwy ledled y Sir, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddi i'r eithaf a bod yn hyblyg i newidiadau i'r galw yn y farchnad. Felly, mae hefyd yn ddefnyddiol nodi bod faint o dir ar gyfer cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 yn darparu 31.1% o'r gofyniad 19 ha o dir ar gyfer cyflogaeth yn y CDLl.

**Tabl 5: Tir ar gyfer Cyflogaeth a Gydsyniwyd ar safleoedd wedi'u Dyrannu ers mabwysiadu'r CDLl (mewn hectarau)**

| | **Ardal a ddyrannwyd** | **Cydsyniadau cynllunio ers mabwysiadu'r CDLl mewn Ardaloedd Datblygu Strategol** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 60 ha | 5.9 ha |

### *Strategaeth Ofodol (Polisïau Strategol PS 1, 3 a 4)*

4.3.9 Mae strategaeth y CDLl ar gyfer dyrannu tir i fodloni twf disgwyliedig a gofynion defnydd tir a amlygwyd yn canolbwyntio'n sylfaenol ar gyflwyno datblygiad ar safleoedd a fydd yn bodloni amcanion y Cynllun a'r SA orau. Mae pwyslais penodol ar ddarparu cyfleoedd twf

cyflogaeth, adfywio a darparu llety o ansawdd da mewn cymunedau cydlynol a chynaliadwy, ar yr un pryd â gwarchod treftadaeth naturiol ac amgylcheddau diwylliannol a hanesyddol unigryw'r Sir.

4.3.10 Mae dosbarthiad twf cynaliadwy yn y dyfodol ar draws y Sir yn y CDLl yn dilyn hierarchaeth aneddiadau syml sy'n cynnwys yr ardal drefol, Pentrefi Allweddol a chefn gwlad. Mae'r dull hwn yn amlygu ardal drefol Abertawe fel y prif bwyslais ar gyfer twf a'r lleoliad mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad mawr, gan atgyfnerthu ei statws fel y brif ganolfan ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. I ffwrdd oddi wrth yr ardal drefol, mae twf ar raddfa fach wedi'i ganolbwyntio ar nifer o bentrefi allweddol diffiniedig. Amlygodd proses arfarnu aneddiadau gwledig Bentrefi Allweddol fel yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy yn yr ardal wledig, i ymdopi â thai, cyfleusterau cymunedol a datblygiad menter wledig gynaliadwy priodol ar raddfa fach.

4.3.11 Mae cefn gwlad y Sir yn helaeth, lle y ceir nifer o bentrefannau, anheddau anghysbell, ffermydd a mentrau gwledig sy'n adlewyrchu natur economi wledig y Sir. Mae cefn gwlad yn adnodd y mae pen draw iddo ac fe'i diogelir rhag datblygiad amhriodol yn y strategaeth ofodol yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae'n annhebygol y bydd y strategaeth ofodol gyffredinol hon yn newid.

4.3.12 O ran llywio dyraniadau newydd ar gyfer datblygiad, profwyd gwahanol opsiynau gofodol (gweler Ffigur 6) ar gyfer dosbarthu'r amcanestyniadau twf a amlygwyd a'r gofynion defnydd tir cysylltiedig ar gyfer cyfnod y Cynllun, mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

**Ffigur 5: Opsiynau Gofodol y CDLl**

| Option 1 | Option 2 | Option 3 | Option 4 |
| --- | --- | --- | --- |
| Edge of settlement allocations throughout the County | Edge of settlement allocations, plus limited rural/semi-rural extensions | Sustainable Urban Extensions for residential | Strategic Development Areas |
| 'Spread Approach' | 'Spread Approach - Plus' | 'Focussed Approach – Residential' | 'Focussed Approach – Mixed Use & Residential' |

4.3.13 Dangosodd yr asesiad na fyddai'r un o'r opsiynau yn cyflawni datblygiad cynaliadwy ar eu pen eu hunain. Amlygodd yr asesiad o'r opsiynau a'r argymhellion ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol fod angen defnyddio cyfuniad o ddulliau i gyflawni'r gofynion defnydd tir dros gyfnod y Cynllun mewn ffordd gynaliadwy.

4.3.14 Mae'r CDLl yn caniatáu ar gyfer creu nifer gyfyngedig o gymdogaethau newydd cynaliadwy mewn Ardaloedd Datblygu Strategol o fewn neu'n agos at yr ardal drefol bresennol, sydd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun a chyflawni lles a datblygiad cynaliadwy. Mae Ardaloedd

Datblygu Strategol yn ddigon mawr i alluogi prif gynllunio strategol gofalus i sicrhau eu bod yn creu lleoedd newydd cynaliadwy, cydlynol o ansawdd da ac a ddyluniwyd yn dda sy'n cael eu darparu trwy ddull creu lleoedd cryf. Gellir darparu'r seilwaith newydd sy'n ofynnol trwy arbedion maint a thrwy leoli Ardaloedd Datblygu Strategol yn ofalus.

4.3.15 Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod bod angen pwysig i fynd i'r afael â'r gofynion tai a amlygwyd ar gyfer yr holl gymunedau yn y Sir. Byddai pwyslais ar Ardaloedd Datblygu Strategol yn unig, trwy gyfrwng y cyfleoedd datblygu priodol sydd ar gael, yn arwain at orgrynhoi datblygiad mewn rhai Ardaloedd Polisi Tai Strategol. I fodloni anghenion tai ar draws y Sir, cefnogwyd yr Ardaloedd Datblygu Strategol gan nifer gyfyngedig o estyniadau cyrion anheddiad anstrategol ar raddfa ganolig a dyraniadau mwy gwasgaredig a llai o faint i gwblhau aneddiadau. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu cymysgedd o ddatblygiad tai ar draws y Sir lle y mae ei angen, gan gynnwys datblygiad bach priodol i ddarparu Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol mewn aneddiadau gwledig a lled-wledig lle y bydd cymeriad a chydlyniad presennol y gymuned yn cael eu cynnal neu eu gwella gan ddatblygiad.

4.3.16 **Er na ddisgwylir y bydd angen newidiadau arwyddocaol i'r Strategaeth Ofodol drosfwaol, bydd angen i'r ffordd y caiff ei chyflawni gael ei hadolygu yn erbyn newidiadau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, gan gynnwys, er enghraifft, yr agweddau gofodol perthnasol a amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol.**

### *Cyflawni'r Strategaeth Ofodol*

4.3.17 Bwriedir i strategaeth ofodol y CDLl gael ei chyflawni trwy'r amcanion a'r gofynion cynllunio a amlinellir ym Mholisi Strategol PS 1 Lleoedd Cynaliadwy, a'i chefnogi gan PS 2 a PS 4 sy'n ymdrin yn benodol â thai a thir ar gyfer cyflogaeth, yn y drefn honno. Mae'r AMB yn monitro'r broses o gyflawni'r strategaethau hyn yn ofodol.

4.3.18 Mae Dangosydd 1 wedi monitro datblygiad yng nghefn gwlad, ac mae'r monitro wedi dangos bod cydsyniadau cynllunio wedi bod yn unol â'r fframwaith polisi. Deuir i'r casgliad bod lletemau glas a chefn gwlad yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol a bod datblygiad yn cael ei gyfeirio tuag at y lleoedd mwyaf cynaliadwy o fewn ffiniau diffiniedig aneddiadau. Bydd angen i ffiniau aneddiadau gael eu hadolygu ar gyfer unrhyw newidiadau bach sy'n ofynnol i'w diweddaru ar gyfer y CDLl Newydd.

4.3.19 Mae darparu tai wedi cael ei fonitro hefyd yn erbyn gwahanol elfennau cyflenwi tai. Crynhoir canfyddiadau'r gwaith monitro hwnnw hyd yma isod.

**Tabl 6: Darparu Tai ers mabwysiadu'r CDLl 2019-20 i 2021-22**


| **Elfen gyflenwi** | **Anheddau newydd a adeiladwyd ers mabwysiadu'r CDLl** |
|---|---|
| Dyraniadau | |
| Ardaloedd Datblygu Strategol | 150 |
| H1 | 378 |
| H5 | 105 |
| Ymrwymiadau mawr y CDLl | 216 |
| Hap-safleoedd mawr | 179 |
| Safleoedd bach | 224 |
| **Cyfanswm** | **1,217** |

4.3.20 Mae Ffigur 7 yn dangos statws darparu'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun, gan ddangos pa rai sydd wedi cael eu hadeiladu, sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, neu sydd â chaniatâd cynllunio. Mae hefyd yn dangos y safleoedd nad ydynt wedi symud ymlaen i'r cam cais cynllunio ar ddyddiad yr adroddiad hwn.


4.3.21 Mae nifer o hap-safleoedd wedi cael eu cyflwyno ac wedi darparu tai yn ystod y cyfnod ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. At hynny, disgwylir i nifer o hap-safleoedd mawr sydd â chaniatâd cynllunio manwl, sy'n fwy na chyfanswm y rhagolygon yn y CDLl ar gyfer darpariaeth hap-safleoedd flynyddol, gael eu hadeiladu yn ystod y 3 blynedd nesaf. Mae hyn yn awgrymu bod y tybiaethau ynglŷn â hap-safleoedd a ddefnyddiwyd yn y CDLl ar gyfer hap-safleoedd mawr yn debygol o fod yn danamcangyfrif ceidwadol o ran yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu dros gyfnod llawn y Cynllun. Ar y sail y bydd hap-safleoedd ychwanegol yn cael eu cyflwyno ym mlynyddoedd diweddarach cyfnod y Cynllun yn unol â'r duedd hon, y tu hwnt i'r gyfradd flynyddol a dybiwyd yn y CDLl, tybir y bydd cynnydd yn y cyflenwad trwy'r dull hwn ym mlynyddoedd y Cynllun yn y dyfodol.

4.3.22 Mae Dangosydd 8 wedi monitro darparu anheddau newydd yn y 'Pentrefi Allweddol' a ddiffiniwyd yn y CDLl. Mae hyn yn dangos bod 85 wedi cael eu darparu yn y blynyddoedd 2019-22. Mae cyfleoedd yn bodoli o hyd ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tua 228 o gartrefi newydd ychwanegol mewn Pentrefi Allweddol. Bydd angen i'r pentrefi allweddol gael eu hailasesu am unrhyw newidiadau mewn statws a'r angen am unrhyw gyfleoedd datblygu cynaliadwy ychwanegol posibl i gefnogi strategaeth y Cynllun.

## Ffigur 7: Statws Darparu Safleoedd a Ddyrannwyd



**Ffigur 8: Diagram Strategaeth Ofodol y CDLl**




4.3.23 Fel yr adroddwyd yn AMB 3, mae nifer gyffredinol yr anheddau ychwanegol a adeiladwyd yn y Sir wedi gostwng islaw'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o 1,040 o gartrefi y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol ar ôl mabwysiadu'r CDLl. Ynghyd â'r lefelau is o dai a ddarparwyd yn ystod blynyddoedd cychwynnol cyfnod y Cynllun, bydd angen cyfradd adeiladu flynyddol o 2,412 o gartrefi newydd o 2022 i 2025 i fodloni targed tai'r CDLl o 15,600 o anheddau newydd. Mae darpariaeth ar y lefel hon yn ddigynsail a byddai'n golygu bod angen i nifer o safleoedd gael eu cyflwyno ar yr un pryd. Felly, ystyrir bellach ei bod yn annhebygol y bydd gofyniad tai'r CDLl yn cael ei gyflawni'n llawn yn ystod cyfnod y CDLl.

4.3.24 Mae'r methiant i gyflawni'r lefelau twf tai a nodir yn y cynllun yn ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau fel y nodir yn AMB 3. Bu amgylchiadau eithriadol iawn sydd wedi dylanwadu ar y canlyniad uchod dros y 2-3 blynedd diwethaf. Yn benodol, ar adegau o fewn y cyfnod hwn mae'r gwaith o gwblhau anheddau wedi'i effeithio gan argyfwng COVID 19 sy'n effeithio ar weithrediadau safle (cau safleoedd a chynnal pellter cymdeithasol), tra bod problemau â chyflenwad llafur, costau cynyddol deunyddiau ac amseroedd paratoi estynedig oherwydd problemau cadwyn gyflenwi hefyd yn effeithio ar y diwydiant adeiladu tai.2 Ffactorau pellach sydd wedi effeithio ar ba mor gyflym y mae'r safleoedd SDA preswyl a neilltuwyd yn cael eu cyflwyno yw'r gofynion i ymgorffori gofynion draenio cynaliadwy yn llawn, a gofynion deddfwriaethol ecolegol newidiol. Mae'n bwysig nodi bod oedi wrth gyflawni gofynion tai yn digwydd ar draws De Cymru (e.e. cyfeiriwyd at oedi tebyg yn AMBau Caerdydd, Casnewydd, CNPT a Phen-y-bont ar Ogwr) ac nid yw'r mater hwn wedi'i gyfyngu i Abertawe yn unig. Er enghraifft, mae AMB diweddaraf Caerdydd yn nodi bod cyfraddau cwblhau yn is na'r targedau ar gyfer safleoedd tai yn eu CDLl a fabwysiadwyd sawl blwyddyn cyn CDLl Abertawe.

4.3.25 Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud

tuag at sicrhau caniatâd cynllunio a chymeradwyaethau cysylltiedig, i alluogi datblygwyr i ddechrau gwaith ar safleoedd a darparu'r cartrefi gofynnol. Mae'r ACLl wedi parhau i ymgysylltu'n agos â hyrwyddwyr a datblygwyr safleoedd perthnasol ers i'r CDLl gael ei baratoi a'i fabwysiadu, ac mae sawl SDA wedi'u dwyn ymlaen i'r cam cais cynllunio manwl. Mae'r cydweithio agos hwn wedi sicrhau bod y safleoedd wedi symud ymlaen yn unol â'r egwyddorion creu lleoedd manwl a'r gofynion cynaliadwyedd sydd wedi'u nodi'n glir yn y Cynllun Datblygu a pholisi cenedlaethol, a bod seilwaith a mesurau eraill yn cael eu sicrhau trwy gytundebau Adran 106 cymhleth. Mae'r ymgysylltu agos â hyrwyddwyr safleoedd a'r gwaith i ddatblygu ceisiadau wedi arwain at gyflawniad sylweddol gan gynnwys y cais cynllunio Materion a Gadwyd yn Ôl (RM) ar gyfer camau cyntaf SD B, Tir i'r gogledd o Garden Village, (cymeradwywyd yn 2021-22) yn ogystal â'r cymeradwyaethau manwl a gafwyd ar gyfer camau cynnar safle SD C Tir i'r de o'r A240 Penlle'r-gaer, yn y flwyddyn flaenorol, a chais cynllunio RM ar gyfer SD D, Tir i'r Gorllewin o Heol Llangyfelach Penderi, sydd wedi'i gymeradwyo yn 2022-23.

4.3.26 Mae'r ACLl yn parhau i weithio gyda'r datblygwyr a'r ymgeiswyr perthnasol i hwyluso'r ceisiadau rhyddhau amodau angenrheidiol, er mwyn i waith allu dechrau'n gyflym ar y safleoedd sydd â chaniatâd. Ar sail trafodaethau â'r datblygwyr, ystyrir ei bod yn debygol y bydd yr amodau gofynnol yn cael eu rhyddhau, gan alluogi gwaith i ddechrau ar SD C yn 2022-23 ac SD B yn 2023-24. Mae cynnydd yn cael ei wneud hefyd ar gyflwyno safleoedd eraill Ardaloedd Datblygu Strategol, gydag ymgysylltiad yn parhau rhwng yr ACLl a'r datblygwr tuag at benderfynu ar gais cynllunio Materion a Gedwir yn Ôl ar gyfer SD D, Tir i'r gorllewin o Langyfelach, ac ymgysylltiad cyn-gynllunio gweithredol i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar safleoedd SD A, Tir i'r De o Glanffrwyd Road, Pontarddulais; SD E Tir i'r Gogledd o Clasemont Road, Treforys; SD F Tir yn Ysbyty Cefn Coed, Tycoch; ac SD H Tir i'r Gogledd o Waunarlwydd / Fforestfach.

4.3.27 Er bod cyfraddau cwblhau wedi bod yn is ac yn arafach na'r disgwyl, mae'n amlwg o'r gwaith cydweithredol parhaus sy'n cael ei wneud, ac awydd datblygwyr i fynd â safleoedd drwy'r broses gynllunio, bod y dull a arweinir gan y Cynllun yn mynd i ddechrau ysgogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd yn llwyddiannus. Wedi dweud hynny, nid yw datblygiad rhai o ddyraniadau'r cynllun wedi symud ymlaen mor gyflym ag a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd nifer o ffactorau, yn debyg i rannau eraill o Dde Cymru, a hynny er gwaethaf ymdrechion y Cyngor. Er bod llawer o'r safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl yn cael eu hystyried yn rhai cadarn ac yn symud ymlaen, mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r gofyniad o ran tai yn cael ei gyflawni'n gyffredinol. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddeall ac ystyried y ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn.

4.3.28 Serch hynny, mae’n bwysig bod yr adolygiad yn adlewyrchu’r gwaith sylweddol sydd wedi’i wneud gan hyrwyddwyr safleoedd ac ACLl i symud nifer o’r safleoedd i gam datblygedig yn y broses gynllunio, fel eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu cartrefi ar y safle yn fuan a chreu enghreifftiau gwych o leoedd cynaliadwy newydd, ac mae’n bosibl iawn y bydd rhai safleoedd eraill a neilltuwyd yn dod yn ymrwymiadau yn y cyfnod amser cyn mabwysiadu CDLl Newydd. Serch hynny, bydd yr Adolygiad yn rhoi’r cyfle i adolygu pa mor gyflawnadwy a hyfyw yw’r safleoedd sydd eisoes wedi’u neilltuo; ac ar yr un pryd hefyd ystyried pa safleoedd priodol a chynaliadwy eraill a allai gyfrannu at y cyflenwad tai. Bydd angen i unrhyw adolygiad hefyd ystyried y newid yn y dystiolaeth o ran gofynion tai ers mabwysiadu’r CDLl. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, mae’n rhaid cael digon o safleoedd sy’n addas ar gyfer yr ystod lawn o fathau o dai i fynd i’r afael ag anghenion canfyddedig cymunedau, a bydd hynny’n golygu diweddaru’r dystiolaeth o anghenion tai. At hynny, bydd angen amrywiaeth o safleoedd cynaliadwy a chyflawnadwy er mwyn rhoi cyfle i bob sector a math o adeiladwyr tai, gan gynnwys gwladolion, RSLs, BBaChau a’r sector adeiladu a hunanadeiladu, gyfrannu at gyflawni’r gofyniad arfaethedig o ran tai.

4.3.29 Dangosir statws cynllunio ac adeiladu pob safle sydd wedi’i ddyrannu yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. I grynhoi, mae Tabl 7 isod yn amlinellu’r cyflenwad tai sy’n weddill ar safleoedd wedi’u dyrannu ar hyn o bryd a rhai eraill sydd â chaniatâd cynllunio.

**Tabl 7: Capasiti’r Cyflenwad Tai sy’n Weddill**

| **Elfen y cyflenwad** | **Nifer y cartrefi** |
|---|---|
| Capasiti sy’n weddill ar ddyraniadau: | 11,828 |
| H1 | 2,204 |
| H5 | 117 |
| SDA | 9,507 |
| Capasiti sy’n weddill ar safleoedd mawr eraill sydd â chaniatâd cynllunio | 1,336 |
| **Cyfanswm** | **13,164** |

**Ffynhonnell: AMB 3 Dyddiad Sylfaen 1/4/2022**

4.3.30 I fodloni’r lleiafswm tir ar gyfer cyflogaeth sy’n ofynnol, sef 19 o hectarau, disgwylir cyfradd ddefnyddio gyfartalog o 2.7 o hectarau y flwyddyn ar ôl i’r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae’r canlyniadau o AMB 3 yn dangos, ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu, bod cyfanswm o 5.9 o hectarau o dir ar gyfer cyflogaeth wedi cael eu caniatáu ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd. Er bod hyn yn is na’r gofyniad blynyddol cyfartalog, mae’n anodd rhagfynegi buddsoddiad economaidd a defnydd. Mae’r cyflenwad yn parhau i gynnwys ystod o dir yn barod i’w ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd buddsoddi.

**Tabl 8: Tir ar gyfer Cyflogaeth a Ganiatawyd (mewn hectarau)**

| Enw'r safle | Ardal a ddyrannwyd | Cydsyniadau cynllunio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu |
|---|---|---|
| SD G: Tir i'r gogledd o Gyffordd 46 yr M4 | 14 | 2.7 |
| SD H: Tir i'r gogledd o Waunarlwydd / Fforestfach | 26 | 0 |
| SD I: Bro Tawe | 4 | 1.89 |
| SD J: Ardal Canol Abertawe | 4 | 1.32 |
| SD K: Coridor Ffordd Fabian | 12 | 0 |
| **Cyfanswm** | **60** | **5.91** |

4.3.31 Yn ogystal â dyrannu tir mewn Ardaloedd Datblygu Strategol, mae'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu economaidd yn cynnwys diogelu safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer defnyddiau B (polisïau RC 10 ac 11). Mae'r AMR wedi canfod bod y polisïau sy'n ymwneud â diogelu cyflogaeth yn cael eu defnyddio'n briodol tra bod rhywfaint o hyblygrwydd priodol yn cael ei ganiatáu yn unol â'r polisïau. Fodd bynnag, fe allai fod yn fuddiol rhoi mwy o arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â thir/safle diwydiannol a masnachol sefydledig mewn perthynas â'r polisïau hyn, a'i ddiffinio'n fanylach, gan nad yw safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u hamlygu'n ofodol ar y map cynigion. Mae ceisiadau ar gyfer datblygiad swyddfa arwyddocaol yn cael eu cyfeirio'n llwyddiannus i'r Ardal Ganolog yn unol â'r fframwaith polisi (Polisi RC 12).

4.3.32 At ei gilydd, mae'r dystiolaeth a grynhoir uchod yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y strategaeth ofodol gyffredinol yn gadarn i raddau helaeth ac yn cydymffurfio â'r dull prif gynllunio a chynllun seilwaith sydd wedi'i ymgorffori yn y cynllun. Fodd bynnag, mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i ailystyried y lefelau twf mwyaf priodol yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun CDLl Newydd, a sicrhau mai'r strategaeth ofodol bresennol yw'r ffordd fwyaf priodol o fodloni'r gofynion twf wedi'u diweddaru o hyd. Bydd newidiadau ers mabwysiadu'r CDLl yn fewnbynnau allweddol, fel strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol ar gyfer yr ardal, gan gynnwys amlygu'r Ardal Dwf Genedlaethol, a gofyniad i sefydlu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas a gefnogir gan fframwaith gofodol sy'n arwain twf ac adfywio; Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, diweddariadau PPW a'r Cynllun Lles a blaenoriaethau corfforaethol.

4.3.33 Bydd angen i ddyraniadau heb eu darparu gael eu hadolygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol i sicrhau

eu bod yn hyfyw a bod modd eu darparu o hyd, ac efallai na fydd rhai'n cael eu hailddyrannu oni bai y gellir dangos tystiolaeth y byddant yn cael eu cyflwyno o fewn cyfnod y Cynllun Newydd. Bydd angen i safleoedd ymgeisiol gael eu hasesu o ran y posibilrwydd o'u dyrannu pan fo'r angen. Bydd angen i gyfraddau hap-safleoedd yn y dyfodol gael eu hamcangyfrif yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys cynnal astudiaethau capasiti trefol a phentref ac adolygu'r ffin aneddiadau.

4.3.34 Felly, yn ogystal â'r angen i ddiweddaru'r strategaeth dwf, er yr ystyrir bod y strategaeth ofodol bresennol yn gadarn, bydd angen adolygu'r ffordd y caiff ei chyflawni hefyd. Mae hyn yn golygu, unwaith eto, bod angen i'r weithdrefn Adolygiad Llawn gael ei defnyddio gan nad yw'r Adolygiad Byr yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar raddfa a dosbarthiad twf.

## 4.4 Adolygu Meysydd Pwnc a Pholisïau Eraill y CDLl

4.4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o ddulliau monitro ac effeithiolrwydd ystod eang o bolisïau a meysydd pwnc y CDLl. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu gan ystyried:

- Canfyddiadau AMBau y CDLl;
- Newidiadau cyd-destunol arwyddocaol sydd wedi digwydd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth; ffactorau economaidd-gymdeithasol fel goblygiadau sy'n deillio o'r pandemig Covid; ac
- Ymgynghori mewnol â swyddogion arbenigol perthnasol.

4.4.2 Bwriedir i'r broses adolygu hon roi trosolwg o b'un a yw polisi'n gweithredu'n effeithiol, p'un a yw'n debygol y bydd angen unrhyw ddiwygiadau a ph'un a ddylai unrhyw bolisïau gael eu dileu yn rhan o broses adolygu'r Cynllun. Ni ystyrir bod yr asesiad polisi a gynhaliwyd hyd yma yn ddiffiniol a bydd mwy o ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r angen i ddiwygio polisïau'r Cynllun yn rhan o broses y CDLl Newydd.

**Polisïau Tai Manwl**

**Tai Fforddiadwy**

4.4.3 Mae'r Strategaeth Tai Fforddiadwy (Polisi H 2) yn gosod targed ar gyfer darparu lleiafswm o 3,310 o unedau fforddiadwy ar hyd cyfnod y Cynllun trwy'r mesurau canlynol:

- Gosod targedau i dai fforddiadwy gael eu darparu ar y safle yn rhan o gynigion preswyl, lle y bo'n briool ac yn hyfyw;

- Dyrannu Safleoedd Eithriedig Tai Anghenion Lleol, a fydd yn darparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol fel cyfran fwyaf o'r cartrefi ar safleoedd o'r fath, a gefnogir gan elfen leiafsymiol o dai marchnad i fodloni angen lleol; a
- Darparu fframwaith polisi ar gyfer pennu safleoedd eithriedig tai fforddiadwy 100%.

4.4.4 Llywiwyd y fframwaith polisi gan Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, y bydd angen i'r ddau gael eu diweddaru yn rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

4.4.5 Mae data monitro'n dangos bod 1,607 o unedau fforddiadwy wedi cael eu hadeiladu rhwng 2010 a 2022, sy'n cynrychioli 27% o'r holl dai a gwblhawyd yn gyffredinol yn ystod y cyfnod. Er bod hyn yn llai na'r targed rhifiadol, mae'n adlewyrchu nifer o ffactorau sy'n effeithio ar adeiladu tai yn gyffredinol, gan gynnwys y cynnydd arafach na'r disgwyl o ran darparu'r dyraniadau tai strategol.

4.4.6 Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni Polisi H 5 'Safleoedd Eithriedig' ar gyfer safleoedd sy'n cynnwys mwyafrif o dai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys safle H5.5 Tir yn Summerland Lane (61 o unedau wedi'u cwblhau), H5.4 Tir yn cyffinio â Pennard Drive (mae'r gwaith adeiladu bron â'i gwblhau ac mae'r unedau wedi'u meddiannu'n rhannol – mae 44 o'r 70 o unedau wedi'u cwblhau ar hyn o bryd), a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer H5.6 Tir yn Higher Lane, Langland (31 o unedau). Mae dau 'Safle H5' arall ar y cam cyn cyflwyno cais cynllunio. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer dau safle eithriedig tai fforddiadwy 100% ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, gyda 41 o unedau fforddiadwy ar Dir oddi ar George Manning Way, Tre-gŵyr; a 44 ar Fferm Pencefnarda, Gorseinon; tra bod 20 o unedau a ganiatawyd cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu wedi cael eu cwblhau ar Dir oddi ar Rhydypandy Road a Mynydd Gelli Wastad Road, Treforys.

4.4.7 Mae'n galonogol bod y safleoedd strategol a ddyrannwyd wedi sicrhau niferoedd sylweddol o gartrefi fforddiadwy newydd wrth i ganiatadau cynllunio gael eu rhoi ar gyfer SD B, C a D yn unol â pholisïau safle'r CDLl. Felly, disgwylir i nifer y tai fforddiadwy a gwblheir yn ystod y blynyddoedd i ddod gynyddu'n sylweddol.

4.4.8 Mae'r AMBau wedi cofnodi bod canrannau tai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â'r polisi wedi cael eu darparu ar ddyraniadau anstrategol a hap-safleoedd, a bod llawer o gynlluniau 100% wedi cael eu cyflawni gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn llawer o achosion. Mewn nifer gyfyngedig o achosion, bu angen i rai cynigion ddarparu canran is na'r targed yn seiliedig ar hyfywedd yn dilyn trafodaethau hyfywedd manwl gyda'r ACLl yn unol â'r fframwaith polisi.

4.4.9 Mae gan y Cyngor raglen adeiladu cartrefi Cyngor, sef Mwy o Gartrefi. Hyd yma, mae 81 o gartrefi Cyngor

wedi cael eu cwblhau yn Colliers Way, Parc yr Helig, Bryn House a Hillview. Mae nifer o safleoedd Mwy o Gartrefi ychwanegol yn yr arfaeth.

4.4.10 Wrth baratoi'r CDLl Newydd, bydd angen i newidiadau i bolisi / canllawiau cynllunio cenedlaethol gael eu hystyried. Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yw bod Cymru'r Dyfodol yn amlygu darparu tai fforddiadwy fel blaenoriaeth allweddol. Mae Polisi 7 yn mynnu bod awdurdodau cynllunio'n nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy yn dilyn ymlaen o lythyr LIC, Cynyddu'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy trwy Gynllunio (Gorffennaf 2019), sy'n mynnu bod ACLlau yn eu dyrannu yn eu CDLlau. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn amcangyfrif y dylai 44% o'r cartrefi ychwanegol sy'n angenrheidiol yn Rhanbarth De-orllewin Cymru o 2019-20 i 2023-24 fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu arnynt a byddant yn llywio'r diweddariad i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

4.4.11 Mae'r Cyngor wedi comisiynu Asesiad newydd o'r Farchnad Dai Leol a fydd yn dilyn y fethodoleg, yr arweiniad a'r offeryn newydd. Bydd hyn yn darparu dadansoddiad trwyadl o ddata anghenion tai. Bydd angen i'r broses o baratoi'r CDLl Newydd ystyried yr ymateb polisi mwyaf priodol yng nghyd-destun yr angen diwygiedig am dai a nodwyd yng nghyd-destun y gofyniad cyffredinol am dwf tai, ochr yn ochr ag ystyriaeth drwyadl wedi'i diweddaru o agweddau hyfywedd ac adolygiad o safleoedd a allai fod yn addas i gyfrannu tuag at fodloni'r galw.

4.4.12 Ystyrir bod y polisïau tai fforddiadwy'n gweithio i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae angen rhai newidiadau, gan gynnwys y canlynol:

4.4.13 Dylid egluro bod rhaid i'r holl gartrefi fforddiadwy, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir trwy naill ai rwymedigaethau cynllunio neu amodau cynllunio, fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu newydd Cymru (WDQR 2021) Creu Cartrefi a Mannau Prydferth.

4.4.14 Yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Ganllawiau Costau Derbyniol, bydd angen egluro'r fethodoleg i'w defnyddio ar gyfer trosglwyddo cartrefi fforddiadwy i'r Cyngor neu landlord cymdeithasol cofrestredig a enwebwyd.

4.4.15 Bydd i'r canrannau targed a'r trothwyon ar gyfer sbarduno gofynion tai fforddiadwy ym Mholisi H 3 gael eu hadolygu trwy asesiad Hyfywedd wedi'i ddiweddaru.

4.4.16 Byddai eglurhad pellach yn fuddiol o ran yr eithriad ar gyfer trawsnewid, dymchwel neu newid defnydd eiddo masnachol.

4.4.17 Mewn achosion pan fydd y ganran darged o anheddau fforddiadwy sydd i'w darparu yn rhan o gynllun yn

arwain at ffracsiwn o uned, bydd angen egluro y caiff y datblygwr naill ai dalgrynnu'r ffigur anheddau i fyny i'r uned lawn agosaf neu dalgrynnu'r ffigur anheddau i lawr a darparu'r swm ffracsiynol sy'n weddill fel cyfraniad ariannol.

4.4.18 Mae canrannau targed H 3 wedi'u seilio ar Ardaloedd Polisi Tai Strategol sydd wedi'u ffurfio o grwpiau o wardiau etholiadol. Bydd angen i'r Ardaloedd Polisi Tai Strategol hyn gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac, er enghraifft, o ran y diwygiadau a wnaed i ffiniau Wardiau.

4.4.19 Mae nifer o safleoedd H 5 a ddyrannwyd wedi cael eu darparu, a bydd safleoedd ychwanegol yn dod yn ymrwymiadau gyda chaniatâd cynllunio. Bydd safleoedd nad ydynt wedi cael eu symud ymlaen yn cael eu hailasesu yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Bydd safleoedd ymgeisiol yn cael eu hystyried ar gyfer safleoedd priodol sy'n cynnwys mwyafrif o dai fforddiadwy.

4.4.20 O ran cynigion datblygu ar gyfer tai fforddiadwy 100% ar Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy (fel y diffinnir ym Mholisi H 6 y CDLl), mae angen egluro na fydd y Cyngor, fel arfer, yn caniatáu i'r cartrefi fforddiadwy fod yn ddeiliadaethau canolraddol a fyddai'n caniatáu i feddianwyr gamu ymlaen i berchen ar y cartref yn llwyr. Yr unig eithriad i hyn fydd achosion pan fydd yr ymgeisydd wedi dangos er boddhad y Cyngor y bydd trefniadau diogel ar waith i warantu y bydd y cartref/cartrefi perthnasol, pan fyddant yn cael eu hailwerthu, yn cael eu gwerthu neu eu gosod fel tai fforddiadwy bob amser. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn datgan yn glir nad yw safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer tai marchnad.

**Llety Sipsiwn a Theithwyr**

4.4.21 Mae'r CDLl yn cynnwys Polisi H 7 wedi'i seilio ar feini prawf i benderfynu ar gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd ac estyniadau i rai presennol. Llywiwyd y polisi hwn gan Gylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

4.4.22 Nid yw'r CDLl yn dyrannu tir ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd ar hyn o bryd ar sail yr angen asesedig (y darparwyd tystiolaeth ar ei gyfer gan yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2015) a'r tir a oedd ar gael i'w ddefnyddio'n gyfreithlon ar gyfer hynny pan fabwysiadwyd y CDLl. Mae AMB 3 y CDLl wedi amlygu nad yw'r saith llain ychwanegol y bwriadwyd eu hadeiladu i ymdopi â'r angen brys heb ei fodloni erbyn diwedd 2021 ym Mhant y Blawd Road wedi dechrau eto, gan felly dorri pwynt sbardun y dangosydd monitro.

4.4.23 Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan y dylai'r CDS ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol amlygu angen Sipsiwn a

theithwyr am leiniau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y CDS ar waith cyn i'r CDLl Newydd gael ei fabwysiadu. Felly, yn rhan o'r broses o baratoi'r CDLl Newydd, bydd angen cynnal adolygiad o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran yr angen am leiniau ychwanegol yn Abertawe (a fydd yn cael ei hamlygu o'r GTAA mwyaf cyfredol), a'r tir sydd ar gael i'w ddefnyddio'n gyfreithlon i fodloni'r angen hwnnw o fewn y graddfeydd amser sy'n ofynnol.

**Tai Amlfeddiannaeth**

4.4.24 Mae Polisi H 9 y CDLl ar Dai Amlfeddiannaeth yn diffinio trothwyon penodol y bydd crynodiadau pellach o Dai Amlfeddiannaeth y tu hwnt iddynt yn cael eu hystyried yn grynodiad niweidiol, fel arfer. Amlygwyd y trothwyon yn seiliedig ar ddealltwriaeth o grynodiadau presennol Tai Amlfeddiannaeth, y galw tebygol yn y dyfodol, y cyflenwad Tai Amlfeddiannaeth ar hyn o bryd, a thystiolaeth arall a oedd ar gael. Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) ym mis Rhagfyr 2019 i gefnogi'r polisi.

4.4.25 Mae AMB y CDLl wedi monitro'r crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth o fewn yr Ardal Reoli Tai Amlfeddiannaeth sydd wedi'i diffinio ar y Map Cynigion. Mae pob AMB wedi dod i'r casgliad nad yw'r crynodiad Tai Amlfeddiannaeth yn yr ardal ddynodedig hon wedi amrywio'n sylweddol o'r llinell sylfaen. Ystyrir bod y polisi'n gweithredu fel y bwriadwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd angen adolygu hyn, ynghyd â'r SPG atodol, er enghraifft o ran asesu unrhyw newidiadau i grynodiadau Tai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Reoli, ac unrhyw fân newidiadau defnyddiol neu eglurhad i destun y polisi a fyddai'n briodol.

**Llety Pwrpasol i Fyfyrwyr**

4.4.26 Mae Addysg Uwch yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi leol. Mae Polisi H 11 y CDLl yn mynnu bod llety pwrpasol i fyfyrwyr, yn y lle cyntaf, yn asesu argaeledd ac addasrwydd safleoedd ac adeiladau posibl yn yr Ardal Ganolog a ddiffinnir ar Fap Cynigion y CDLl. Mae'n nodi ei bod yn amgenach i anghenion myfyrwyr gael eu bodloni, cyn belled ag y bo'n bosibl, gan gynlluniau modern a adeiladwyd i'r diben ac sy'n cael eu rheoli, a chanddynt le a chyfleusterau sy'n gweddu'n well i anghenion myfyrwyr mewn lleoliadau priodol yn Ardal Canol Abertawe lle y ceir mynediad da i wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus i adeiladau'r Brifysgol. Gallai datblygiad o'r fath gynyddu nifer yr ymwelwyr, ac felly cyfrannu at wella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Ddinas. Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ym mis Rhagfyr 2019 i gefnogi'r polisi.

4.4.27 Mae sawl cynllun arwyddocaol wedi cael eu cwblhau yn yr Ardal Ganolog ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, gan gynnwys Coppergate, 17-18 Ffordd y Brenin, 307

o leoedd gwely; Hen Ganolfan Oldway, Stryd y Berllan, 556 o leoedd gwely; a Mariner Street, 780 o leoedd gwely.

4.4.28 Nid yw'r AMB yn monitro caniatadau cynllunio ar gyfer llety pwrpasol i fyfyrwyr yn erbyn meini prawf Polisi H 11 fel mater o drefn, a gallai hyn fod yn ychwanegiad defnyddiol at y fframwaith monitro. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth wedi cael ei monitro ar wahân ac ystyrir bod y polisi'n gweithredu fel y bwriadwyd yn gyffredinol gan fod mwyafrif y datblygiadau llety pwrpasol newydd i fyfyrwyr wedi cael eu cyfeirio tuag at safleoedd yr Ardal Ganolog. Er hynny, bydd y polisi'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol.

**Polisïau tai manwl eraill**

4.4.29 Mae'r CDLl hefyd yn cynnwys polisïau ar Ddatblygiad Preswyl Atodol (Polisi H 8) a Thai Arbenigol (Polisi H 10). Nid yw'r polisïau hyn yn cael eu monitro fel mater o drefn trwy'r AMB, ond byddant yn cael eu hadolygu wrth baratoi'r CDLl Newydd gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n llwyddiannus ac yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol. I baratoi ar gyfer y CDLlN, adolygir hefyd a oes angen unrhyw bolisïau ychwanegol, er enghraifft, os nad ymdriniwyd yn ddigonol eisoes ag unrhyw fodelau newydd ar gyfer darparu tai mewn polisïau presennol.

4.4.30 Ffactor arall pwysig y bydd angen ei ystyried yn y CDLl Newydd yw cyffredinrwydd ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn unrhyw ardaloedd lleol yn unol â diwygiadau arfaethedig i PPW, a grynhowyd ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.

4.4.31 Bydd y CDLl Newydd hefyd yn ystyried a oes unrhyw fylchau yng nghwmpas y polisi presennol er mwyn pennu'n effeithiol y mathau o geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno, fel cynlluniau fflatiau amlfeddiannaeth ar raddfa fawr gyda chyfleusterau cymunedol atodol.

**Adfywio a Datblygu Masnachol**

4.4.32 Mae Polisi RC 1 y CDLl yn cydnabod bod adfywio Ardal Ganolog Abertawe yn un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'i fod wrth wraidd ymdrechion i sbarduno economi Dinas-Ranbarth gyfan Bae Abertawe. Mae hyn yn parhau i fod yn berthnasol fel blaenoriaeth Gorfforaethol sylfaenol.

4.4.33 Mae Polisïau RC 2 i RC 8 yn amlinellu'r hierarchaeth manwerthu a defnyddiau cysylltiedig a pholisïau'r Cynllun. Mae Cymru'r Dyfodol yn ailadrodd yr egwyddor hen sefydledig o ddull Canol Trefi yn Gyntaf. Mae'n datgan bod rhaid i gyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd gael eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd a bod rhaid defnyddio dull dilyniannol i lywio'r broses o amlygu'r lleoliad gorau ar gyfer y

datblygiadau hyn ac y dylent gael eu hamlygu mewn CDLlau. Yr ACLl sydd i bennu'r hyn yr ystyrir ei fod yn ddatblygiad o raddfa arwyddocaol. Mae hefyd yn sbarduno gwneud canol trefi'n fannau amlswyddogaethol. Mae Polisi 2 Cymru'r Dyfodol yn datgan y dylai CDLlau sefydlu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas a gefnogir gan fframwaith gofodol sy'n arwain twf ac adfywio. Mae goblygiadau TAN 15 newydd wedi'u gosod yn erbyn y dyheadau polisi cenedlaethol hyn, gan ystyried yr ardaloedd y mae perygl llifogydd yn effeithio arnynt ledled Ardal Ganolog Abertawe. Bydd angen myfyrio ar y cyd-destun polisi cenedlaethol diwygiedig hwn mewn ffordd gyfannol wrth baratoi'r CDLl Newydd.

4.4.34 Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Abertawe (2015) yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisïau presennol a bydd angen ei diweddaru ar gyfer y CDLl Newydd. Bydd yr astudiaeth wedi'i diweddaru yn helpu i lywio'r CDLl Newydd o ran strategaeth a pholisïau manwerthu. Bydd hefyd angen ystyried sut i ymateb i'r heriau sy'n wynebu llawer o ganolfannau manwerthu er mwyn llywio rhinweddau, neu fel arall, sut y gall polisi'r CDLl yn y dyfodol ymateb yn fwyaf effeithiol.

4.4.35 Bydd angen i ffiniau'r Ardal Ganolog a'r holl ganolfannau manwerthu gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol.

4.4.36 Ystyrir bod y polisïau'n gweithio'n effeithiol i raddau helaeth, ond bydd angen eu hadolygu yng ngoleuni Cymru'r Dyfodol a PPW, Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 (Gorffennaf 2020), a'r sylfaen dystiolaeth a'r adolygiad wedi'u diweddaru o ganolfannau manwerthu.

**Polisi PS 2 Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd**

4.4.37 Mae creu lleoedd wrth wraidd y CDLl ac agenda cynllunio strategol y Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd i bolisi cenedlaethol ers hynny trwy Gymru'r Dyfodol a PPW.

4.4.38 Mae Polisi PS 2 y CDLl yn nodi y dylai datblygiad wella ansawdd lleoedd a mannau, ac ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyd-destun a chymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le; ac mae'n rhestru meini prawf creu lleoedd i ddatblygiadau eu cyflawni. Er mwyn helpu i gyflawni'r agenda creu lleoedd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd ar gyfer Datblygiad Preswyl i ddangos sut mae gofynion polisi ac amcanion creu lleoedd allweddol a amlinellir yn y CDLl a pholisi cenedlaethol yn gallu cael eu hintegreiddio i gynigion. Paratowyd y rhain i roi arweiniad ar gyfer datblygiadau o wahanol fathau a graddfeydd, gan gynnwys datblygiadau gan ddeiliaid tai, datblygiadau preswyl mewnlenwi a thir cefn, cynigion preswyl ar raddfa fawr,

a chynigion yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr. Datblygwyd y rhain yng nghyd-destun diweddariadau creu lleoedd diweddar i PPW ac i adlewyrchu'r cyhoeddiad diweddar Cymru'r Dyfodol a'r egwyddorion Creu Lleoedd Strategol a amlygwyd.

4.4.39 Ystyrir bod polisïau'r CDLl a'r SPG ategol yn gweithio'n effeithiol wrth sbarduno amcanion cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd yn Abertawe. Mae casgliadau'r AMBau yn dangos bod safleoedd Ardal Datblygu Strategol yn cael eu symud ymlaen yn unol â phrif gynlluniau safle ac egwyddorion creu lleoedd.

4.4.40 Er hynny, yn unol â'r diweddariadau diweddar i PPW, bydd geiriad Polisi PS 2 yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn llwyr adlewyrchu Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol PPW, a fydd yn allweddol i lywio'r broses o baratoi cynlluniau datblygu wrth symud ymlaen, a'r egwyddorion Creu Lleoedd Strategol a amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol.

**Ardaloedd Datblygu Strategol – Datblygu Strategol / Prif Gynllunio**

4.4.41 Mae Polisi SD 1 y CDLl yn amlygu Ardaloedd Datblygu Strategol a ddyrannwyd mewn 12 lleoliad i ddarparu cartrefi newydd a chyfleoedd i greu swyddi a buddsoddiad masnachol ar raddfa strategol. Mae gan bob safle ei bolisi strategol ei hun, SD A i SD L, sy'n amlinellu egwyddorion creu lleoedd a gofynion datblygu a ategir gan ofynion datblygu manylach yn atodiad 3, tra bod egwyddorion prif gynllunio a chreu lleoedd cyffredinol ar gyfer Ardaloedd Datblygu Strategol wedi'u cynnwys ym Mholisi SD 2.

4.4.42 Mae gan rai o'r Ardaloedd Datblygu Strategol hyn ganiatâd cynllunio bellach, felly bydd angen i'r CDLl gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith y bydd rhai o'r safleoedd yn ymrwymiadau yn y CDLl Newydd. Amlinellir statws cynllunio'r holl safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd yn Atodiad 1.

4.4.43 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bydd yr holl ddyraniadau presennol sy'n weddill yn cael eu hadolygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol er mwyn llywio p'un a fyddant yn cael eu dyrannu yn y CDLl Newydd a chynnwys unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r cynlluniau cysyniad a'r polisïau er mwyn adlewyrchu esblygiad y safleoedd ar sail tystiolaeth gyfredol ynglŷn â'r gallu i'w darparu a'u hyfywedd a strategaeth gofodol a thwf y Cynllun.

4.4.44 Mae'r AMBau wedi nodi bod yr Ardaloedd Datblygu Strategol sydd wedi cael caniatâd cynllunio wedi cael eu cyflwyno yn unol ag egwyddorion prif gynllunio, creu lleoedd a chynaliadwyedd y Cynllun. Ystyrir bod y polisïau a'r dull cynlluniau cysyniad yn gweithio'n effeithiol, ond bydd angen eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol o ran y dystiolaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r gallu i ddarparu a

hyfywedd.

**ER 1 ac ER2 – Ecosystemau a Chadernid**

4.4.45 Mae Polisi ER 1 yn gosod y fframwaith polisi i sicrhau bod pob datblygiad yn gydnerth yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac yn eu lliniaru. Mae hyn yn flaenoriaeth gorfforaethol ac fe'i pwysleisir yng nghyhoeddiad y Cyngor ynglŷn ag argyfwng hinsawdd a natur.

4.4.46 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd er mwyn cydlynu camau gweithredu'n genedlaethol ac yn lleol i helpu i fynd i'r afael â bygythiadau'r newid yn yr hinsawdd. Amlygir y newid yn yr hinsawdd fel prif her yng Nghymu'r Dyfodol gan fod tymereddau sy'n codi a digwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan y newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, seilwaith, yr amgylchedd adeiledig, y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, sydd oll yn cyfrannu at gadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fater cydraddoldeb oherwydd bydd yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru a'r byd ehangach.

4.4.47 Mae Cymru'r Dyfodol yn pwysleisio y bydd y pwysau ar adnoddau dŵr yn debygol o gynyddu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd ac y bydd argaeledd, cyflenwad a rheolaeth dŵr yn gynyddol bwysig, yn ogystal â lleoliad datblygiadau a diogelu adnoddau.

4.4.48 Mae Polisi 8 Cymru'r Dyfodol yn ceisio sicrhau bod perygl llifogydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei reoli, tra bod Polisi 9 yn ceisio sicrhau bod rhwydweithiau ecolegol yn cael eu diogelu a'u creu er mwyn caniatáu addasu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

4.4.49 Mae PPW yn pwysleisio sut mae'r system gynllunio'n cyflawni swyddogaeth allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy ddatgarboneiddio'r system ynni a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (paragraff 3.30). At hynny, mae'n rhaid i'r system gynllunio sicrhau bod y datblygiadau iawn yn cael eu hadeiladu yn y mannau iawn.

4.4.50 Mae Polisi ER 2 yn sicrhau bod datblygiad yn cynnal a gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd y sir. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth seilwaith gwyrdd ar gyfer yr Ardal Ganolog ac mae strategaeth sirol yn dod i'r amlwg.

4.4.51 Mae Cymru'r Dyfodol a PPW yn mynnu bod cynlluniau datblygu'n cynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac yn cynnwys polisïau ar gyfer ei ddiogelu, yn ogystal ag amlygu cyfleoedd lle y gellid cynyddu'r seilwaith gwyrdd presennol a phosibl i'r eithaf. Gall yr Asesiadau hyn helpu i ddatblygu dull cadarn o wella

bioamrywiaeth, cynyddu cadernid ecolegol a gwella canlyniadau lles, yn ogystal ag amlygu cyfleoedd strategol allweddol i adfer, cynnal, creu a chysylltu nodweddion seilwaith gwyrdd allweddol. Gall Datganiadau Ardal (ynghyd â ffynonellau eraill o wybodaeth, fel y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol a Adroddiad am Gadernid Ecosytem) lywio'r broses asesu hon, a gwella cadernid yr amgylchedd adeiledig, trwy amlygu cyfleoedd i ddefnyddio datrysiadau wedi'u seilio ar natur sy'n mynd i'r afael â materion lleol, fel lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd, perygl llifogydd neu lygredd aer, neu wella argaeledd/hygyrchedd mannau gwyrdd. Bydd y dystiolaeth yn llywio materion creu lleoedd ehangach o ran dewis a datblygu safleoedd.

4.4.52 Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried sut i gynnwys polisïau seilwaith gwyrdd sy'n pwysleisio'r natur drawstoriadol a'r angen i fod yn amlswyddogaethol yn glir, er enghraifft mewn perthynas â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, mannau agored, lleddfu perygl llifogydd, draenio, teithio llesol, y dirwedd, iechyd a lles, a chreu lleoedd.

4.4.53 Mae'r polisi bioamrywiaeth yng Nghymru'r Dyfodol (Polisi 9) a PPW yn cryfhau rôl a phwysigrwydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau yn y system gynllunio, gan ddilyn ymlaen o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a osododd ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau uwch (dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus, gan fynnu eu bod yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau wrth arfer eu holl swyddogaethau. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn PPW yn berthnasol hefyd o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

4.4.54 Cyhoeddwyd canllawiau ar sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth yn 2019 a disgwylir eglurhad pellach ar y mater yn argraffiad nesaf PPW, a allai olygu bod angen gwneud newidiadau i bolisi'r CDLl neu SPG cysylltiedig.

4.4.55 Mae'r SPG Bioamrywiaeth a'r SPG Coed a fabwysiadwyd yn rhoi canllawiau manwl ar weithredu polisi cenedlaethol, a'r gyfres o bolisïau CDLl manwl (ER6, ER8, ER9 ac ER11).

4.4.56 Bydd y fframwaith polisi'n cael ei adlewyrchu yn nyraniadau safle'r CDLl Newydd, gan roi ystyriaeth benodol i ddynodiadau ecolegol lleol (Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN)) a'r Adroddiad am Gadernid Ecosystem, sy'n rhan o gadernid ecosystem y sir. Bydd angen i broses y CDLl Newydd gael ei harwain gan arolwg ecolegol o ddyraniadau CDLl heb eu gweithredu a lefel briodol o wybodaeth i lywio dyraniadau newydd posib er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i weithredu'r broses fesul cam a argymhellir yn PPW, TAN 6, Polisi'r CDLl ac CCA Bioamrywiaeth i ddewis safleoedd y CDLl.

4.4.57 Mae angen adolygu Polisïau ER 6, 8 a 9 er mwyn adlewyrchu newidiadau i derminoleg a gyflwynwyd yn 2019 gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a adwaenir fel Rheoliadau 2019) o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a rhwydwaith safleoedd Natura 2000.

4.4.58 Er eu bod yn annhebygol o gael eu diwygio'n sylweddol, bydd angen i ER 2: Lletemau Glas gael eu hadolygu yn rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu (PPW paragraff 3.64) i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol a'u bod yn cael eu dynodi dim ond lle y ceir angen y gellir ei ddangos i warchod y ffurf drefol a lle na fyddai dulliau polisi amgen, fel ffiniau aneddiadau, yn ddigon cryf.

4.4.59 Mae Polisïau 19 a 30 Cymru'r Dyfodol yn datgan bod rhaid i Leiniau Glas gael eu hamlygu trwy Gynlluniau Datblygu Strategol yn hytrach na CDLlau, felly ni fydd yn briodol ystyried llain las yn seiliedig ar y canllawiau presennol.

4.4.60 O ran Polisi ER4, mae angen i'r polisi nodi'n benodol bod angen i Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA) neu Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) ac Asesiad o Effaith Lliwiau gyd-fynd â cheisiadau o fewn AHNE Gŵyr (pan fydd swyddog achos yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol). At hynny, dylai'r polisi gael ei gysylltu â'r SPG diwygiedig Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr.

4.4.61 Mae Polisi ER 5 – Diogelu'r Dirwedd yn ymwneud ag Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau), sef dynodiadau anstatudol sy'n diffinio ardaloedd lleol o bwysigrwydd tirwedd uchel, a allai fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n nodwedd arbennig o'r ardal. Dylai awdurdodau cynllunio gymhwyso'r dynodiadau hyn pan fydd rheswm da i gredu na all polisïau cynllunio arferol ddarparu'r amddiffyniad angenrheidiol. Bydd maint dynodiadau ATAau yn cael ei ailasesu ar gyfer y CDLl Newydd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol a bod angen i'r ardal dan sylw gael amddiffyniad ychwanegol.

4.4.62 Mae angen i Bolisi ER7 – Arfordir Heb ei Ddatblygu – gael ei adolygu o ystyried PPW (adran 6.5), sy'n datgan y dylai datblygiad geisio osgoi lleoliadau arfordirol fel arfer, oni bai bod angen iddo fod ar yr arfordir. Caiff cynlluniau datblygu amlygu ardaloedd sy'n debygol o fod yn addas i'w datblygu, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n destun cyfyngiadau sylweddol ac sy'n anaddas i'w datblygu. Gallai ardaloedd sy'n destun cyfyngiadau neu yr ystyrir eu bod yn anaddas i'w datblygu gynnwys y rhai hynny:

• lle mae cadwraeth neu wella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn mynnu bod datblygiad yn gyfyngedig;

• lle y bydd angen i ymwthiad gweledol a rhyngwelededd rhwng y tir a'r môr gael eu hystyried yn ofalus;
• lle mae polisïau penodol i'w dilyn mewn ardaloedd Arfordir Treftadaeth;
• lle y dylai mynediad i lwybrau arfordirol gael ei warchod; a
• lle y gallai fod perygl erydu, llifogydd neu ansefydlogrwydd tir.

4.4.63 Mae angen i Bolisi ER 7 gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at Asesiad Cymeriad Morlun Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe, 2017 a'r SPG Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr. Nid yw'r Asesiad Cymeriad Morlun yn diffinio "ardal arfordirol" gyda ffin fewndirol at ddibenion polisi cynllunio gan fod rhyngwelededd yn aml yn ymestyn am filltiroedd lawer i'r tir o 'ardal arfordirol' ddiffiniedig. Fodd bynnag, mae hyd a lled cymeriad y dirwedd arfordirol (fel clogwyni, twyni, morfa heli) wedi'i ddiffinio'n ofodol yn yr astudiaeth. Mae'r mapio rhyngwelededd yn darparu haen ychwanegol ond ar wahân o 'leoliad' sy'n gallu helpu'r asesiad o'r effaith ar y morlun mewn ceisiadau cynllunio. Mae angen i Bolisi ER 7 gynnwys cyfeiriad at asesiadau o'r effaith ar y morlun i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

4.4.64 Mae angen i Bolisi ER 10, sy'n ymwneud â Safleoedd Daearegol, gael ei adolygu gan ystyried PPW (adran 6.3), sy'n datgan bod nodweddion daearegol yn rhan allweddol o'n hamgylchedd naturiol, a bod diogelu geoamrywiaeth yn sail i amddiffyn a rheoli ein hadnoddau naturiol yn ehangach, gan gynnwys argaeledd tir, potensial ynni adnewyddadwy, cyflenwad dŵr daear a pherygl llifogydd. Mae Safleoedd Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) yn ddynodiadau safle anstatudol sy'n cydnabod nodweddion tirwedd daearegol a geomorffolegol sy'n bwysig yn lleol neu'n rhanbarthol. Dewisir RIGS am eu nodweddion addysgol, gwyddonol, hanesyddol ac esthetig, ac fe'u dynodir trwy gynlluniau datblygu. Dylai'r CDLl warchod y nodweddion a'r priodoleddau y dynodwyd RIGS ar eu cyfer, ac fe'i hanogir i hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys nodweddion daearegol wrth ddylunio datblygiad, yn enwedig pan ddarperir tystiolaeth berthnasol gan Asesiadau Seilwaith Gwyrdd.

4.4.65 Dylai Polisi ER 10 gael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr holl RIGS dynodedig yn cael eu hamlygu a bod y cysylltiad â chynnwys geoamrywiaeth mewn Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, lle y bo'n briodol, yn cael ei gryfhau.

**IO 1 – Rhwymedigaethau Cynllunio / Seilwaith**

4.4.66 Mae Rhwymedigaethau Cynllunio'n ceisio sicrhau bod lefel briodol o seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig yn cyd-fynd â datblygiad newydd, pan fyddant yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn

dderbyniol. Sicrheir cyfraniadau trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, fel yr amlinellir yn Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu drwy ddefnyddio amodau cynllunio.

4.4.67 Mae rhwymedigaethau cynllunio'n ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr i wella ansawdd datblygiad, darparu buddion cymunedol a seilwaith, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a allai godi o ganlyniad i'r datblygiad.

4.4.68 Ystyrir bod Polisi IO 1 y CDLl yn gweithio'n effeithiol ac mae cyfraniadau'n cael eu derbyn (yn amodol ar ystyriaethau hyfywedd) i liniaru effeithiau datblygiad newydd a helpu i ddarparu seilwaith angenrheidiol, fel mannau hamdden ac agored, a chyfleusterau cymunedol ac addysgol. Fodd bynnag, mae angen egluro agweddau ar rai pynciau oherwydd bod yr SPG ategol ar Adran 106 yn hen. Felly, bydd adolygiad trylwyr yn cael ei gynnal o'r elfennau y mae angen eu diweddaru a, lle y bo'n briodol, byddant yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r CDLl Newydd a thrwy ddatblygu SPG Adran 106 newydd ar yr un pryd.

4.4.69 Bydd y sylfaen dystiolaeth a lywiodd y broses o lunio'r polisïau hyn yn cael ei hadolygu yn rhan o'r broses. Amlygodd y Cynllun Cyflawni Seilwaith faint o seilwaith a fydd yn cael ei ddarparu ac a fydd yn ofynnol yn ystod cyfnod y Cynllun. Yn rhan o broses y CDLl Newydd, bydd asesiad wedi'i ddiweddaru o'r ddarpariaeth seilwaith ac anghenion seilwaith yn cael ei gynnal i amlygu capasiti ac argaeledd seilwaith presennol ac arfaethedig. Bydd angen gweithio'n agos gyda darparwyr cyfleustodau i ystyried eu cynlluniau diweddaraf ar gyfer gwella ac argaeledd cyllid fel bod seilwaith a datblygiad yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd angen i strategaeth y CDLl Newydd adlewyrchu argaeledd seilwaith presennol ac arfaethedig.

4.4.70 Mae seilwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer o'r egwyddorion creu lleoedd a amlygir yn PPW diwygiedig. Mae PPW a Chymru'r Dyfodol bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar fathau newydd o seilwaith, fel seilwaith gwefru cerbydau trydan, seilwaith digidol, telathrebu symudol a seilwaith gwyrdd, y bydd angen iddynt oll gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad.

4.4.71 Mae angen profion hyfywedd lefel uchel wedi'u diweddaru i lywio'r adolygiad o'r polisi rhwymedigaethau cynllunio a dangos tystiolaeth o b'un a ddylai'r gofynion a'r targedau yn y Cynllun gael eu diwygio. Mae Model Hyfywedd Rhanbarthol ar gyfer y Rhanbarth wedi cael ei ddatblygu i greu dull trefnus a chyson o osod targedau a chynnal asesiadau hyfywedd penodol i safle. Bydd angen i'r dadansoddiad hyfywedd adlewyrchu'r amgylchiadau heriol sy'n wynebu datblygwyr ar hyn o bryd o ran costau deunyddiau sy'n cynyddu, gofynion creu lleoedd, a gofynion draenio cynaliadwy a bioamrywiaeth newydd a gyflwynwyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, gan gynnwys argostau a

meddiannu tir.

**SI1 – Iechyd a Lles**

4.4.72 Mae iechyd yn brif elfen sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n rhoi pwyslais ar ddefnyddio dull cyfannol, tymor hir a chydweithredol o gyflawni lles trwy greu lleoedd. Ymhlith y saith nod y mae cyflawni Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal, y mae'r ddau'n uniongyrchol gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd, cydraddoldeb, gofal iechyd a gwasanaethau. Mae'r thema newydd yn PPW, sef creu lleoedd a mannau cynaliadwy, yn berthnasol i'r maes pwnc hwn ac mae iechyd gwell yn un o amcanion Cymru'r Dyfodol. Felly, cyflwynir iechyd a lles fel amcan allweddol ym mholisi LlC. Mae PPW yn cydnabod y gall Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) wneud cyfraniad pwysig tuag at lunio cynllun a bod tystiolaeth o effeithiau ar iechyd (iechyd corfforol a meddyliol) yn gallu helpu'r system gynllunio i ddatblygu dulliau cryfach a mwy cydlynol o wella iechyd a lles i'r eithaf. Bydd yr angen am HIA yn cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad o'r CDLl. Bydd y CDLl yn ystyried unrhyw reoliadau a chanllawiau mewn perthynas â HIA yn rhan o'r prosesau asesu sy'n gysylltiedig â'r CDLl.

4.4.73 Polisi Strategol SI 1 yw'r polisi trosfwaol ar gyfer Iechyd a Lles sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd ac annog ffyrdd iach o fyw. Mae'n cydnabod pwysigrwydd creu lleoedd cynaliadwy sy'n rhoi cyfle i bobl ddilyn ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, o ystyried y dull creu lleoedd trosfwaol a fabwysiadwyd yn Abertawe, mae hyrwyddo iechyd a lles wedi'i integreiddio trwy amryw bolisïau. Nid yw'n cael ei ddefnyddio digon fel polisi annibynnol ar hyn o bryd, felly, gan fod y meini prawf yn derbyn sylw yn y gyfres o bolisïau creu lleoedd. Felly, bydd iechyd a lles yn ystyriaeth drosfwaol a fydd yn cael dylanwad mawr ar y CDLl Newydd drwyddo draw. Fodd bynnag, bydd angen i'r adolygiad ystyried p'un a ddylai barhau i fod yn bolisi trosfwaol annibynnol neu a ddylid ei gyfuno o dan thema drosfwaol newydd, sef creu lleoedd cynaliadwy, a'i blethu trwy bolisïau, gan ymgorffori'r cysyniad o 'Iechyd ym Mhob Polisi'. Mae'r CDLl yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni hyn, gan fod polisïau sy'n ymwneud â llygredd golau, sŵn ac aer, halogiad tir a thrafnidiaeth oll yn ymdrin ag effeithiau ar iechyd y cyhoedd. Rhoddir ystyriaeth i b'un a ddylai polisïau yn y CDLl Newydd roi mwy o bwyslais ar y goblygiadau posibl i iechyd corfforol a meddyliol o ganlyniad i ddatblygiad.

**SI 5 / 6 Diogelu / Darparu Mannau Agored**

4.4.74 Mae'r CDLl yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â diogelu a darparu mannau agored cyhoeddus newydd (Polisïau SI 5 ac SI 6). Mae'r polisïau, gyda'i gilydd, yn mynnu bod mannau agored cyhoeddus presennol yn cael eu diogelu, ac maen nhw'n cynnwys gofyniad i geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion tai newydd sy'n cynnwys deg neu fwy o anheddau ddarparu man

agored newydd. Bydd y polisïau hyn yn arwain at fuddion iechyd a lles allweddol.

4.4.75 Mae'r Asesiad Mannau Agored yn amlinellu asesiad o'r mannau agored cyhoeddus a ddarperir ar hyn o bryd, gan gynnwys diffygion, yn ôl ardal. Mae hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu'r angen am ddarparu mannau agored mewn ardaloedd o Abertawe yn rhan o ddatblygiad. Mae'r Asesiad Mannau Agored wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau y bydd yn gyfredol i lywio'r CDLl Newydd. Yn yr un modd, bydd SPG Rhwymedigaethau Cynllunio ac SPG Seilwaith Gwyrdd wedi'u diweddaru yn cael eu paratoi ar yr un pryd â'r CDLl Newydd a fydd yn cynnwys canllawiau manylach ar sicrhau bod mannau agored yn cael eu darparu mewn datblygiadau newydd.

4.4.76 Mae canfyddiadau'r AMB (dangosyddion 76,77) yn dangos bod Polisïau SI 5 ac SI 6 yn cael eu gweithredu'n effeithiol o ran sicrhau nad oes diffyg man agored o ganlyniad i ddatblygiad newydd. Felly, bydd y polisïau'n cael eu cadw, er y bydd y geiriad yn cael ei adolygu i lywio'r CDLl Newydd.

**Polisi HC1 – Yr Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol**

**Y Gymraeg**

4.4.77 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yw un o'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae hefyd wedi'i ymgorffori yn PPW a'r egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy. Amlygir pwysigrwydd y Gymraeg hefyd gan darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyflawni un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

4.4.78 At ei gilydd, nid yw'r sylfaen dystiolaeth yn debygol o fod wedi newid yn sylweddol, ond bydd angen adolygu'r data ystadegol diweddaraf (y Cyfrifiad) i bennu p'un a fydd angen diwygio maint yr Ardal Sensitif o ran y Gymraeg ddynodedig, ac adolygu ffiniau i ystyried newidiadau i ffiniau Wardiau; ac ystyried p'un a oes angen diwygio trothwyon y polisi.

4.4.79 Ni amlygwyd unrhyw faterion penodol yn yr AMB o ran gweithrediad polisïau'r CDLl o safbwynt y Gymraeg. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y polisi'n gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae'r AMB wedi nodi bod angen i Bolisi HC3 egluro pryd y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (WLIA) neu Gynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg (WLAP) yn rhan o gynigion a gyflwynir.

4.4.80 Bydd angen i'r effaith ar y Gymraeg gael ei hystyried fel elfen bwysig o'r Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd ar gyfer y CDLl Newydd.

**Treftadaeth**

4.4.81 At ei gilydd, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr

amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol, ond mae meysydd y gallai fod angen eu diweddaru yn cynnwys y Rhestr Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (i ystyried colledion ac ychwanegiadau posibl) a'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth diweddar.

4.4.82 Ni amlygwyd unrhyw faterion penodol yn yr AMB mewn perthynas â gweithrediad polisïau'r CDLl o ran yr Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol. Mae materion y gallai fod angen eu hystyried yn rhan o'r adolygiad yn cynnwys newid y derminoleg a ddefnyddir er mwyn iddi fod yn unol â'r canllawiau diweddaraf (e.e. yr Amgylchedd Hanesyddol yn hytrach na Threftadaeth Hanesyddol ac Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn hytrach nag Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol).

**CV 1- 5 – Datblygiad yng Nghefn Gwlad ac mewn Pentrefi**

4.4.83 Mae'r CDLl yn amlinellu nifer o bolisïau i hwyluso datblygiad priodol y tu allan i'r brif ardal drefol ar yr un pryd â cheisio diogelu cyfanrwydd cefn gwlad ac ansawdd y dirwedd amgylchynol yn yr ardaloedd hyn. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi CV1 Pentrefi Allweddol, sy'n amlinellu ffiniau aneddiadau ar gyfer 18 o bentrefi allweddol yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer datblygiad ar raddfa fach i ddarparu tai, cyfleusterau cymunedol a mentrau gwledig cynaliadwy priodol ar gyfer y pentrefi hyn. Mae'r CDLl yn ceisio sicrhau bod cefn gwlad yn cael ei ddiogelu o ran y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a ddarperir.

4.4.84 Mae Polisi CV2 Datblygiad yng Nghefn Gwlad yn ceisio diogelu cefn gwlad rhag datblygiad amhriodol a sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd datblygiad yn dderbyniol y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig. Mae'n amlinellu eithriadau derbyniol, a'r egwyddor gyffredinol yw ceisio creu cymunedau gwledig mwy cynaliadwy.

4.4.85 Mae Polisi CV 3 Anheddau Cyfnewid yng Nghefn Gwlad yn ceisio cadw anheddau gwledig sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad gwledig y Sir, ac mae'n caniatáu ar gyfer amnewid anheddau gwledig dinod neu a ddyluniwyd yn wael ag anheddau wedi'u dylunio'n well sy'n gwella golwg cefn gwlad.

4.4.86 Mae Polisi CV 4 Trawsnewid Adeiladau Gwledig yn ceisio rheoli trawsnewid adeiladau gwledig traddodiadol yn llym er mwyn sicrhau bod cynigion yn cyfrannu at economi fwy cynaliadwy ac nad ydynt yn lleihau nodweddion arbennig cefn gwlad y Sir.

4.4.87 Yn olaf, mae Polisi CV 5 Arallgyfeirio Ffermydd yn cydnabod polisi a chanllawiau cenedlaethol sy'n datgan bod llawer o weithgareddau economaidd yn gallu cael eu lleoli'n gynaliadwy ar ffermydd a chefnogi arallgyfeirio ffermydd, ar yr amod bod cynlluniau o'r

fath ar raddfa fach ac yn integreiddio'n dda â'r cefn gwlad amgylchynol. Mae'r polisi'n amlinellu meini prawf manwl a ddefnyddir i farnu cynlluniau o'r fath.

4.4.88 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys Polisïau 4 a 5 sy'n amlinellu amcanion LlC i gefnogi cymunedau cynaliadwy a bywiog, ac yn cefnogi twf priodol a chymesur mewn trefi gwledig. Bydd angen i'r CDLl Newydd amlygu'r cymunedau gwledig, asesu anghenion ac amlinellu polisïau sy'n eu cefnogi. Bydd angen i bolisïau ystyried sut y gellir cyflawni cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran, ble y gellid gwyrdroi diboblogi ac ystyried rôl tai newydd a thai marchnad, cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn.

4.4.89 At hynny, yn unol â'r polisïau hyn, mae'n rhaid i'r CDLl Newydd gynllunio'n gadarnhaol i fodloni anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth sy'n deillio o'r economi sylfaenol, a'r sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion ar gyfer arallgyfeirio, busnesau cychwynnol a microfusnesau. Mae LlC yn gryf o blaid datblygu busnesau a sectorau technoleg arloesol a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg i helpu ardaloedd gwledig i ddatgloi eu llawn botensial. Mae PPW yn atgyfnerthu creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig a bydd angen i bolisïau gwledig adlewyrchu'r dyheadau hyn yn llawn. Yn yr un modd, mae PPW yn datgan yn glir y bydd angen i'r CDLl Newydd gynllunio'n gadarnhaol i fodloni anghenion cyflogaeth gwledig trwy nodi polisïau yn y CDLl a, lle yr amlygir angen, dyrannu safleoedd gwledig newydd ar gyfer datblygu economaidd. Fodd bynnag, pan fydd angen y rhain, maen nhw'n debygol o fod yn fach ac wedi'u lleoli gerllaw ffiniau aneddiadau diffiniedig yn gyffredinol, lle y darperir trafnidiaeth gyhoeddus yn ddelfrydol. Yn ogystal, bydd angen i'r cynllun gynnwys polisïau wedi'u seilio ar feini prawf i ystyried cynigion y tu allan i ffiniau aneddiadau. Bydd angen ystyried bodloni anghenion cyflogaeth gwledig yn rhan o'r Adolygiad o Dir ar gyfer Cyflogaeth i gefnogi'r CDLl Newydd.

4.4.90 Mae'r AMBau a gynhyrchwyd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn dangos bod y polisïau wedi llwyddo i hwyluso datblygiad priodol yn y pentrefi allweddol a chyfyngu ar ddatblygiad yng nghefn gwlad i amgylchiadau eithriadol. Heblaw am ddatblygiad derbyniol gan ddeiliaid tai, mae hyn wedi cynnwys hwyluso datblygiad amaethyddol, datblygiad cysylltiedig â thwristiaeth ac anheddau cyfnewid. Fodd bynnag, amlygwyd y gall nifer o'r polisïau gael eu cryfhau a'u cefnogi gydag eglurhad ychwanegol, yn enwedig CV2 a CV4. Bydd angen i'r polisïau lwyr adlewyrchu dyheadau Cymru'r Dyfodol uchod.

4.4.91 Yn yr un modd, bydd angen i'r CDLl Newydd gael ei lywio gan asesiad newydd o bentrefi allweddol yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd angen i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau

aneddiadau yn rhan o'r gwaith hwn ac adlewyrchu newidiadau angenrheidiol i ffiniau o ganlyniad i ganiatadau cynllunio newydd.

**TR1 – Datblygiad Twristiaeth a Hamdden**

4.4.92 Mae PPW yn cydnabod bod rôl twristiaeth yn hollbwysig i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn rhannau o Gymru, ac mae'n mynnu bod cynlluniau'n darparu fframwaith i gynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd da sydd wedi'u lleoli'n dda. Amlygodd Cymru'r Dyfodol dwristiaeth fel maes twf posibl ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru, ac mae'n cefnogi datblygiad o ansawdd uchel ar draws y rhanbarth i sicrhau bod yr holl gymunedau'n gallu elwa o'u tirweddau, amgylchedd naturiol a hanesyddol, asedau treftadaeth ac atyniadau ymwelwyr i dyfu eu heconomïau.

4.4.93 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau yn 2022 i fynd i'r afael ag ail gartrefi a llety gwyliau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno tri dosbarth defnydd cynllunio newydd – prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Mae ACLlau, pan fydd ganddynt dystiolaeth, bellach yn gallu gwneud diwygiadau i'r system gynllunio i fynnu caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall, pan fydd tystiolaeth yn dangos bod nifer y cartrefi gwyliau/ail gartrefi mewn ardal yn cyfrannu at ystod o faterion, fel diffyg tai fforddiadwy, cydlyniant cymunedol gwael ac ati. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei ddiwygio hefyd i alluogi awdurdodau lleol i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau mewn unrhyw gymuned. O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, mae'n rhaid casglu ymchwil a thystiolaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â ph'un a yw mwy o reolaethau cynllunio'n ddymunol ar ail gartrefi a chartrefi gwyliau mewn unrhyw ran o'r Sir.

4.4.94 Mae Polisi TR1 hefyd yn cysylltu â'r Cynllun Morol, yn enwedig o ran effeithiau posibl ar y Morlun. Mae Asesiad Cymeriad Morlun Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe yn sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer ystyried datblygiad ar arfordiroedd y Sir sydd heb eu datblygu ac wedi'u datblygu. Mae paragraff 6.58 PPW 11 yn nodi bod Datganiadau Ardal a chynlluniau lleol eraill ar gyfer ardaloedd arfordirol yn darparu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â sut gellid datgloi potensial economaidd yr arfordir mewn ffordd gynaliadwy, a sut dylai ardaloedd arfordirol heb eu datblygu gael eu hamddiffyn rhag datblygiad.

4.4.95 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae'r ystod a'r math o adeiladau ac unedau llety gwyliau sy'n cael eu datblygu wedi cynyddu'n sylweddol, ac nid yw llawer ohonynt yn cael sylw penodol yn y CDLl. O ganlyniad, mae'r AMBau wedi amlygu bod angen i rai o bolisïau'r CDLl egluro mathau o lety twristiaeth, o ran y diffiniadau ac yn y rhestr termau.

4.4.96 Mae angen egluro cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Twristiaeth a Datblygu (TNDIA) ymhellach hefyd, gan fod llawer o geisiadau'n cynnwys ystadegau cysylltiedig ond dim gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig ei hun i ddangos ei fod yn fusnes tymor hir cynaliadwy, economaidd hyfyw a fydd yn cyfrannu at yr economi wledig.

4.4.97 Mae PPW 5.5.2 yn datgan y gallai fod angen cyfyngu ar ddatblygiad newydd mewn rhai lleoedd i osgoi niweidio'r amgylchedd neu amwynder preswylwyr ac ymwelwyr. Mae ardaloedd penodol o'r Sir yn parhau i wynebu pwysau ar gyfer mwy o ddatblygiad, yn enwedig datblygu llety twristiaeth. Bydd angen archwilio tystiolaeth a data sylfaenol i helpu i adolygu polisïau twristiaeth er mwyn pennu p'un a oes gan y Sir, neu ardaloedd penodol o'r Sir, ddigon o gapasiti i ymdopi â datblygiadau twristiaeth ychwanegol.

4.4.98 Darn pwysig o dystiolaeth sylfaenol a ddylanwadodd ar y CDLl o ran carafannau a gwersylla yn yr AHNE yw Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd AHNE Gŵyr ar gyfer safleoedd carafannau a gwersylla. Mae'r darn hwn o dystiolaeth gefndir yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i ystyried mathau mwy newydd o lety twristiaeth (fel podiau ac iwrtau) ac i weld a oes unrhyw newidiadau wedi digwydd i'r dirwedd ers yr Astudiaeth gyntaf o ganlyniad i fwy o ddatblygiad. Bydd hyn yn darparu asesiad cyfredol ar gyfer y CDLl Newydd.

4.4.99 Mae'r CDLl wedi'i seilio ar dystiolaeth o nifer y lleoedd gwely a mathau o lety, a ddangosodd brinder llety gwyliau a oedd ar gael o ddifrif i'w osod ar gyfer llety gwyliau tymor byr, yn hytrach nag fel ail gartref/cartref gwyliau preifat nad yw'n cael ei isosod. Mae'r AMBau yn dangos bod nifer sylweddol o leoedd gwely llety gwyliau tymor byr newydd wedi cael eu creu ledled y Sir ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. O ganlyniad, mae angen diweddaru'r data a'r dystiolaeth sylfaenol i asesu p'un a yw'r polisïau'n parhau i fynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd.

4.4.100 Mae Cynllun Rheoli AHNE Gŵyr wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd hyn yn helpu i lywio datblygiad yn yr AHNE yn y dyfodol.

4.4.101 Yn ogystal â mynd i'r afael ag argaeledd llety, bydd angen i'r CDLl Newydd hefyd archwilio datblygiad cyfleusterau hamdden. Mae polisïau presennol y CDLl yn cefnogi datblygu defnyddiau hamdden newydd, o fewn ardaloedd canol y ddinas a'r glannau ac yng nghefn gwlad lle y bo'n briodol. Ychydig iawn o ddatblygiadau o'r fath sydd wedi cael eu cyflwyno o fewn cyfnod y CDLl. Heblaw am yr Arena, er enghraifft, mae mwyafrif y ceisiadau wedi bod ar gyfer llety, a dylai polisïau gael eu hadolygu i bennu p'un a ydynt yn hwyluso datblygwyr yn ddigonol i gyflwyno cynlluniau.

**EU1 – Ynni a Chyfleustodau**

4.4.102 Mae'r CDLl yn cynnwys nifer o bolisïau i hwyluso datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae Polisi EU 1 yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynlluniau o'r fath o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol ac Ardaloedd Chwilio Lleol, mae Polisi EU2 yn nodi y bydd angen i gynlluniau preswyl a dibreswyl mwy o faint gael eu cefnogi gan Asesiad Ynni cynhwysfawr, ac mae Polisi EU 3 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau arwyddocaol sy'n defnyddio ynni yn hwyluso datblygu Rhwydweithiau Gwresogi Ardal. O ran Cyfleustodau, mae Polisi EU4 yn ceisio sicrhau bod seilwaith cyfleustodau digonol ar waith i wasanaethu datblygiadau, gyda datblygwyr yn cyfrannu at sicrhau gwelliannau lle mae diffygion. Mae Polisi EU5 yn amlinellu sut y bydd cynigion ar gyfer telathrebu a thechnoleg ddigidol yn cael eu hasesu.

4.4.103 I lywio'r polisïau yn y CDLl, cynhaliodd y Cyngor Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn 2018 a werthusodd gapasiti ynni posibl technolegau adnewyddadwy a charbon isel yn y Sir. Bydd angen i'r sylfaen dystiolaeth hon gael ei diweddaru i lywio'r CDLl Newydd.

4.4.104 Erbyn 2040, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ei fod eisiau gweld Cymru lle mae pobl yn byw mewn *lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gydnerth i'r hinsawdd*. Mae'n amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cyflwyno Ardaloedd Blaenoriaeth lle y bydd rhagdybiaeth o blaid cynlluniau gwynt a solar. Mae Polisïau 16 a 17 yn nodi cefnogaeth gref Llywodraeth Cymru i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math o dechnoleg ac ar bob graddfa ac i hwyluso Rhwydweithiau Gwresogi Ardal o fewn Ardaloedd Blaenoriaeth.

4.4.105 Dirymwyd TAN 8 ar ôl i Gymru'r Dyfodol gael ei gyhoeddi. Mae rhan ogledd-ddwyreiniol y Sir o fewn yr ardal ddiffiniedig yng Nghymru'r Dyfodol sydd wedi'i rhag-asesu ar gyfer ynni gwynt lle y ceir rhagdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr (gan gynnwys ailbweru) yn yr ardaloedd hyn yn amodol ar feini prawf. Mae Abertawe hefyd wedi'u hamlygu fel Ardal Flaenoriaeth Rhwydwaith Gwresogi Ardal, lle y dylai awdurdodau cynllunio amlygu cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu gweithredu.

4.4.106 Mae PPW yn amlinellu'r hierarchaeth ynni a bydd yn disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion newid yn yr hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio. Mae'n amlinellu nifer o faterion i'w hystyried wrth baratoi'r CDLl Newydd:

- ystyried cynnwys polisïau sy'n mynnu bod Adroddiad Ynni yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau mawr

- nodi safleoedd strategol er mwyn amlygu cyfleoedd i fynnu safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys di-garbon, yn y cynllun datblygu
- ceisio cynyddu potensial ynni adnewyddadwy i'r eithaf trwy gysylltu'r cynllun datblygu â strategaethau awdurdodau lleol eraill
- defnyddio Cynlluniau Ynni Ardal Leol neu dystiolaeth arall i osod targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau datblygu, gan ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael iddynt
- ystyried anghenion ynni cynigion datblygu ar gyfer dyrannu safle ar y cyd â gweithredwyr y grid
- er mwyn hwyluso cynllunio ynni lleol a rhanbarthol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu sylfaen dystiolaeth (a all gynnwys Cynllun Ynni Ardal Leol) i lywio datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel
- dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwresogi, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol, a chydleoli cynigion a dyraniadau tir newydd â datblygiadau, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres presennol
- mae PPW yn cyflwyno'r Hierarchaeth Ynni ac mae'n mynnu bod awdurdodau cynllunio yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer cynhyrchu pŵer yn lleol, gan gynnwys darparu ar gyfer cydleoli datblygiadau i alluogi cyfleoedd gwres lleol, defnyddio gwres gwastraff i'r eithaf, gwresogi ardal a gwres a phŵer cyfunol
- asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni carbon isel yn yr ardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisïau gofodol yn y cynllun datblygu sy'n amlygu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW ac sy'n cynnwys polisïau sy'n cynnwys y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar ddatblygiad y tu allan i ardaloedd a amlygwyd.

4.4.107 Bydd angen i'r fframwaith polisi, y sylfaen dystiolaeth a'r dogfennau ar gyfer y pwnc hwn gael eu hailystyried yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol a chyfundrefnau cydsynio a newidiadau i dechnolegau ynni adnewyddadwy. Gweinidogion Cymru sydd bellach yn ymdrin â'r holl gynigion ar gyfer prosiectau cynhyrchu ar y tir rhwng 10MW a 350MW, ac awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar y cynigion hynny islaw capasiti gosodedig o 10MW yn unig. O ganlyniad i'r polisi cenedlaethol newydd uchod, bydd angen i Bolisi EU 1 gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ardaloedd wedi'u Rhag-asesu yng Nghymru'r Dyfodol ar gyfer ynni gwynt ar raddfa fawr ar lefel genedlaethol, ac i amlygu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW. Yn yr un modd, gan fod y gofyniad ar gyfer rhwydweithiau gwresogi bellach yn rhan o bolisi Cymru'r Dyfodol, efallai na fydd angen cynnwys y polisi EU 3 presennol. Mae'r polisïau presennol yn canolbwyntio ar ynni solar, ynni gwynt a Rhwydweithiau Gwresogi

Ardal. Rhoddir ystyriaeth i'r angen i roi cyngor ar hwyluso technolegau ynni adnewyddadwy domestig, yr ymdrinnir â nhw'n gyffredinol o dan ddatblygiad a ganiateir.

4.4.108 At hynny, eglurodd Llywodraeth Cymru (ym mis Mawrth 2022) pan fydd ardal safle datblygiad aráe solar ffotofoltaig arfaethedig yn cynnwys ardaloedd o dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, dylid rhoi pwys sylweddol i warchod tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig, ac y bydd angen gwrthod caniatâd oni bai bod ystyriaethau eraill perthnasol o bwys yn awgrymu fel arall. Dylai hyn gael ei egluro ym Mholisi EU 1 y CDLl Newydd.

4.4.109 At ei gilydd, mae'r AMBau a gynhyrchwyd ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn dangos bod y polisïau wedi llwyddo i hwyluso cynnydd mewn capasiti ynni adnewyddadwy yn y Sir yn unol ag EU 1. Hyd yma, fodd bynnag, nid oes unrhyw rwydweithiau gwresogi ardal wedi cael eu darparu, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o ddatblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, mae cynyddu capasiti yn dibynnu ar y ffaith bod datblygwyr yn cyflwyno cynlluniau o'r fath.

**T 1 – Trafnidiaeth, Symudiad a Chysylltedd**

4.4.110 Mae'r CDLl yn cynnwys polisi strategol ar Fesurau Trafnidiaeth a Seilwaith sy'n defnyddio dull cydlynol o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae'n pwysleisio bod symudiad, cysylltedd ac eglurder cysylltiadau trafnidiaeth yn elfennau allweddol o greu lle llwyddiannus a rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon (gan gynnwys y briffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau cerddwyr a beicwyr, a hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau ceffylau) a bod hyn yn hanfodol i gefnogi twf economaidd.

4.4.111 Mae'r CDLl yn cefnogi darparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy, sy'n amcan allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r "Hierarchaeth Drafnidiaeth ar gyfer Cynllunio", fel y'i hamlinellir yng Nghymru'r Dyfodol, eisoes yn sail i bolisïau'r CDLl ar drafnidiaeth. Er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir, mae'n rhaid i ddatblygiad ystyried darparu llwybrau Teithio Llesol newydd ac wedi'u huwchraddio yn gyntaf. Gwneir hyn yn bennaf trwy wella cysylltedd ac wrth i ddatblygiadau fanteisio ar gyfleoedd i wella mynediad trwy gerdded a beicio trwy gynnwys llwybrau newydd o fewn safleoedd datblygu a/neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu mesurau priodol oddi ar y safle. Un o nodau allweddol y Cynllun yw darparu a gwella trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n galluogi dewisiadau teithio cynaliadwy. Mae'r cynllun yn ceisio cynyddu potensial symudiadau i/o ddatblygiad trwy drafnidiaeth gyhoeddus i'r eithaf, gan gynnwys sicrhau bod datblygiadau yn yr ardal drefol wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded i bwynt mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar lwybr gwasaneth amlder

uchel.

4.4.112 Mae'n ofynnol i ddatblygiadau ddarparu seilwaith trafnidiaeth newydd a mesurau gwella sy'n ofynnol i liniaru effaith y datblygiad, a sicrhau eu bod yn cael eu gwasanaethu gan ddarpariaeth barcio ac ardaloedd cylchredeg priodol. Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar weithrediad diogel ac effeithlon y rhwydwaith trafnidiaeth.

4.4.113 Cynhaliwyd Astudiaeth Trafnidiaeth Strategol i ystyried effaith cynigion datblygu'r CDLl a helpu i arwain a llywio'r broses o gyflawni dyraniadau tir, trwy gyfrwng modelu a meintioli effaith y cynigion hyn ar drafnidiaeth a mesurau a amlygwyd yr ystyrir eu bod yn bwysig yn rhan o ddull cydgysylltiedig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Roedd yr Asesiad hwn yn bwysig wrth ddarparu asesiad trwyadl o effaith debygol strategaeth twf y Cynllun a chynnig rhai o'r mesurau lliniarol a allai fod yn angenrheidiol. Bydd angen i'r Asesiad gael ei ddiweddaru i adlewyrchu cynigion datblygu'r CDLl Newydd.

4.4.114 Mae polisïau eraill penodol yn y bennod hon o'r CDLl yn cefnogi darparu coridorau strategol a nodwyd ar gyfer gwasanaethau bysiau ar draws y ddinas o fewn ardaloedd datblygu arfaethedig; darparu cyfnewidfeydd trafnidiaeth newydd neu well; diogelu'r rhwydwaith camlesi ac ardaloedd a amlygwyd sy'n cynnig y cyfle i ailgysylltu bylchau yn y rhwydwaith presennol lle mae rhannau o'r camlesi wedi cael eu colli; a delio â datblygiad yn y porthladd a'r dociau. Mae Polisi T 5 yn amlinellu egwyddorion dylunio ar gyfer mesurau a seilwaith trafnidiaeth. Yn unol â PPW, bydd cynigion trafnidiaeth presennol yn cael eu hadolygu er mwyn dileu unrhyw gynigion a ddiogelwyd yn flaenorol, ond y cefnwyd arnynt bellach, neu unrhyw rai sy'n annhebygol o ddechrau yn ystod cyfnod y cynllun.

4.4.115 Mae'r polisïau wedi bod yn effeithiol i raddau helaeth, ond bydd angen diweddaru'r sylfaen dystiolaeth gan gyfeirio at newidiadau allweddol ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol, diweddariadau perthnasol i PPW, Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru (2021), Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol (2021), Llawlyfr Strydoedd 2 (Strydoedd Trefol a Gwledig (Mai 2019), Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (Mawrth 2021).

4.4.116 Bydd angen i'r CDLl Newydd hefyd ystyried y cyd-destun cynllunio trafnidiaeth ranbarthol sy'n dod i'r amlwg ac unrhyw gynigion penodol y cadarnheir y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun Newydd o Fetro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru.

**RP1 – Diogelu Iechyd / Adnoddau Naturiol**

4.4.117 Mae Polisi Strategol RP1 yn ceisio sicrhau bod amgylchedd naturiol y Sir yn cael ei warchod rhag datblygiad niweidiol. Yn benodol, mae hyn yn berthnasol i effaith datblygiad ar lygredd aer, golau a sŵn, perygl llifogydd, ansawdd neu swm adnoddau dŵr, halogiad tir, ansefydlogrwydd tir neu ymsuddiant, datblygu adnoddau mwynau'n gynaliadwy a rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Ategir y polisi gan nifer o bolisïau manwl sy'n ymdrin â meysydd pwnc penodol (RP 2 – RP 14). Trafodir polisïau penodol ymhellach isod.

4.4.118 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod PPW yn cynnwys y fframwaith polisi cynllunio ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd aer, seinwedd a sŵn. Dylai'r system gynllunio gynyddu ei chyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant i'r eithaf, yn enwedig Cymru iachach.

4.4.119 O ran sŵn, mae Polisi RP2 yn amlinellu'r dull o leihau effeithiau llygredd sŵn i'r eithaf, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddatblygiadau'n creu sŵn mewn Ardaloedd Blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu ynghylch Sŵn neu Ardaloedd Tawel dynodedig. Mae'r AMB yn nodi bod datblygiad a ganiatawyd o fewn Ardaloedd Tawel wedi cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi, sy'n dangos bod y Polisi'n gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae PPW yn rhoi pwyslais penodol ar yr angen i greu seinweddau priodol a gwarchod ansawdd seinwedd yn hytrach na chanolbwyntio ar lygredd sŵn yn unig. Disgwylir y bydd TAN 11 newydd ar Sŵn yn cael ei gyhoeddi a fydd yn ymhelaethu ymhellach ar ansawdd aer, sŵn a seinwedd, gan roi mwy o fanylion ynglŷn â sut y dylid mynd i'r afael â nhw mewn cynlluniau datblygu. Felly, bydd terminoleg a chwmpas RC 2 yn cael eu hailystyried yn rhan o'r CDLl Newydd. Yn yr un modd, rhoddir ystyriaeth i gynnwys cyfeiriad at y Map Ardaloedd Tawel a gynhyrchwyd gan CNC.

4.4.120 O ran llygredd aer a golau, mae Polisi RP3 yn nodi'r dull o leihau effeithiau llygredd aer a golau o ddatblygiad newydd i'r eithaf. O ran llygredd golau, mae rheoli dyluniad goleuadau'n bwysig er mwyn gwarchod amgylchedd awyr dywyll AHNE Gŵyr. Mae'r SPG mabwysiedig Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr yn amlinellu ystyriaethau manwl er mwyn rheoli llygredd golau yn yr ardal hon. Felly, bydd angen i'r CDLl Newydd ymdrin â'r mater hwn yn ddigonol mewn Polisi RP 3 wedi'i ddiweddaru. Bydd hefyd angen adlewyrchu unrhyw newidiadau i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

4.4.121 Mae Polisi RP 4 yn ceisio gwarchod ansawdd yr amgylchedd dŵr a hyrwyddo rheoli'r adnodd dŵr yn dda. Bydd angen i derminoleg y polisi gael ei diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn orfodol bellach ar gyfer pob datblygiad newydd yng Nghymru sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu lle mae'r arwynebedd adeiladu'n 100 metr sgwâr. Yn ogystal, yng ngoleuni cyngor

cynllunio gan CNC ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn mynnu bod datblygiad o fewn dalgylchoedd ACA yn cyflawni niwtraliaeth neu welliant o ran ffosffadau, er nad yw hyn yn effeithio ar gyrsiau dŵr yn Abertawe, mae'n debygol y bydd angen i'r broses HRA ar gyfer y CDLl Newydd ystyried unrhyw effaith bosibl ar raddfa arfaethedig datblygu ACAau afonol mewn awdurdodau cymdogol ac ar yr ACA forol sy'n ffinio Abertawe a Chaerfyrddin. Felly, mae'n bosibl y bydd angen i derminoleg RP 4 gael ei diweddaru wrth i'r mater hwn gael ei asesu.

4.4.122 Polisi RP 5 yw'r polisi sy'n ategu RP 1 ar gyfer osgoi perygl llifogydd, ac mae'n amlinellu mesurau ar gyfer sut y bydd hyn yn cael ei asesu. Mae'r AMB yn nodi bod y ddau bolisi'n gweithredu'n effeithiol gan na chaniatawyd unrhyw geisiadau lle'r oedd CNC yn gwrthwynebu ar sail perygl llifogydd neu'n rhoi cyngor croes. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn flaenorol ym mharagraff 2.2, disgwylir i'r TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio newydd ddod i rym yn 2023, a fydd yn darparu cyd-destun sylweddol wahanol ar gyfer penderfyniadau cynllunio o gymharu â'r fframwaith presennol. O ystyried hyn, bydd angen i'r polisi gael ei adolygu i adlewyrchu'r TAN newydd.

4.4.123 Mae Polisi RP 6 yn ceisio sicrhau bod unrhyw risgiau i ddatblygiad sy'n deillio o halogiad neu gynhyrchu nwy tirlenwi yn cael eu hamlygu a'u hasesu'n gywir a bod mesurau boddhaol yn cael eu cymryd, lle y bo'n briodol, i oresgyn y risgiau a amlygwyd. Ni nodwyd unrhyw broblemau penodol â'r polisi presennol. Mae PPW yn datgan y dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau a chynigion ar gyfer adfer a datblygu safleoedd diffaith presennol pan ystyrir mai datblygu yw'r ymateb a ffefrir. Yn ogystal, mae'n rhaid i unrhyw bolisïau ar gyfer ardaloedd halogiad neu ansefydlogrwydd tir gynnwys rhybudd eu bod wedi cael eu diffinio ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio ac nad ydynt yn gynhwysfawr o reidrwydd, ac mai'r datblygwr sy'n gyfrifol am bennu hyd a lled ac effeithiau cyfyngiadau o'r fath o hyd. Bydd y CDLl Newydd yn ystyried y canllawiau hyn os bydd unrhyw safleoedd halogedig yn cael eu hyrwyddo.

4.4.124 Mae Polisi RP 7 yn ceisio llywio datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd o dir ansefydlog. Nid oes unrhyw broblemau penodol wedi'u codi ynglŷn â'r polisi ar hyn o bryd, felly ystyrir ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Mae PPW (paragraff 6.9.25) yn amlinellu polisi allweddol y bydd angen i benderfyniadau cynllunio ei ystyried mewn perthynas ag ansefydlogrwydd tir. Bydd terminoleg RP 7 yn cael ei hadolygu yn rhan o'r CDLl Newydd ac yn cael ei diweddaru fel y bo'r angen.

4.4.125 RP 8 – 11 – Polisïau Rheoli Gwastraff – mae'r rhain yn darparu'r fframwaith polisi lleol mewn perthynas â datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd,

integreiddio rheoli gwastraff mewn datblygiadau newydd, a gwaredu gwastraff amaethyddol.

4.4.126 Y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru yw adroddiad 2021/22, sy'n dangos y rhagfynegir gwagle tirlenwi rhanbarthol o 7.5 mlynedd. Mae'r ffigur hwn yn dibynnu ar sawl tybiaeth, gan gynnwys amgylchiadau unigol y safleoedd tirlenwi sy'n gweithredu ar hyn o bryd (e.e. contractau posibl yn dod i ben), safleoedd tirlenwi newydd neu weithfeydd trin gweddilliol amgen yn dechrau gweithredu, y gostyngiad yn symiau gwirioneddol y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir, a chynnydd mewn faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio.

4.4.127 Caeodd yr unig safle tirlenwi yn y Sir, sef Tir John, fel safle tirlenwi yn 2022 ac mae gwastraff gweddilliol yn cael ei gludo allan o'r Sir i'w waredu mewn cyfleusterau ynni o wastraff. Bydd angen monitro'n ofalus sut y bydd hyn yn effeithio ar y gwagle tirlenwi rhanbarthol. Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff o'r farn bod darpariaeth ddigonol ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol yn rhanbarth canolbarth a de-orllewin Cymru ar hyn o bryd, ac nad oes angen capasiti newydd. Er hynny, bydd angen i bolisi'r CDLl barhau i ganiatáu datblygu gweithfeydd trin gwastraff newydd priodol rhag ofn y bydd angen capasiti ychwanegol; a safleoedd tirlenwi newydd priodol mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys y ffaith bod angen capasiti ychwanegol.

4.4.128 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti", a ddilynwyd gan yr "Asesiad strategol o'r angen am gapasiti ynni o wastraff yn y dyfodol yn nhri rhanbarth economaidd Cymru". Bydd angen i'r polisïau gwastraff hefyd gael eu hadolygu i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar leihau gwastraff i'r eithaf a'r economi gylchol.

4.4.129 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi y bydd angen i Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ddarparu fframwaith cydlynol ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Fodd bynnag, ni fydd y CDS ar waith cyn i'r CDLl Newydd gael ei fabwysiadu. Dylai fframwaith polisi gwastraff y CDLl gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf a'r sefyllfa gyfredol yn y Sir.

4.4.130 Mae'r AMB yn dangos bod digon o dir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth yn parhau i fodoli (dosbarth defnydd B1/2) yn y CDLl i allu datblygu seilwaith rheoli gwastraff newydd, os bydd angen.

**RP 12 – RP 14: Datblygu Cynaliadwy a Diogelu Adnoddau Mwynau**

4.4.131 Mae Polisi RP 12 yn amlinellu meini prawf ar gyfer

asesu'r holl gynigion ar gyfer datblygu mwynau, gan gynnwys pyllau benthyg, ailweithio tomenni mwynau ar gyfer eu cynnwys mwynau a datblygu olew a nwy anghonfensiynol ar y tir (h.y. methan glofa, nwy siâl a nwyeiddio glo o dan y ddaear). Mae gan Lywodraeth Cymru amcan polisi clir i osgoi parhau i echdynnu a defnyddio tanwyddau ffosil. Felly, ni fydd cynigion ar gyfer gweithrediadau glo brig, datblygiad mwyngloddio dwfn neu waredu sborion glofa yn cael eu caniatáu.

4.4.132 Mae Polisi RP 13 yn nodi ardaloedd diogelu mwynau ac yn atal datblygiad a fyddai'n sterileiddio adnoddau naturiol a amlygwyd, tra bod RP 14 yn nodi parthau clustogi mwynau i ddiogelu datblygiad sensitif rhag effeithiau gweithrediadau mwynau; ac i ddiogelu gweithrediadau mwynau rhag lleoli datblygiad sensitif newydd yn rhy agos gan effeithio, o bosibl, ar allu'r gweithredwr i gynnal gweithrediadau mwynau a ganiateir heb achosi niwsans.

4.4.133 Mae Cymru'r Dyfodol yn amlygu'r rôl bwysig a gyflawnir gan fwynau ac agregau rhanbarth y de-orllewin wrth gefnogi datblygiad ledled Cymru a Lloegr. Bydd angen i CDSau ddarparu fframwaith cydlynol ar gyfer echdynnu mwynau. Fodd bynnag, ni fydd y CDS ar waith cyn i'r CDLl Newydd gael ei fabwysiadu.

4.4.134 Felly, mae blaengynllunio ar gyfer mwynau yn rhan annatod o'r broses CDLl. Yn unol â'r argymhellion a gynhwysir yn sylfaen dystiolaeth y CDLl presennol, Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS): Adolygiad 1af, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer prif agregau a gafwyd o'r tir wedi cael ei hamlygu yn y CDLl presennol, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer gweithiau yn y dyfodol. Prif amcanion y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw llywio'r broses o ddarparu cronfeydd wrth gefn digonol o agregau yn y CDLlau er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer adeiladu a diwydiannau eraill yn y ffordd fwyaf cynaliadwy y gellir ei chyflawni'n rhesymol.

4.4.135 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, cafodd y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru, 2il Adolygiad, ei fabwysiadu yn 2020. Mae'r ail adolygiad hwn yn darparu amcanestyniadau wedi'u diweddaru ac yn diwygio'r fethodoleg mewn perthynas â'r defnydd rhagfynedig o agregau yn ogystal â'r patrwm cyflenwi hanesyddol.

4.4.136 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf hwn yn mynnu bod Abertawe, trwy ei CDLl, yn darparu 0.305 miliwn o dunelli (mt) o gerrig mâl (Tywodfaen Agregau Manyleb Uchel (HSA) yn benodol) y flwyddyn tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd wedi hynny (7.636 miliwn o dunelli dros 25 mlynedd). Nid yw'r gofyniad hwn wedi'i adlewyrchu yn y CDLl presennol, ac mae Castell-

nedd Port Talbot yn darparu rhan Abertawe ar hyn o bryd. Felly, bydd angen adolygu polisïau'r CDLl yng ngoleuni'r Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf ac efallai y bydd angen ystyried dyrannu ardaloedd a ffefrir ar Fap Cynigion y CDLl Newydd.

**Adolygu Map Cynigion y CDLl**

4.4.137 Bydd angen gwneud newidiadau i gynnwys Map Cynigion y CDLl yn rhan o'r CDLl Newydd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau gofodol berthnasol a wnaed i'r cynllun, fel dyraniadau a ffiniau diwygiedig, a newidiadau gofodol i bolisïau eraill.

4.4.138 Yn ogystal, mae Map Cyfyngiadau'r CDLl yn cynnwys dynodiadau nad ydynt yn gynigion y CDLl yn uniongyrchol ond sy'n gyfyngiadau ar ddatblygiad a grëwyd gan ddeddfwriaeth neu ddulliau eraill y tu allan i'r broses CDLl, fel Ardaloedd Perygl Llifogydd, Ardaloedd Cadwraeth, SoDdGAau, ac ati. Bydd angen adolygu hwn hefyd i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

**Adolygu Dangosyddion Monitro'r CDLl**

4.4.139 Bydd angen i fframwaith monitro'r CDLl gael ei adolygu er mwyn adlewyrchu newidiadau a wnaed i strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl Newydd.

4.4.140 Bydd yr adolygiad hefyd yn ailystyried p'un a yw'r holl ddangosyddion yn angenrheidiol gan gyfeirio at y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, sy'n datgan y dylai'r fframwaith monitro ganolbwyntio ar y polisïau <u>allweddol</u> hynny sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun ac na ddylai fod yn rhy feichus nac yn rhy gymhleth. Mae rhai meysydd dyblyg yn bodoli ar hyn o bryd hefyd y dylid eu dileu.

4.4.141 Bydd dangosyddion presennol yn cael eu hadolygu i amlygu unrhyw fân newidiadau a all wneud y gwaith monitro'n fwy effeithlon (mae rhai newidiadau awgrymedig wedi cael eu hamlygu mewn adroddiadau AMB), neu sy'n angenrheidiol i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol (e.e. y trefniadau newydd ar gyfer monitro darparu tai sydd wedi cael eu gweithredu yn yr AMBau), neu i sicrhau bod yr holl ddangosyddion yn parhau i fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn realistig (e.e. diwygio unrhyw ddangosyddion lle mae'r set ddata wedi cael ei therfynu).

**Adolygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)/yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)**

4.4.142 Un o ofynion y broses CDLl yw bod Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn llywio'r broses o baratoi'r Cynllun mewn ffordd ailadroddol. Bydd y broses hefyd yn integreiddio asesiadau eraill

perthnasol, fel yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yr Asesiad Cydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Yr enw ar y broses fydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA).

4.4.143 Bydd y broses ISA yn rhan annatod o ddatblygu'r CDLl Newydd a bydd yn dilyn y prif gamau fel yr amlinellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod y weledigaeth, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn ystyried unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Bydd yr ISA yn broses ailadroddol drwy gydol camau paratoi'r CDLl Newydd a'i fonitro blynyddol dilynol, gan alluogi'r Cyngor i asesu i ba raddau y mae'r Cynllun yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac amlygu unrhyw bryderon.

4.4.144 Er mwyn llywio'r broses o baratoi'r CDLl Newydd, bydd angen ailystyried a diweddaru gwybodaeth amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd sylfaenol, ynghyd ag adolygu cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Cwmpasu a baratowyd yn flaenorol ar gyfer y CDLl. Bydd yr Adroddiad Cwmpasu yn amlygu materion allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw trwy'r CDLl Newydd ac fe ddylai lywio amcanion y CDLl.

4.4.145 Bydd angen i'r Fframwaith Monitro SA, gan gynnwys yr Amcanion SA, gael ei adolygu hefyd i sicrhau ei fod yn gyfredol o hyd, gan gynnwys ystyried p'un a oes angen diwygio'r fethodoleg o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth.

**Adolygu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)**

4.4.146 Llywiwyd y CDLl gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Diben hyn oedd asesu effeithiau'r CDLl, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill, yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n bwysig o ran cadwraeth natur, fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) (a ddynodwyd am eu statws ecolegol) ac i ganfod p'un a oes angen Asesiad Priodol ar ôl sgrinio.

4.4.147 Yn dilyn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, nid yw ACAau ac AGAau yn y Deyrnas Unedig yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd mwyach. Mae Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol wedi cael ei greu yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys ACAau ac AGAau. Nid yw safleoedd Ramsar (a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol) yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cynefinoedd, ond ymdrinnir â nhw yn yr un ffordd ag ACAau ac AGAau yn y system gynllunio.

4.4.148 Daeth y Rheoliadau newydd i rym ar 1 Ionawr 2021. Bydd angen i'r CDLl Newydd fod yn destun HRA unwaith eto, ac felly bydd angen i'r broses a'r fethodoleg sgrinio HRA gael eu hadolygu a'u hailystyried, a'u cymhwyso i gynigion sy'n dod i'r amlwg yn y CDLl trwy broses ailadroddol i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol a bod unrhyw faterion yn derbyn sylw'n llawn.

**Pennod 4: Casgliadau ar Adolygu'r CDLl Mabwysiedig**

- Er bod yr adolygiad hwn wedi dangos bod llawer o'r CDLl yn gweithio'n dda, bydd angen i sylfaen dystiolaeth y Cynllun gael ei diweddaru o ganlyniad i'r amser sydd wedi mynd heibio ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r raddfa twf sy'n ofynnol ar hyd cyfnod y CDLl Newydd. Gallai hyn olygu bod angen newid y gofyniad ar gyfer graddfa twf. At hynny, er yr ystyrir bod y strategaeth ofodol bresennol yn gadarn, bydd angen i'r ffordd y caiff ei chyflawni gael ei hadolygu yn erbyn newidiadau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, gan gynnwys, er enghraifft, yr agweddau gofodol perthnasol a amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol; yr angen i amnewid dyraniadau a ddarparwyd a chyfrif am y ffaith bod rhai dyraniadau'n cael eu cyflwyno'n arafach na'r disgwyl trwy ychwanegu unrhyw ddyraniadau newydd sy'n ofynnol i ddarparu'r gofyniad tai wedi'i ddiweddaru; ac adolygiad manwl o ddyraniadau presennol heb eu darparu. Yn unol â PPW (argraffiad 11), mae'n rhaid bod digon o safleoedd ar gael sy'n addas i'r ystod lawn o fathau o dai i fynd i'r afael ag anghenion canfyddedig cymunedau, a fydd yn golygu bod angen diweddaru'r dystiolaeth o anghenion tai. At hynny, bydd angen sicrhau bod amrywiaeth o safleoedd cynaliadwy y gellir eu cyflawni ar gael er mwyn rhoi cyfle i bob sector a bob math o adeiladwr tai gyfrannu at gyflawni'r gofyniad tai, gan gynnwys rhai cenedlaethol a rhanbarthol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau), a'r sector adeiladu wedi'i deilwra a hunanadeiladu.

- O ganlyniad, mae'n debygol y bydd rhai newidiadau i'r strategaeth dwf ac agweddau ar sut mae'r strategaeth ofodol yn cael ei chyflawni. Ni fyddai hyn yn gweddu i'r weithdrefn Adolygiad Byr, a bydd angen Adolygiad Llawn i alluogi'r ACLl i ymateb i'r materion strategol hyn a diweddaru'r sylfaen dystiolaeth y mae'r Cynllun wedi'i seilio arni yn llawn.

- Mae'r Bennod hon wedi amlygu y bydd angen i elfennau penodol o'r Cynllun gael eu diweddaru, megis yr angen am leiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a darparu'r lleiniau hynny, yr angen am dai fforddiadwy, lefelau hyfywedd ariannol lefel uchel ar gyfer darparu tai fforddiadwy a gofynion seilwaith ffisegol, y sylfaen dystiolaeth ynglŷn ag anghenion manwerthu, effeithiau dyraniadau newydd ar y seilwaith trafnidiaeth, diwygiadau i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol newydd a ddisgwylir ar berygl llifogydd, ac adolygu'r ardaloedd a ddarperir ar gyfer echdynnu mwynau.

- Bydd angen i newidiadau i'r cyd-destun, megis cynigion y gellir eu cyflawni sy'n dod i'r amlwg o Fetro De-orllewin Cymru, gael eu deall er mwyn eu hadlewyrchu yn y CDLl Newydd.

- Mae'r adolygiad hefyd wedi amlygu amryw gyfleoedd i ddiweddaru polisïau sy'n gweithio'n effeithiol fel arall er mwyn mireinio'r Cynllun.

- Nid yw'r adroddiad hwn yn manylu ar bob cyfle, a bydd yr ACLl yn parhau i adolygu a mireinio trwy broses y CDLl Newydd, gan adeiladu ar brofiad o ddefnyddio'r polisïau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.

# Pennod 5. Cyfleoedd ar gyfer Cydweithio

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae Canllawiau LIC[10] yn datgan, wrth gynnal adolygiadau CDLl, y dylid ystyried pob cyfle i gydweithio wrth baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth. Diben hyn yw cynyddu'r cyfleoedd a'r effeithlonrwydd a ddaw yn sgil casglu tystiolaeth, ymgynghori a chydweithio ar y cyd, a/neu drwy drefniadau gweithio ar y cyd. Gall trefniant o'r fath fod yn arbennig o berthnasol i CDLlau sy'n cael eu paratoi yn unol â graddfeydd amser tebyg, a phan fydd gan awdurdodau gysylltiadau daearyddol a/neu swyddogaethol cryf. Mae cydweithio'n un o ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn rhan annatod o brofion cadernid y CDLl (h.y. prawf cydnawsedd y CDLl â chynlluniau awdurdodau cyfagos).

5.1.2 Mae'r Bennod hon yn ystyried y cyfleoedd sy'n bodoli i gydweithio ag ACLlau eraill, o ran paratoi Cynlluniau ar y cyd ac o ran casglu tystiolaeth.

## 5.2 Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a CDLlau ar y Cyd

5.2.1 Mae Abertawe yn rhannu ei ffin weinyddol â thri Awdurdod arall: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Caerfyrddin, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. O ran graddfeydd amser, prin yw'r cyfle i baratoi CDLl ar y Cyd ag unrhyw un o'r awdurdodau cyffiniol hyn, gan eu bod ar gamau mwy datblygedig o'u proses o baratoi CDLl Newydd.

5.2.2 Er bod y graddfeydd amser yn anghydnaws, bydd cydweithio â'r holl awdurdodau cymdogol yn rhan ganolog o'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd, y bydd angen iddo gyd-fynd gymaint â phosibl â strategaethau a chynigion presennol yr ardaloedd cyffiniol hyn a/neu eu strategaethau a'u cynigion sy'n dod i'r amlwg.

5.2.3 Fel yr amlygwyd ym Mhennod 2 uchod, mae Cymru'r Dyfodol yn mynnu bod CDS yn cael ei baratoi yn ne-orllewin Cymru, ond ni fydd ar waith cyn dyddiad mabwysiadu tebygol CDLl Newydd Abertawe. Er gwaethaf hyn, drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl Newydd, bydd angen i'r ACLl fonitro goblygiadau unrhyw waith ar CDS sy'n dod i'r amlwg yn ofalus pan fydd cyfarwyddyd polisi rhanbarthol newydd yn cael ei gyhoeddi.

## 5.3 Cydweithio ar Sylfaen Dystiolaeth

[10] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

5.3.1 Y pwyslais a’r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ar y cam hwn fydd adeiladu ar drefniadau cydweithio presennol ac achub ar bob cyfle, lle y bo’n berthnasol, i ystyried materion mewn ffordd drawsffiniol o ran y meysydd tystiolaeth allweddol sy’n sail i CDLl. Bydd hyn yn sicrhau sylfaen dystiolaeth gydnaws a chyson ar draws CDLlau ac fe all lywio gwaith yn y dyfodol tuag at y CDS.

5.3.2 Hyd yma, mae trafodaethau a chynnydd wedi canolbwyntio ar weithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar brosiectau i asesu amcanestyniadau twf cyflogaeth a thai, a chynhyrchu Asesiad o’r Farchnad Dai Leol wedi’i ddiweddaru. Bydd y rhain yn darparu tystiolaeth allweddol o’r lefelau twf ym mhob CDLl, a thrwy ymgymryd â nhw ar y cyd, gallant ystyried materion trawsffiniol yn iawn o ran y marchnadoedd tai a chyflogaeth a chyd-destun Bae Abertawe. Mae’r Awdurdodau sy’n ffurfio Rhanbarth y De-orllewin yn cydweithio hefyd ar ddarparu gwell dealltwriaeth o hyd a lled yr Ardal Dwf Genedlaethol a amlygir yng Nghymru’r Dyfodol.

5.3.3 Yn ogystal, mae’r awdurdodau yn rhanbarthau Gorllewin Cymru a Chanolbarth Cymru wedi gweithio gyda’i gilydd ar ‘Astudiaeth Hyfywedd Rhanbarthol’. Mae’r Astudiaeth hon, a arweiniwyd gan Andrew Burrows o ‘Burrows-Hutchinson’, wedi arwain at gwblhau a gweithredu Model Hyfywedd Datblygu i’w ddefnyddio gan yr holl awdurdodau. Offeryn arfarnu wedi’i seilio ar daenlen yw’r Model sy’n gallu asesu lefelau hyfywedd cyffredinol mewn is-ardaloedd awdurdod, yn ogystal â phrofi addasrwydd a chyflawnadwyedd safleoedd penodol i’w cynnwys mewn Cynllun Datblygu.

5.3.4 Mae cyfleoedd i wneud gwaith arall ar y cyd i lywio’r broses o baratoi’r CDLl Newydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwaith ar y cyd ar dystiolaeth fwynau; cynllunio manwerthu; asesiadau tirwedd; asesiadau ynni adnewyddadwy, ac ystyried ardal Coridor Arloesedd Ffordd Fabian sy’n ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

5.3.5 Bydd trafodaethau parhaus ag ACLlau eraill yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd a chysondeb i’r eithaf o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodoleg, lle y bo’n bosibl.

## Pennod 5: Casgliadau ar Gyfleoedd ar gyfer Cydweithio

- Mae’r ACLl wedi archwilio’r opsiynau ar gyfer gweithio ar y cyd ag ACLlau eraill ar y Cynllun Datblygu, ond mae wedi dod i’r casgliad mai’r opsiwn mwyaf priodol ar yr adeg hon yw bod y Cyngor yn paratoi CDLl Newydd ar sail ACLl unigol.

- Fodd bynnag, lle bynnag y bo’n bosibl, bydd yr ACLl yn parhau i weithio ar y cyd ag ACLlau eraill cymdogol ar gynhyrchu sylfaen dystiolaeth gyson a chydlynol (mae elfennau nodedig o gydweithio wedi dechrau ar astudiaethau tystiolaeth allweddol sy’n angenrheidiol i lywio’r gofynion twf) a gweithio gydag ACLlau eraill yn y dyfodol i baratoi CDS ar gyfer rhanbarth y de-orllewin.

# Pennod 6. Casgliadau a'r Camau Nesaf

## 6.1 Casgliadau

6.1.1 O ystyried y canfyddiadau a amlinellir yn yr AMB diweddaraf ynglŷn â rhai dangosyddion monitro, a'r angen i'r adolygiad statudol o CDLl Abertawe fod yn mynd rhagddo erbyn mis Chwefror 2023 sut bynnag, argymhellodd AMB 3 y dylai Adroddiad Adolygu CDLl gael ei baratoi yn unol â'r broses a ragnodir gan ganllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

6.1.2 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd ar gyfer yr Adroddiad hwn wedi dangos, er bod llawer o CDLl Abertawe yn gweithredu'n dda, mae angen amlwg i ddiweddaru sylfaen dystiolaeth y Cynllun. Mae hyn oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r CDLl, ond yn bwysicach na hynny, y newidiadau sylweddol arwyddocaol yn y cyd-destunau cynllunio strategol a chymdeithasol sydd wedi codi yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i adolygu maint y twf yn y boblogaeth wrth symud ymlaen yng ngoleuni data sy'n dod i'r amlwg, a allai yn ei dro olygu bod angen newid graddfa'r strategaeth twf tai a chyflogaeth ar gyfer Abertawe. At hynny, er bod y strategaeth ofodol bresennol yn cael ei hystyried yn gadarn, bydd angen adolygu'r ffordd y caiff ei chyflawni yn erbyn newidiadau sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys y polisïau a'r paramedrau perthnasol a nodir yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Datblygu Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLl.

6.1.3 Mae'r adroddiad hefyd wedi dangos bod angen ystyried yn fanwl p'un a yw canfyddiadau'r AMB diweddaraf, o ran oedi a fu wrth gyflawni rhai safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl, yn golygu bod angen nodi unrhyw ddyraniadau newydd i gyflawni unrhyw ofyniad tai wedi'i ddiweddaru. Byddai hyn yn golygu bod angen adolygiad manwl o ddyraniadau presennol heb eu cyflawni a rhinweddau unigol a'r gallu i gyflawni dyraniadau eraill. Mae proses o'r fath yn adlewyrchu gofynion PPW (argraffiad 11), sy'n datgan bod rhaid i ddigon o safleoedd fod ar gael sy'n addas i'r ystod lawn o fathau o dai i fynd i'r afael ag anghenion canfyddedig cymunedau. Mae hyn yn golygu bod angen diweddaru'r dystiolaeth o anghenion tai. Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o safleoedd cynaliadwy y gellir eu cyflawni ar gael, mae'n bwysig rhoi cyfle i bob sector a bob math o adeiladwr tai gyfrannu at gyflawni'r gofyniad tai, gan gynnwys rhai cenedlaethol a rhanbarthol, Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau), landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a'r sector adeiladu wedi'i deilwra a hunanadeiladu.

6.1.4 Mae'n amlwg na fyddai'r weithdrefn Adolygiad Byr, sy'n canolbwyntio ar baramedrau a materion cyfyngedig yn unig, yn briodol ac na fyddai modd ei gyfiawnhau. Mae hyn yn arbennig o glir o ystyried yr angen i adolygu'r lefelau twf wrth symud ymlaen a'r strategaeth ofodol a

ddylai fod yn gysylltiedig â'r twf hwnnw. At hynny, nid yw'r weithdrefn Adolygiad Byr yn cynnwys y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo, a fyddai'n rhan bwysig o adolygu materion yn ymwneud â graddfa a dosbarthiad twf.

**6.1.5 Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn dod i'r casgliad bod angen cynnal gweithdrefn Adolygiad Llawn ar gyfer CDLl Abertawe, i alluogi'r ACLl i ymateb i'r materion strategol a'r materion polisi allweddol a godwyd yn yr Adroddiad hwn, ac i ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth y mae'r CDLl wedi'i seilio arni yn llawn.**

6.1.6 Byddai hyn yn golygu y byddai CDLl Newydd yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfnod 2023 i 2036, gan ddilyn yr un gweithdrefnau llawn ag a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r CDLl mabwysiedig. Bydd paratoi CDLl Newydd yn sicrhau y gellir parhau i wneud penderfyniadau cynllunio effeithiol yn lleol ar ôl "dyddiad gorffen" y CDLl mabwysiedig, sef 1 Ionawr 2026, yn unol â'r dull a arweinir gan gynllun yng Nghymru sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

6.1.7 Mae'r Adroddiad hwn wedi amlygu elfennau amrywiol o sylfaen dystiolaeth y CDLl y mae angen eu diweddaru. Mae wedi amlygu y gallai fod angen i unrhyw newidiadau i'r dystiolaeth hon gael eu hadlewyrchu mewn newidiadau i bolisïau presennol y CDLl, gan gynnwys o ran: yr angen am leiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a darparu'r lleiniau hynny; yr angen am dai fforddiadwy; hyfywedd ariannol lefel uchel darparu tai fforddiadwy a gofynion seilwaith ffisegol mewn gwahanol rannau o'r Sir; anghenion a darpariaeth manwerthu; effeithiau dyraniadau ar y seilwaith trafnidiaeth; yr angen posibl i ddarparu ardaloedd ar gyfer echdynnu mwynau; ac i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol newydd a ddisgwylir ar berygl llifogydd. Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth.

6.1.8 Mae newidiadau pwysig ac arwyddocaol i bolisïau ac amgylchiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y mae angen eu hadolygu a'u hadlewyrchu'n llawn, lle y bo'r angen, wrth ddiwygio'r Cynllun. Yn ogystal â goblygiadau Cymru'r Dyfodol, mae hyn yn cynnwys yr agendâu cynllunio rhanbarthol newydd, cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Metro De-orllewin Cymru, a chyd-destun y Cynllun Lles Lleol diweddaraf.

6.1.9 Mae'r Adroddiad hwn hefyd wedi amlygu sut y dylid achub ar gyfleoedd i ddiweddaru polisïau. Er bod yr AMB yn dangos bod y polisïau hyn yn gweithio'n effeithiol i raddau helaeth, gallent elwa o newid eu geiriad er mwyn mireinio'r Cynllun. Mae'r adroddiad wedi amlygu achosion o'r fath ond nid yw'n manylu ar bob cyfle. Bydd angen i'r ACLl barhau i adolygu a mireinio trwy broses y CDLl Newydd, gan adeiladu ar dystiolaeth a gafwyd o'r profiad o ddefnyddio'r polisïau wrth wneud penderfyniadau cynllunio ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.

**6.1.10 Dylid nodi na fwriedir i'r Adroddiad Adolygu hwn fanylu ar yr holl newidiadau a fydd yn cael eu**

**gwneud i'r CDLl, oherwydd bydd y rhain yn cael eu pennu dim ond trwy'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl Newydd.**

6.1.11 Mae Canllawiau LlC[11] yn datgan, ar gyfer adolygiadau CDLl, y dylai ACLlau ystyried a dangos eu bod wedi manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i gydweithio wrth baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth. Mae cydweithio'n un o ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn rhan annatod o brofion cadernid y CDLl.

6.1.12 **Felly, mae'r ACLl wedi archwilio'r opsiynau perthnasol ar gyfer cydweithio ag ACLlau eraill ar y Cynllun Datblygu. Fodd bynnag, mae wedi dod i'r casgliad mai'r opsiwn mwyaf priodol ar yr adeg hon yw bod y Cyngor yn cynnal adolygiad llawn o'r CDLl presennol ar sail ACLl unigol.** Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr ACLl yn parhau i weithio ar y cyd ag ACLlau eraill cymdogol ar gynhyrchu sylfaen dystiolaeth gyson a chydlynol (mae elfennau nodedig o gydweithio wedi dechrau ar astudiaethau tystiolaeth allweddol sy'n angenrheidiol i lywio'r gofynion twf) a gweithio gydag ACLlau eraill yn y dyfodol i baratoi CDS.

## 6.2 Y Camau Nesaf

6.2.1 Bydd rhanddeiliaid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth helpu i nodi ac egluro pa faterion sydd angen eu hystyried, pa mor effeithiol fu'r CDLl presennol o ran cyflawni, a graddau'r newidiadau y mae'n debygol y bydd eu hangen i'r Cynllun. Ar y sail hon, cynigir cynnal ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar yr Adroddiad Adolygu drafft, gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol fel yr awgrymir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru.

6.2.2 Bydd yr ACLl yn adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac yn ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer cynnwys y Cynllun a'r broses adolygu. Bydd unrhyw newidiadau priodol yn cael eu gwneud yn yr Adroddiad Adolygu terfynol a fydd yn cael ei adrodd i Aelodau'r Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gadarnhau ffurf a math yr adolygiad o'r Cynllun a gynhelir. Bydd Adroddiad yr Adolygiad yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ffurf a chynnwys y cynllun diwygiedig, ac yn y pen draw, bydd yn un o nifer o ddogfennau a gyflwynir i'r Arolygydd Cynllunio penodedig fel rhan o'r broses Archwilio.

6.2.3 Ar ôl i'r Adroddiad Adolygu terfynol gael ei gadarnhau, bydd yr ACLl yn ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynglŷn â Chytundeb Cyflawni drafft yn 2023. Bydd hyn yn amlinellu'r amserlen ddrafft ar gyfer paratoi'r CDLl Newydd, ynghyd â Chynllun Ymgysylltu

[11] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

â'r Gymuned a fydd yn manylu ar ba bryd a sut y bydd y Cyngor yn ymgynghori ar ei baratoi, a chyda phwy.

## Atodiad 1: Adolygiad o Bolisïau

| Thema | Cod | Polisi | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **Creu Lleoedd a Datblygu Cynaliadwy** | **PS 1** | Lleoedd Cynaliadwy | Mae'r Polisi'n gweithredu'n effeithiol – Mae'r AMB wedi dod i'r casgliad bod lletemau glas a chefn gwlad yn cael eu gwarchod rhag datblygiad amhriodol, a bod datblygiad yn cael ei gyfeirio tuag at y lleoedd mwyaf cynaliadwy o fewn y ffiniau aneddiadau diffiniedig. Bydd angen i adolygiad o'r ffin Drefol yn rhan o Adolygu'r CDLl ystyried caniatadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer datblygiad newydd ac estyniadau cymeradwy i gwrtil preswyl presennol. |
| | **PS 2** | Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd | Mae'r Polisi'n gweithredu'n effeithiol ond mae angen mân newidiadau – Mae angen diweddaru'r polisi i adlewyrchu canlyniadau creu lleoedd cynliadwy cenedlaethol ac egwyddorion Creu Lleoedd Strategol Cymru'r Dyfodol. Rhoddir ystyriaeth i ehangu cwmpas y polisi i ddarparu arweiniad ar orwresogi, yr angen i fynedfeydd diogel a chlir gael ei adlewyrchu ym maen prawf vii a maen prawf newydd sy'n mynnu digon o le amwynder a phreifat ar gyfer pob math o ddatblygiadau preswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **PS 3** | Strategaeth Tai Cynaliadwy | Angen diwygio – Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i ailystyried y lefelau mwyaf priodol o dwf tai yn y dyfodol ar gyfer y CDLl Newydd ac i bennu p'un a yw'r strategaeth bresennol yn bodloni gofynion tai a amlygwyd yn y ffordd fwyaf priodol o hyd. Bydd angen ystyried bodloni'r galw am Gartrefi Gofal. |
| | **PS 4** | Strategaeth Cyflogaeth Cynaliadwy | Angen diwygio – Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i ailystyried y lefelau mwyaf priodol o dwf cyflogaeth yn y dyfodol ar gyfer y CDLl Newydd ac i bennu p'un a yw'r strategaeth bresennol yn bodloni'r gofynion cyflogaeth a amlygwyd yn y ffordd fwyaf priodol o hyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Strategol a Phrif Gynllunio** | **SD 1** | Ardaloedd Datblygu Strategol | Angen diwygio – Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i ailystyried y lefelau mwyaf priodol o dwf yn y dyfodol ar gyfer y CDLl Newydd ac i bennu p'un a yw'r strategaeth bresennol yn bodloni gofynion yn y ffordd fwyaf priodol o hyd. |
| | **SD 2** | Egwyddorion Prif Gynllunio | Mae'r Polisi'n gweithredu'n effeithiol ond mae angen mân newidiadau – Bydd angen i'r adolygiad ailystyried trothwy'r polisi ar gyfer sbarduno gofynion prif gynllunio, a allai gynnwys ystyried niferoedd a maint safleoedd. |
| | **SD A** | I'r De o Glanffrwd Road, Pontarddulais | Mae'r safle ar y cam cyn-gynllunio a bydd yn cael ei ailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â thystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyflawnadwyedd a hyfywedd |
| | **SD B** | I'r Gogledd o Garden Village | Mae gan y safle cyfan ganiatâd cynllunio a bydd yn dod yn ymrwymiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SD C** | I'r De o'r A4240, Penllergaer | Mae gan y safle cyfan ganiatâd cynllunio a bydd yn dod yn ymrwymiad |
| | **SD D** | I'r Gorllewin o Llangyfelach Road, Penderi | Mae gan y safle cyfan ganiatâd cynllunio a bydd yn dod yn ymrwymiad |
| | **SD E** | I'r Gogledd o Clasemont Road, Treforys | Mae'r safle ar y cam cyn-gynllunio a bydd yn cael ei ailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â thystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyflawnadwyedd a hyfywedd |
| | **SD F** | Ysbyty Cefn Coed, y Cocyd | Mae'r safle ar y cam cyn-gynllunio a bydd yn cael ei ailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â thystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyflawnadwyedd a hyfywedd. Potensial i ddod yn safle strategol a arweinir gan iechyd |
| | **SD G** | I'r Gogledd-orllewin o G46 yr M4, Llangyfelach | Mae cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno i'w benderfynu a bydd angen monitro cynnydd. Potensial i adolygu yn rhan o gynllun defnydd cymysg ehangach gyda Pharc Busnes. |
| | **SD H** | I'r Gogledd o Waunarlwydd/Fforestfach | Mae'r safle ar y cam cyn-gynllunio a bydd yn cael ei ailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â thystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyflawnadwyedd a hyfywedd. Bydd pen gorllewinol y safle'n cael ei adolygu i adlewyrchu hyb Metro Tre-gŵyr. |
| | **SD I** | Bro Tawe | Mae'r safle ar y cam cyn-gynllunio a bydd yn cael ei ailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas â thystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyflawnadwyedd a hyfywedd. |
| | **SD J** | Ardal Canol Abertawe | Mae adfywio'r Ardal Ganolog yn flaenoriaeth Gorfforaethol o hyd. Mae SD J yn cynnwys nifer o safleoedd a chyfleoedd adfywio a bydd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r dystiolaeth cyflawnadwyedd a hyfywedd a'r blaenoriaethau adfywio diweddaraf ar gyfer yr Ardal Ganolog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SD K** | Coridor Ffordd Fabian | Mae SD K yn cynnwys nifer o safleoedd a chyfleoedd adfywio a bydd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r dystiolaeth cyflawnadwyedd a hyfywedd ddiweddaraf. |
| | **SD L** | Glannau Tawe a Copperworks Hafod Morfa | Mae SD L yn cynnwys nifer o safleoedd a chyfleoedd adfywio a bydd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r dystiolaeth cyflawnadwyedd a hyfywedd ddiweddaraf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion a Rhwymedigaethau Seilwaith** | **IO 1** | Seilwaith Cefnogi a Rhwymedigaethau Cynllunio | <u>Mae'r Polisi'n gweithredu'n effeithiol ond mae angen diweddariadau</u> – Mae seilwaith angenrheidiol yn cael ei sicrhau i liniaru effaith datblygiad newydd a chefnogi'r broses o'i ddarparu. Fodd bynnag, mae angen egluro rhannau o rai pynciau gan fod yr SPG cyfredol yn hen. Mae'r adolygiad yn cynnig y cyfle i fyfyrio ar yr elfennau y mae angen eu diweddaru trwy bolisïau'r CDLl Newydd a hefyd i baratoi SPG A106 wedi'i ddiweddaru ar yr un pryd. Bydd Cynllun Cyflawni Seilwaith wedi'i ddiweddaru i gefnogi'r CDLl yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r adolygiad. |
| | **IO 2** | Cyfleoedd Cyflogaeth a Hyfforddiant | <u>Mae'r Polisi'n gweithredu'n effeithiol ond mae angen diweddariadau</u> – Bydd geiriad y polisi'n cael ei adolygu i adlewyrchu'r diweddariadau diweddaraf i Bolisi Budd Cymunedol y Cyngor. Mae angen arweiniad pellach ar sicrhau hyn yn rhan o ddatblygiad, a fydd yn cael ei gynnwys yn yr SPG A106 newydd a baratoir yn rhan o'r SPG. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tai** | **H 1** | Safleoedd Tai Anstrategol | Mae nifer o safleoedd wedi cael eu darparu, a bydd safleoedd ychwanegol yn dod yn ymrwymiadau gyda chaniatâd cynllunio. Bydd safleoedd nad ydynt wedi cael eu symud ymlaen yn cael eu hailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol. |
| | **H 2** | Strategaeth Tai Fforddiadwy | Angen Diwygio – Bydd y ddarpariaeth tai fforddiadwy sy'n ofynnol yn cael ei hadolygu yn rhan o broses y Cynllun Newydd ac yn cael ei llywio gan Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddaru. |
| | **H 3** | Tai Fforddiadwy ar y Safle | Angen Diwygio – Ystyrir bod y polisi'n gweithio'n effeithiol i sicrhau tai fforddiadwy yn unol â'r canrannau targed. Fodd bynnag, bydd y canrannau targed a'r trothwyon ar gyfer sbarduno'r polisi yn cael eu hadolygu trwy waith hyfywedd wedi'i ddiweddaru sy'n angenrheidiol i lywio'r CDLl Newydd ac yn sgil newidiadau i ffiniau wardiau. Dylai arweiniad ychwanegol i helpu i ddehongli'r polisi gael ei gynnwys yn rhan o SPG wedi'u diweddaru ar Rwymedigaethau Cynllunio. |
| | **H 4** | Tai Fforddiadwy Oddi ar y Safle | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae'r polisi'n gweithio gan ei fod yn hwyluso tai fforddiadwy oddi ar y safle mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Fodd bynnag, ystyrir y dylai arweiniad ychwanegol i helpu i ddehongli'r polisi gael ei gynnwys yn rhan o SPG wedi'u diweddaru ar Rwymedigaethau Cynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **H 5** | Safleoedd Eithriedig Tai Anghenion Lleol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae nifer o safleoedd wedi cael eu darparu, a bydd safleoedd ychwanegol yn dod yn ymrwymiadau gyda chaniatâd cynllunio. Bydd safleoedd nad ydynt wedi cael eu symud ymlaen yn cael eu hailasesu yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Bydd dyraniadau ychwanegol yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n dod i'r amlwg. Darperir eglurhad pellach ar ddehongli'r polisi yn yr SPG wedi'u diweddaru ar Rwymedigaethau Cynllunio. |
| | **H 6** | Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy 100% | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae angen i'r polisi diwygiedig egluro pan fydd tai fforddiadwy'n cael eu darparu ar Safle Eithriedig Tai Fforddiadwy 100% (fel y diffinnir ym Mholisi H 6 y CDLl), ni fydd y Cyngor fel arfer yn caniatáu i'r tai fforddiadwy fod yn ddeiliadaethau canolraddol a fyddai'n caniatáu i feddianwyr gamu ymlaen i berchen ar y cartref yn llwyr. Yr unig eithriad i hyn fydd achosion pan fydd yr ymgeisydd wedi dangos er boddhad y Cyngor y bydd trefniadau diogel ar waith i warantu y bydd y cartref/cartrefi perthnasol, pan fyddant yn cael eu hailwerthu, yn cael eu gwerthu neu eu gosod fel tai fforddiadwy bob amser. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn datgan yn glir nad yw safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer tai marchnad. |
| | **H 7** | Llety Sipsiwn a Theithwyr | Angen diwygio – Bydd angen cynnal adolygiad i lywio'r CDLl Newydd ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran yr angen am leiniau ychwanegol yn Abertawe, a fydd yn cael ei hamlygu yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr mwyaf cyfredol, a'r ddarpariaeth sydd ar waith i fodloni'r angen hwnnw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **H 8** | Llety Preswyl Atodol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau – Nid yw'r polisïau hyn yn cael eu monitro fel mater o drefn trwy'r AMB, ond byddant yn cael eu hadolygu wrth baratoi'r CDLl Newydd gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n llwyddiannus ac yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol. |
| | **H 9** | Tai Amlfeddiannaeth | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân newidiadau - Mae AMB y CDLl wedi monitro'r crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth o fewn yr Ardal Reoli Tai Amlfeddiannaeth sydd wedi'i diffinio ar y Map Cynigion. Mae pob AMB wedi dod i'r casgliad nad yw'r crynodiad Tai Amlfeddiannaeth yn yr ardal ddynodedig hon wedi amrywio'n sylweddol o'r llinell sylfaen (fel yr adroddwyd yn AMB 3). Ystyrir bod y polisi'n gweithredu fel y bwriadwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd angen adolygu hyn, ynghyd â'r SPG atodol, er enghraifft o ran asesu unrhyw newidiadau i grynodiadau Tai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Reoli, ac unrhyw fân newidiadau defnyddiol neu eglurhad i destun y polisi a fyddai'n briodol, ac efallai ehangu'r polisi i ymdrin â mathau newydd o dai fel cyd-fyw. |
| | **H 10** | Tai Arbenigol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen mân ddiweddariadau – Nid yw'r polisïau hyn yn cael eu monitro fel mater o drefn trwy'r AMB, ond byddant yn cael eu hadolygu wrth baratoi'r CDLl Newydd gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n llwyddiannus ac yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **H 11** | Llety Pwrpasol i Fyfyrwyr | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Ystyrir bod y polisi'n gweithredu fel y bwriadwyd yn gyffredinol gan fod mwyafrif y datblygiadau llety pwrpasol newydd i fyfyrwyr wedi cael eu cyfeirio tuag at safleoedd yr Ardal Ganolog. Er hynny, bydd y polisi'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn gyfredol. |
| **Yr Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol** | **HC 1** | Yr Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Ni amlygwyd unrhyw faterion penodol yn yr AMB mewn perthynas â gweithrediad polisïau'r CDLl o ran yr Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol. Mae materion y gallai fod angen eu hystyried yn rhan o'r adolygiad yn cynnwys newid y derminoleg a ddefnyddir er mwyn iddi fod yn unol â'r polisi diweddaraf (PPW a TAN24) a'r canllawiau diweddaraf (e.e. yr Amgylchedd Hanesyddol yn hytrach na Threftadaeth Hanesyddol ac Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn hytrach nag Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol). |
| | **HC 2** | Gwarchod neu Wella Adeiladau a Nodweddion | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae angen egluro y dylai datblygiad ddiogelu, gwarchod a gwella diddordeb arbennig parciau a gerddi neu eu lleoliad yn unol â pholisi cenedlaethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **HC 3** | Datblygiad yn yr Ardal Sensitif o ran y Gymraeg | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau - Er bod y polisi'n gweithio'n effeithiol yn yr ystyr bod datblygwyr yn ystyried effaith cynigion ar y Gymraeg, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r polisi egluro'r gwahaniaeth rhwng Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Yn rhan o'r adolygiad, bydd data'r cyfrifiad diweddaraf yn cael ei ddadansoddi i bennu p'un a fydd angen diwygio hyd a lled yr Ardal Sensitif o ran y Gymraeg (WLSA) ddynodedig, ac adolygu'r ffin i ystyried newidiadau i ffiniau wardiau; ac ystyried p'un a oes angen diwygio trothwyon y polisi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Seilwaith Cymdeithasol** | **SI 1** | Iechyd a Lles | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Bydd angen i'r adolygiad ystyried p'un a ddylai barhau i fod yn bolisi trosfwaol annibynnol neu a ddylid ei gyfuno o dan thema drosfwaol newydd, sef creu lleoedd cynaliadwy, a'i blethu trwy bolisïau, gan ymgorffori'r cysyniad o 'Iechyd ym Mhob Polisi'. Mae'r CDLl yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni hyn, gan fod polisïau sy'n ymwneud â llygredd golau, sŵn ac aer, halogiad tir a thrafnidiaeth oll yn ymdrin ag effeithiau ar iechyd y cyhoedd. Rhoddir ystyriaeth i b'un a ddylai polisïau yn y CDLl Newydd roi mwy o bwyslais ar y goblygiadau posibl i iechyd corfforol a meddyliol o ganlyniad i ddatblygiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SI 2** | Darparu a Diogelu Cyfleusterau Cymunedol a Defnyddiau sy'n Bwysig yn Lleol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol yn yr ystyr ei fod yn diogelu rhag colli cyfleusterau cymunedol sy'n werthfawr yn lleol. Gallai meini prawf ychwanegol gael eu cynnwys sy'n ymdrin â chynigion nad ydynt yn arwain at golli cyfleuster ond a allai effeithio ar ei weithrediad. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu yn rhan o'r CDLl Newydd i amlygu unrhyw gyfleoedd i egluro materion penodol yn well. |
| | **SI 3** | Cyfleusterau Addysg | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau – Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol i sicrhau seilwaith addysg i liniaru effaith datblygiad newydd a'i gefnogi. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo cyfraniadau addysg gan ddatblygiad newydd i ddiweddaru'r hen SPG. Felly, bydd Polisi SI 3 yn cael ei adolygu ochr yn ochr â'r adolygiad o'r SPG ar Rwymedigaethau Cynllunio mewn perthynas â sicrhau darpariaeth addysg, a bydd yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny yn rhan o'r broses. |
| | **SI 4** | Ysbyty Treforys | Angen adolygu'r Polisi – Bydd angen ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol i lywio'r CDLl Newydd ynglŷn â chynlluniau i ehangu Ysbyty Treforys yn y dyfodol fel bod y polisi'n gallu hwyluso datblygiad yn ddigonol fel y bo'n briodol. |
| | **SI 5** | Diogelu Mannau Agored | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol o ran sicrhau bod datblygiad ar fan agored yn dderbyniol neu'n cael ei liniaru'n briodol. Bydd angen adolygu geiriad y cyfiawnhad ategol er mwyn iddo adlewyrchu canllawiau presennol Meysydd Chwarae Cymru (FIT). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SI 6** | Darparu Mannau Agored Newydd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol o ran sicrhau bod mannau agored priodol yn cael eu darparu mewn datblygiad newydd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau ar fannau agored yn cael eu hadolygu yn rhan o'r diwygiadau i'r SPG ar Rwymedigaethau Cynllunio, felly bydd y polisi'n cael ei ddiweddaru yn rhan o'r broses hon. Bydd angen eu diweddaru i gyfeirio at safonau presennol Meysydd Chwarae Cymru (FIT) ar ganllawiau swm a chanllawiau cerdded, ac sydd hefyd yn disodli cyfeiriad at y Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch, gan fod canllawiau FIT yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mannau awyr agored anffurfiol sy'n cynnwys mannau gwyrdd naturiol/lled-naturiol, sy'n nodi'r un targed â'r pecyn cymorth Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch. Meini prawf polisi i ystyried sut mae mannau agored newydd yn darparu buddion amlswyddogaethol seilwaith gwyrdd ehangach. |
| | **SI 7** | Mynwentydd | Angen diwygio – Bydd yr angen am ddarparu mynwentydd yn y dyfodol yn cael ei asesu yn rhan o broses adolygu'r CDLl mewn ymgynghoriad â gwasanaethau profedigaeth. |
| | **SI 8** | Diogelwch Cymunedol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Bydd angen i'r SPG ategol 'Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol' gael eu diweddaru yn rhan o'r Adolygiad o'r CDLl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adfywio a Datblygu Masnachol** | **RC 1** | Adfywio Ardal Ganolog Abertawe | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol – Mae adfywio Ardal Ganolog Abertawe yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol, ond bydd y polisi’n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol wrth iddynt ddod i’r amlwg trwy’r broses adolygu. Bydd angen adolygu ffin yr ardal ganolog hefyd i sicrhau bod yr holl gyfleoedd adfywio perthnasol, fel yr ardal i’r gogledd o’r orsaf drenau a Theatr y Palas, yn cael eu cynnwys. |
| | **RC 2** | Datblygiad Manwerthu a Hamdden | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae’r polisi’n adlewyrchu’r egwyddor canol tref yn gyntaf a argymhellir gan PPW a Chymru’r Dyfodol, ac mae’n gweithio’n effeithiol o ran hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau diffiniedig. Fodd bynnag, bydd angen adolygu ffiniau’r ganolfan fanwerthu yn rhan o’r Adolygiad o’r CDLl i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Ystyrir egluro testun y polisi ymhellach. |
| | **RC 3** | Canolfan Fanwerthu Ardal Ganolog Abertawe | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ond mae angen ei adolygu – Bydd angen i’r polisi gael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r blaenoriaethau adfywio parhaus ar gyfer Canolfan Fanwerthu’r Ardal Ganolog, gan gynnwys diwygiadau i’r ymhelaethiad ar y polisi o ran datblygiadau’n ymwneud â Chynllun Canol Abertawe. |
| | **RC 4** | Ardal Ganolog Abertawe – Ardaloedd Cyflenwol | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ond mae angen ei adolygu – Bydd angen i’r polisi gael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r blaenoriaethau adfywio parhaus ar gyfer Canolfan Fanwerthu’r Ardal Ganolog, gan gynnwys diwygiadau i’r ymhelaethiad ar y polisi o ran datblygiadau’n ymwneud â Chynllun Canol Abertawe. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **RC 5** | Canolfannau Ardal | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau – Bydd angen adolygu meini prawf y polisi gan ystyried dulliau o ailfywiogi canol trefi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19. Bydd ffiniau presennol Manwerthu Canolfannau Ardal yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. |
| | **RC 6** | Canolfannau Lleol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau – Bydd angen adolygu meini prawf y polisi gan ystyried dulliau o ailfywiogi canol trefi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19. Bydd ffiniau presennol Manwerthu Canolfannau Lleol yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. |
| | **RC 7** | Parciau Manwerthu y Tu Allan i'r Canol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Fodd bynnag, bydd ffiniau presennol parciau manwerthu'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. |
| | **RC 8** | Datblygiad Masnachol o fewn Ardaloedd Datblygu Strategol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Mae'r polisi'n hwyluso datblygiad masnachol priodol o fewn Ardaloedd Datblygu Strategol. Bydd yn cael ei adolygu yn seiliedig ar yr opsiynau ar gyfer ymdopi â lefel y datblygiad wrth symud ymlaen. |
| | **RC 9** | Defnyddiau Anfanwerthol Llawr Gwaelod o fewn Canolfannau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau – Bydd angen adolygu meini prawf y polisi gan ystyried dulliau o ailfywiogi canol trefi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19. |
| | **RC 10** | Datblygu Cyflogaeth a Menter | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen newidiadau – Fodd bynnag, gallai arweiniad ychwanegol ar fusnesau/mentrau gwledig wella'r polisi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **RC 11** | Defnyddiau Amgen mewn Lleoliadau Cyflogaeth | Ystyrir bod y Polisi'n gweithio'n llwyddiannus ond mae angen diweddariadau – Mae'r polisi'n llwyddo i reoli defnyddiau nad ydynt yn rhai B1/B2/B8 mewn ardaloedd cyflogaeth. Fodd bynnag, ystyrir y byddai'n fuddiol adolygu'r polisi i roi mwy o arweiniad ar yr hyn sy'n gyfystyr â thir/safle diwydiannol a masnachol sefydledig mewn perthynas ag RC 11, gan nad yw safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u hamlygu'n ofodol ar y map cynigion. |
| | **RC 12** | Datblygiad Swyddfa | Ystyrir bod y Polisi'n gweithio'n llwyddiannus – Mae'r polisi'n llwyddo i gyfeirio swyddfeydd ar raddfa fawr at ganol y ddinas. Bydd geiriad y polisi'n cael ei adolygu a bydd unrhyw welliannau/eglurhad i eiriad y polisi'n cael eu rhoi ar waith. |
| | **RC 13** | Parc Menter Abertawe | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Mae angen ystyried p'un ai diffinio ardal ofodol y Parc Menter ar y Map Cynigion er mwyn rhoi arweiniad mwy eglur ar hyd a lled yr ardal y mae'r polisi'n berthnasol iddi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ecosystem a Chadernid** | **ER 1** | Y Newid yn yr Hinsawdd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae'n gosod y fframwaith polisi i sicrhau bod pob datblygiad yn gydnerth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac yn eu lliniaru, sy'n adlewyrchu un o flaenoriaethau corfforaethol allweddol y Cyngor. Mae'n bosibl y bydd angen i'r polisi roi mwy o bwyslais ar ecosystemau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **ER 2** | Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen ei adolygu – Mae'r polisi'n llwyddo i ddarparu seilwaith gwyrdd newydd yn rhan o ddatblygiad. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod y polisi seilwaith gwyrdd yn adlewyrchu'r natur drawstoriadol a'r angen i fod yn amlswyddogaethol, er enghraifft mewn perthynas â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, mannau agored, lleddfu perygl llifogydd, draenio, teithio llesol, y dirwedd, iechyd a lles, a chreu lleoedd. Dylid ystyried polisi Seilwaith Gwyrdd Strategol trosfwaol. |
| | **ER 3** | Lletemau Glas | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen ei adolygu – Mae'r polisi'n sicrhau bod natur agored a chymeriad Lletemau Glas yn cael eu cadw. Bydd angen i Letemau Glas gael eu hadolygu yn rhan o'r CDLl Newydd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol a'u bod yn cael eu dynodi dim ond lle y ceir angen y gellir ei ddangos i warchod y ffurf drefol a lle na fyddai dulliau polisi amgen, fel ffiniau aneddiadau, yn ddigon cryf. |
| | **ER 4** | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen diweddaru'r polisi i gynnwys yr angen posibl am Arfarniadau Tirwedd a Gweledol (LVA)/Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA), strategaethau goleuo, Asesiadau o Effaith Lliwiau, a photensial tirweddau dynodedig i ddarparu mwy ar gyfer bioamrywiaeth. Dylid amlygu pwysigrwydd dynodiad Cymuned Awyr Dywyll. At hynny, dylai'r polisi gael ei gysylltu â'r SPG diwygiedig Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr a sicrhau bod y geiriad yn gywir ac yn gyson ar draws polisïau'r CDLl mewn perthynas â diogelu'r AHNE. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **ER 5** | Diogelu'r Dirwedd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond bydd angen ei adolygu – Bydd hyd a lled dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig yn cael ei ailasesu ar gyfer y CDLl Newydd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol a bod angen amddiffyniad ychwanegol ar yr ardal dan sylw. Gallai eglurhad pellach ar LIA gael ei wneud yn fwy penodol yn y cyfiawnhad i'r polisi. |
| | **ER 6** | Safleoedd Dynodedig o Bwysigrwydd Ecolegol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond bydd angen ei adolygu – Mae angen adolygu polisïau ER 6, 8 a 9 er mwyn adlewyrchu newidiadau i derminoleg a gyflwynwyd yn 2019 gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a adwaenir fel Rheoliadau 2019) o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a rhwydwaith safleoedd Natura 2000. |
| | **ER 7** | Arfordir Heb ei Ddatblygu | Mae Polisi ER 7 yn gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen iddo gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at Asesiad Cymeriad Morlun Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe, 2017 a'r SPG Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr. Mae angen i Bolisi ER 7 gynnwys cyfeiriad at asesiadau o'r effaith ar y morlun i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **ER 8** | Cynefinoedd a Rhywogaethau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae angen adolygu polisïau ER 6, 8 a 9 er mwyn adlewyrchu newidiadau i derminoleg a gyflwynwyd yn 2019 gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a adwaenir fel Rheoliadau 2019) o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a rhwydwaith safleoedd Natura 2000. |
| | **ER 9** | Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae angen adolygu polisïau ER 6, 8 a 9 er mwyn adlewyrchu newidiadau i derminoleg a gyflwynwyd yn 2019 gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (a adwaenir fel Rheoliadau 2019) o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a rhwydwaith safleoedd Natura 2000. |
| | **ER 10** | Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol o Werth | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Dylai Polisi ER 10 gael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr holl Safleoedd Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) dynodedig yn cael eu hamlygu a bod y cysylltiad â chynnwys geoamrywiaeth mewn Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, lle y bo'n briodol, yn cael ei gryfhau. |
| | **ER 11** | Coed, Gwrychoedd a Datblygiad | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Bydd angen i'r polisi gael ei adolygu er mwyn iddo lwyr adlewyrchu'r SPG Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygiad yng Nghefn Gwlad ac mewn Pentrefi** | **CV 1** | Pentrefi Allweddol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen ei adolygu – Bydd yr holl bentrefi allweddol yn cael eu hadolygu yn rhan o'r CDLl, gan gynnwys ffiniau, yn rhan o adolygiad o aneddiadau. Yn unol â hynny, bydd meini prawf y polisi'n cael eu hadolygu yn rhan o'r broses hon. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **CV 2** | Datblygiad yng Nghefn Gwlad | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Nid yw'n cyfeirio at 'fusnes' newydd, dim ond menter wledig newydd. Mae angen diwygio ffiniau aneddiadau i ystyried caniatadau cynllunio newydd – ymestyn gerddi/cwrtilau/adeiladau y tu hwnt i ffiniau presennol aneddiadau. |
| | **CV 3** | Anheddau Cyfnewid yng Nghefn Gwlad | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Maint, ôl troed, deunyddiau, cyfrifiadau hinsawdd/carbon? |
| | **CV 4** | Trawsnewid Adeiladau Gwledig | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Bydd angen i'r polisi egluro cwmpas adeilad gwledig traddodiadol ymhellach. Bydd angen egluro'r gwahaniaeth rhwng hyn a TR5 yn y polisi ymhellach. |
| | **CV 5** | Arallgyfeirio Ffermydd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen egluro cysylltiadau â Thwristiaeth a pholisïau CV2. Mae angen rhai diweddariadau i wneud geiriad y polisi'n fwy eglur. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Twristiaeth a Hamdden** | **TR 1** | Datblygiad Twristiaeth a Hamdden | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen i'r polisi gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cynnydd yn yr ystod a'r math o adeiladau a llety gwyliau sy'n cael eu datblygu fel llety twristiaeth. Mae angen egluro ymhellach cwmpas cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Twristiaeth a Datblygu (TNDIA) y mae'n ofynnol i ddatblygwr ei gyflwyno. |
| | **TR 2** | Arfordir a Glannau Datblygedig | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. |
| | **TR 3** | Datblygiad Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy yng Nghefn Gwlad | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen egluro ymhellach mai cwmpas y polisi yw ystyried mentrau wedi'u seilio ar weithgareddau yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hytrach na chynigion ar gyfer llety, sy'n derbyn sylw ym mholisïau eraill y cynllun. |
| | **TR 4** | Parc Gwledig Dyffryn Clun a Choed Dyffryn Penllergaer | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. Dylai'r ymhelaethiad i'r polisi gael ei ddiweddaru yng ngoleuni Cynllun Rheoli Parc Gwledig Dyffryn Clun sy'n dod i'r amlwg. |
| | **TR 5** | Llety Gwyliau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae'n bosibl y bydd angen i'r polisi ystyried cynigion sy'n darparu llety gwyliau o fewn terfynau aneddiadau i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u bod o ansawdd digonol. Dylai unrhyw gysylltiadau â Pholisïau CV 2 a CV 5 gael eu hegluro. |
| | **TR 6** | Safleoedd Carafannau Sefydlog, Carafannau Teithiol a/neu Safleoedd Gwersylla Newydd yn yr AHNE | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen rhai diweddariadau – Ailarchwilio'r polisi yng ngoleuni mathau 'mwy newydd' o lety sy'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o garafán a/neu yr ystyrir eu bod yn ddatblygiad gweithredol, a mynd i'r afael â lefelau parhauster yn y dirwedd. |
| | **TR 7** | Safleoedd Carafannau Sefydlog, Carafannau Teithiol a/neu Safleoedd Gwersylla Newydd yn yr AHNE | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. |
| | **TR 8** | Safleoedd Carafannau Sefydlog, Carafannau Teithiol a/neu Safleoedd Gwersylla Presennol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. |
| | **TR 9** | Ardaloedd Gorlif ac Estyniadau i Safleoedd Carafannau Teithiol a/neu Wersylla | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. |
| | **TR 10** | Digwyddiadau Gwersylla 'Gŵyl' Tymor Byr | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |
| | **TR 11** | Ralïau Carafannau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **TR 12** | Storio Carafannau | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |
| | **TR 13** | Defnydd Preswyl o Lety Gwyliau | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Ehangu cwmpas y polisi i ystyried ystafelloedd gerddi/rhandai o ystyried na fyddai llety o’r fath yn addas ar gyfer meddiannaeth breswyl barhaol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trafnidiaeth, Symudiad a Chysylltedd** | **T 1** | Mesurau a Seilwaith Trafnidiaeth | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Bydd angen cynnal astudiaeth trafnidiaeth strategol newydd i lywio’r CDLl Newydd. Bydd y polisi’n cael ei adolygu yn rhan o’r CDLl i adlewyrchu canlyniad yr astudiaeth hon. Bydd angen i’r polisi adlewyrchu amcanion creu lleoedd presennol, fel darparu seilwaith gwyrdd, yr angen am ddarparu ar gyfer Cerbydau Trefol Ysgafn Trydan (ELUVs) mewn datblygiad a chynigion Metro De-orllewin Cymru. |
| | **T 2** | Teithio Llesol | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |
| | **T 3** | Tramwy Bysiau Cyflym Strategol | Bydd angen i’r Polisi gael ei ddiweddaru i adlewyrchu cynigion Metro sy’n dod i’r amlwg |
| | **T 4** | Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |
| | **T 5** | Egwyddorion Dylunio ar gyfer Mesurau a Seilwaith Trafnidiaeth | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol – Mân ddiweddariadau i adlewyrchu’r angen i gynnwys Cerbydau Trefol Ysgafn Trydan (ELUV) a Seilwaith Gwyrdd |
| | **T 6** | Parcio | Angen diwygio – Mae angen adolygu’r polisi yng ngoleuni polisi Cymru’r Dyfodol ar ddim darpariaeth barcio mewn lleoliadau canol dinas a thref |
| | **T 7** | Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybrau Hamdden | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | T 8 | Rhwydwaith Camlesi | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd – Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn rhan o flaenoriaethau adfywio strategol sy'n dod i'r amlwg |
| | T 9 | Porthladd a Dociau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynni a Chyfleustodau** | **EU 1** | Cynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol, ond mae angen ei adolygu – Bydd angen ailystyried fframwaith polisi EU1 ac EU2 yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol a Chymru'r Dyfodol. Bydd Cymru'r Dyfodol yn amlinellu polisïau LIC ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy o 10MW a mwy o dan y weithdrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr yn cael eu cyfeirio tuag at yr Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu ar gyfer Ynni Gwynt yng Nghymru'r Dyfodol. Bydd angen Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gefnogi'r CDLl Newydd er mwyn sefydlu polisïau ar gyfer y lleoliadau mwyaf priodol i ddatblygu datblygiadau ynni islaw 10MW. Yn ogystal, bydd geiriad y polisïau'n cael ei adolygu i adlewyrchu'r hierarchaeth ynni a'r angen i'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas gael ei amddiffyn rhag datblygu mewn cynigion solar oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. |
| | **EU 2** | Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiad Newydd | Gweler y sylwadau mewn perthynas ag EU1 uchod |
| | **EU 3** | Gwresogi ac Oeri Ardal | Angen diwygio – O ystyried y gofyniad yng Nghymru'r Dyfodol i rwydweithiau gwresogi gael eu hystyried yn rhan o ddatblygiad mawr, yn ogystal â'r ffaith bod Abertawe wedi'i nodi'n un o nifer o ardaloedd blaenoriaeth Rhwydwaith Gwresogi Ardal, bydd cwmpas y polisi'n cael ei adolygu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **EU 4** | Cyfleustodau Cyhoeddus a Datblygiad Newydd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |
| | **EU 5** | Seilwaith Telathrebu a Thechnoleg Ddigidol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Diogelu Iechyd y Cyhoedd ac Adnoddau** | **RP 1** | Diogelu Iechyd y Cyhoedd ac Adnoddau Naturiol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Efallai y bydd angen i'r polisi gyfeirio at yr angen posibl am Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. |
| | **RP 2** | Llygredd Sŵn | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen i eiriad y polisi gael ei adolygu yng ngoleuni pwyslais PPW ar yr angen i greu seinweddau priodol a gwarchod ansawdd seinwedd yn hytrach na chanolbwyntio ar lygredd sŵn yn unig. At hynny, disgwylir y bydd TAN 11 newydd ar Sŵn yn cael ei gyhoeddi a fydd yn ymhelaethu ymhellach ar ansawdd aer, sŵn a seinwedd, gan roi mwy o fanylion ynglŷn â sut y dylid mynd i'r afael â nhw mewn cynlluniau datblygu. Felly, bydd terminoleg a chwmpas RC 2 yn cael eu hailystyried yn rhan o'r CDLl Newydd. Yn yr un modd, rhoddir ystyriaeth i gynnwys cyfeiriad at y Map Ardaloedd Tawel a gynhyrchwyd gan CNC |
| | **RP 3** | Llygredd Aer a Golau | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Mae angen i'r polisi gyfeirio at PPW 11 ac enwebiad/dynodiad Cymuned Awyr Dywyll yr AHNE, ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yng ngoleuni adolygiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **RP 4** | Llygredd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen mân ddiweddariadau – Mae angen i'r polisi gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn orfodol ar gyfer pob datblygiad newydd yng Nghymru |
| | **RP 5** | Osgoi Perygl Llifogydd | Angen diwygio – Disgwylir i'r TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio newydd ddod i rym yn 2023, a fydd yn darparu cyd-destun sylweddol wahanol ar gyfer penderfyniadau cynllunio o gymharu â'r fframwaith presennol. O ystyried hyn, bydd angen i'r polisi gael ei adolygu i adlewyrchu'r TAN newydd. |
| | **RP 6** | Halogiad Tir | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Bydd cwmpas y geiriad yn cael ei drafod gyda chydweithwyr Iechyd yr Amgylchedd yn rhan o'r CDLl Newydd. |
| | **RP 7** | Ansefydlogrwydd Tir | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol – Bydd angen i ffiniau Graig Trewyddfa gael eu hadolygu ar gyfer y map cynigion. |
| | **RP 8** | Cynigion Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac nid oes angen unrhyw newid |
| | **RP 9** | Safleoedd Tirlenwi | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ond mae angen diweddariadau – Bydd angen i'r Polisi adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r adroddiad monitro rhanbarthol a diwygio cyfeiriadau at TAN15 i adlewyrchu'r fersiwn ddiweddaraf a fydd ar waith yn 2023. |
| | **RP 10** | Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ar gyfer Datblygiad Newydd | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac nid oes angen unrhyw newid |
| | **RP 11** | Tir Amaethyddol – Gwaredu Gwastraff Anadweithiol | Mae'r Polisi'n gweithio'n effeithiol ac nid oes angen unrhyw newid |
| | **RP 12** | Datblygu Adnoddau Mwynau yn Gynaliadwy | Angen Diwygio – Mae angen i'r polisi gael ei adolygu i adlewyrchu'r angen i ddarparu dosraniad ynglŷn â Datganiad Technegol Rhanbarthol 2. Mae angen iddo gael ei |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ailysgrifennu i adlewyrchu’r angen i ddarparu dosraniad mewn perthynas â Datganiad Technegol Rhanbarthol 2. |
| | **RP 13** | Diogelu Mwynau | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol ond caiff ei adolygu ar gyfer unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol |
| | **RP 14** | Parthau Clustogi Mwynau | Mae’r Polisi’n gweithio’n effeithiol ac nid oes angen unrhyw newid |

## Atodiad 2: Statws Dyraniadau'r CDLI

| Rhif Cyf. Map | Cyf. y CDLI | Enw'r safle | Crynodeb o'r statws cynllunio / adeiladu | Perchnogaeth / hyrwyddwr safleoedd heb eu hadeiladu sy'n weddill | Capasiti |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | H1.01 | Gweddill hen Faes y Vetch (Cam 2), Glamorgan Street | Mae mwyafrif y safle yn cael ei ddefnyddio fel parc. Cyfleoedd tir llwyd bach ar feysydd parcio oddi ar Stryd Madog yn y cam cyn cynllunio | Cyngor | 40 |
| 2 | H1.02 | Campws Llwyn y Bryn, Walter Road | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 200 |
| 3 | H1.03 | Campws Townhill, Townhill Road, Townhill | Ar y safle | - | 160 |
| 4 | H1.04 | Tir rhwng Bog Road a Cefn Hengoed Road, Llansamlet | Cais cynllunio wedi'i wrthod | Preifat | 70 |
| 5 | H1.05 | Tir yn Upper Bank, Pentrechwyth | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 256 |
| 6 | H1.06 | Tir yn Jersey Road gyferbyn â rhifau 16-38, Pentrechwyth | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 20 |
| 7 | H1.07 | Tir y tu cefn i 17-93 Carmel Road, Winch Wen | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 65 |
| 8 | H1.08 | Tir yn Tŷ Draw Road a Llanerch Road, Bôn-y-maen | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 55 |
| 9 | H1.09 | Tir ym Mhen Gogleddol Graigola Road, Glais | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 25 |
| 10 | H1.10 | Tir yn Tanycoed Road, Clydach | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 20 |
| 11 | H1.11 | Tir yn Ramsey Road, Clydach | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 60 |
| 12 | H1.12 | Fferm Talycopa, Llansamlet | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 150 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | H1.13 | Tir ym Midland Place, Llansamlet | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 30 |
| 14 | H1.14 | Fferm Heol Ddu, Birchgrove | Wedi'i adeiladu | - | 23 |
| 15 | H1.15 | Tŷ Gwernllwynchwyth, Llansamlet | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 50 |
| 16 | H1.16 | Tir yn Frederick Place, Llansamlet | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 20 |
| 17 | H1.17 | Hen Glwb y Four Seasons, Trallwn | Wedi'i adeiladu | - | 41 |
| 18 | H1.18 | Tir yn David Williams Terrace, Port Tennant | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 15 |
| 19 | H1.19 | Tir i'r dwyrain o Pontarddulais Road, Gorseinon | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 90 |
| 20 | H1.20 | Parc Melin Mynach, Gorseinon | Wedi'i adeiladu | - | 36 |
| 21 | H1.21 | Hen Lofa Cefn Gorwydd, Gorwydd Road, Tre-gŵyr | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 99 |
| 22 | H1.22 | Tir yn West Street (hen Barc Busnes Gorseinon), Gorseinon | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 20 |
| 23 | H1.23 | Tir yn Carmel Road a Bryntirion Road, Pontlliw | Cais cynllunio llawn wedi'i dderbyn ac yn cael ei benderfynu | Preifat | 100 |
| 24 | H1.24 | Tir yn The Poplars, Pontlliw | Cais cynllunio llawn yn aros am benderfyniad | Preifat | 12 |
| 25 | H1.25 | Beili Glas, Glebe Road, Casllwchwr | Caniatâd cynllunio llawn | Landlord Cymdeithas ol Cofrestredig | 98 |
| 26 | H1.26 | Tir yn Hen Swyddfeydd Dinesig Penllergaer, Penllergaer | Wedi'i adeiladu | - | 80 |
| 27 | H1.27 | Tir i'r gogledd o Llewellyn Road, Penllergaer | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle. Forms a potential later phase of adjacent site which has received planning consent | Preifat | 50 |
| 28 | H1.28 | Gweddill y Tir i'r Dwyrain o Waith Brics Bolgoed, Bolgoed Road, Pontarddulais | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 50 |
| 29 | H1.29 | Tir i'r dwyrain o Garreg Teilo, Pontarddulais | Cam cyn-gynllunio | Preifat | 30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 | H1.30 | Tir ar Fferm Tyrisha, Pengelli-ddrain | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 60 |
| 31 | H1.31 | Tir oddi ar Brynafon Road a Gower View Road, Penyrheol | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 144 |
| 32 | H1.32 | I'r De o Glebe Road, Casllwchwr | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 115 |
| 33 | H1.33 | Hen Ffatri Walkers, Pontarddulais Road, Cadle | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 100 |
| 34 | H1.34 | Tir gerllaw 114 Brithwen Road, Waunarlwydd | Mae gan fwyafrif y safle ganiatâd cynllunio llawn | Preifat | 15 |
| 35 | H1.35 | Tir gerllaw Pwll y Cocyd | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 50 |
| 36 | H1.36 | Penrhos Place, Gendros | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 60 |
| 37 | H1.37 | Ysgol Gynradd Trefansel, Manor Road, Trefansel | Cais cynllunio llawn wedi ei gyflwyno | Preifat | 30 |
| 38 | H1.38 | Tir ym Mynydd Garnllwyd Road, Treforys | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 95 |
| 39 | H1.39 | Tir y tu cefn i Ysgol Gynradd Glyncollen, Treforys | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 35 |
| 40 | H1.40 | Brayley Road, Treforys | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 15 |
| 41 | H1.41 | Tir yng Nghadle, Fforestfach | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 50 |
| 42 | H1.42 | Tir rhwng Eppynt Road a Bettws Road, Penlan | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Cyngor | 10 |
| 43 | H5.01 | Tir ym Monksland Road, Scurlage | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 25 |
| 44 | H5.02 | Tir i'r dwyrain o Gowerton Road, y Crwys | Dim gweithgarwch hysbys ar hyn o bryd i gyflwyno'r safle | Preifat | 15 |
| 45 | H5.03 | Tir yn cyffinio â Tirmynydd Road, y Crwys | Cam cyn-gynllunio | Preifat | 20 |
| 46 | H5.04 | Tir yn cyffinio â Pennard Drive, Pennard | Wrthi'n cael ei adeiladu | - | 70 |
| 47 | H5.05 | Tir yn Summerland Lane, Newton | Wedi'i adeiladu | - | 61 |
| 48 | H5.06 | Tir yn Higher Lane, Langland | Ar y safle | - | 31 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 49 | SD 1.A | I'r de o Glanffrwyd Road, Pontarddulais | Cam cyn-gynllunio | Preifat | 720 |
| 50 | SD 1.B | I'r gogledd o Garden Village | Caniatâd cynllunio Materion a Gedwir yn Ôl ar gyfer y safle cyfan | Preifat | 705 |
| 51 | SD 1.C | I'r de o'r A4240, Penllergaer | Wrthi'n cael ei adeiladu | Preifat | 850 |
| 52 | SD.1.D | I'r gorllewin o Llangyfelach Road, Penderi | Caniatâd cynllunio amlinellol. Caniatâd cynllunio Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Camau 1A a 3A a Spine Street | Preifat | 1950 |
| 53 | SD 1.E | I'r gogledd o Clasemont Road, Treforys | Cam cyn-gynllunio | Preifat | 600 |
| 54 | SD 1.F | Ysbyty Cefn Coed, Tycoch | Cam cyn-gynllunio | Sector cyhoeddus arall | 500 |
| 55 | SD 1.G | I'r gogledd-orllewin o Gyffordd 46 yr M4, Llangyfelach | Cais cynllunio amlinellol yn cael ei benderfynu | Sector cyhoeddus arall | 800 |
| 56 | SD 1.H | I'r gogledd o Waunarlwydd / Fforestfach | Cais cynllunio amlinellol yn cael ei benderfynu ar gyfer rhan o'r safle | Preifat | 1319 |
| 57 | SD.1.I | Cwm Tawe | Cam cyn-gynllunio | Cyngor | 450 |
| 58 | SD.1.J | Yr Ardal Ganolog a'r Glannau | Safleoedd wrthi'n cael eu hadeiladu ac yn cael eu cyflwyno | Cymysg | 906 |
| 59 | SD 1.K | Gweddill Coridor Ffordd Fabian | Safleoedd wedi cael eu hadeiladu a cheisiadau cynllunio ychwanegol yn cael eu penderfynu | Cymysg | 525 |
| 60 | SD.1.L | Coridor Glannau Tawe a Copperworks Hafod Morfa | Safleoedd defnydd cymysg y Gwaith Copr yn cael eu hadeiladu. Cynllun Skyline yn y cam cyn cynllunio. Ni dderbyniwyd cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl | Cymysg | 370 |

# Atodiad 3: Rhestr Termau a Byrfoddau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Adolygiad Byr (SFR) | Gallai hwn fod yn briodol mewn amgylchiadau pan nad yw'r materion dan sylw'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn adolygiad llawn o'r cynllun. |
| Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad SA) | Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu yn rhan o'r broses SA i ddisgrifio ac arfarnu effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu'r CDLl ar gynaliadwyedd, sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau SEA. Mae A62(6) Deddf 2004 yn mynnu bod pob ACLl yn paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r SA o'r CDLl. – Cynhyrchir yr Adroddiad SA yn gyntaf ar y cam Strategaeth a Ffefrir (yr Adroddiad SA Interim), ac ymhelaethir arno ar y cam CDLl Adnau. |
| Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) | Adroddiad i asesu i ba raddau y mae'r polisïau yn y CDLl mabwysiedig yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (2005)). |
| Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae A62(6) Deddf 2004 yn mynnu bod pob ACLl yn cynnal SA o'r CDLl. Mae SA o'r math hwn yn ymgorffori gofynion y Rheoliadau SEA yn llawn. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) | Asesiad integredig unigol sy'n bodloni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer:<br>• Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA),<br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA),<br>• Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA),<br>• Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (WLIA), a<br>• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG). |
| Arolygydd | Yr unigolyn a benodir gan yr Arolygiaeth Gynllunio i ystyried y CDLl a chynnal yr Archwiliad yn gyhoeddus. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) | Term a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i gynlluniau a rhaglenni. Mae'r broses SEA yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac fe'i diffinnir ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau SEA) yn mynnu "asesiad amgylcheddol [ffurfiol] o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai hynny ym maes cynllunio a defnyddio tir". |

| | |
|---|---|
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) | Y broses sgrinio ac asesiad priodol o opsiynau sy'n ofynnol o dan Ran 6 Pennod 8 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) – proses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu i bennu'r effaith arwyddocaol debygol ar gynllun neu raglen a (lle y bo'n briodol) asesu effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd. Mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal gan awdurdod cymwys mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol (yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 TAN 5), neu fel mater polisi "safle Ewropeaidd" arfaethedig neu safle Ramsar, o dan ddarpariaethau Erthygl 6(3) Cyfarwyddeb 92/43/ECC y Comisiwn Ewropeaidd (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), a rheoliad 25 Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 2007. |
| Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi CDLl. |
| Cam Cyn-adneuo | Y camau cyfranogi ac ymgynghori cyn adneuo (gweler uchod). |
| Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) | Gall y rhain gyflawni swyddogaeth allweddol wrth ddehongli ac ymhelaethu ar bolisïau generig mewn CDLlau. Dylai pob SPG ddeillio o bolisi CDLl neu, o ran briff datblygu/prif gynllun, o ddyraniad safle. |
| CDLl Adnau | Dyma'r Cynllun y mae'r ACLl o'r farn ei fod yn gadarn ac yn gallu cael ei fabwysiadu. Bydd yn destun cyfnod ymgynghori ffurfiol o chwe wythnos pryd y gall unigolion a sefydliadau wneud sylwadau ar y Cynllun. |
| Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) | Mae hwn yn amlinellu sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio'r cynllun. Mae'r CIS yn rhan o'r Cytundeb Cyflawni (gweler isod). |
| Cynllun Datblygu Strategol (CDS) | Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer paratoi CDSau ar lefel ranbarthol. Bydd CDS yn ystyried Cymru'r Dyfodol ac yn ymateb i faterion strategol ar lefel ranbarthol. |
| Cynllun Lles Lleol | O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, ac maen nhw'n paratoi Cynllun Lles. |
| Cynllun Morol | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |
| Cytundeb Cyflawni (DA) | Datganiad cyhoeddus cryno yw hwn sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS), sy'n amlinellu sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio'r cynllun ac amserlen ar gyfer paratoi/adolygu CDLl. |
| Llinell sylfaen | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal i'w ddefnyddio i fesur newid. |
| Mesurau Lliniaru | Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol arwyddocaol. |
| Polisi Cynllunio Cymru (PPW) | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Rhwymedigaeth Gynllunio | Cytundeb cyfreithiol rhwng ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gynnal mewn ffordd benodol. Cyfeirir ato hefyd fel Cytundeb Adran 106. |

| | |
|---|---|
| Safle Ymgeisiol | Safleoedd Ymgeisiol yw'r rhai hynny a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) fel dyraniadau mewn CDLl sy'n dod i'r amlwg. |
| Seilwaith Gwyrdd (GI) | Y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n britho a chysylltu lleoedd. Gall yr elfennau sy'n rhan o seilwaith gwyrdd weithredu ar wahanol raddfeydd. Ar raddfa'r dirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan fel gwlyptiroedd, dyfrffyrdd a chadwyni o fynyddoedd. Ar raddfa leol, fe allai gynnwys parciau, meysydd, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol fel coed strydoedd, gwrychoedd, lleiniau ymyl ffordd, a thoeon/waliau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd. |
| Sylfaen Dystiolaeth | Gwybodaeth / data i ddarparu'r sail i bolisïau'r Cynllun. |
| Tai Fforddiadwy | At ddibenion y system cynllunio defnydd tir, tai fforddiadwy yw tai lle mae dulliau diogel ar waith i sicrhau eu bod ar gael i'r rhai na allant fforddio tai marchnad, yn feddianwyr cyntaf a meddianwyr dilynol fel ei gilydd. Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol a berchnogir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thai canolraddol lle mae'r prisiau neu'r rhent yn uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu rent tai marchnad (Polisi Cynllunio Cymru). |

**Byrfoddau**

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| AAR | Gofyniad Blynyddol Cyfartalog |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| BBaChau | Busnesau Bach a Chanolig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CDS | Cynllun Datblygu Strategol |
| CJC | Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CNPT | Castell-nedd Port Talbot |
| DVM | Model Hyfywedd Datblygu |
| FMfP | Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio |
| GI | Seilwaith Gwyrdd |
| GTAA | Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr |
| HIA | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd |
| HiAP | Iechyd ym Mhob Polisi |
| HMO | Tŷ Amlfeddiannaeth |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IDP | Cynllun Cyflawni Seilwaith |
| ISA | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| LEAP | Ardal Chwarae â Chyfarpar Lleol |
| LHMA | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol |
| LVA | Arfarniad Tirwedd a Gweledol |
| LVIA | Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MYE | Amcangyfrif Canol Blwyddyn |

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| NGA | Ardal Dwf Genedlaethol |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PBSA | Llety Pwrpasol i Fyfyrwyr |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru |
| REA | Asesiad Ynni Adnewyddadwy |
| REDP | Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol |
| REF | Fframwaith Economaidd Rhanbarthol |
| RIGS | Safleoedd Daearegol sy'n Bwysig yn Rhanbarthol |
| RM | Materion a Gedwir yn Ôl |
| RSL | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| RTS | Datganiad Technegol Rhanbarthol |
| SA | Arfarniad Cynaliadwyedd |
| SDA | Ardal Datblygu Strategol |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SFCA | Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol |
| SFR | Adolygiad Byr |
| SHPZ | Ardal Polisi Tai Strategol |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SoNaRR | Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| SuDS | System Ddraenio Gynaliadwy |
| SW | De Cymru |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| TNDIA | Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Twristiaeth a Datblygu |
| WDQR | Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru |
| WLAP | Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg |
| WLIA | Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg |
| WLSA | Ardal Sensitif o ran y Gymraeg |
| WPMR | Adroddiad Monitro Cynllun Gwastraff |